# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 29 GORFFENNAF 2013 am 2.00 o'r gloch y prynhawn | | MONDAY, 29 JULY, 2013 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL /INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G.O.Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Peter Rogers

**LLAFUR/LABOUR**

Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**Aelodau Cyfetholedig gyda phleidlais pan yn trafod materion yn ymwneud ag Addysg / Co-opted Members with voting rights when dealing with Educational matters**

Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales) a
Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 30 MAI, 2013** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2013.

3 **BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 3 - 12)

Derbyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac ystyried y Flaen Rhaglen Waith sydd wedi'i hawgrymu.

4 **ENWEBIADAU PWYLLGOR 2013/14** (Tudalennau 13 - 14)

Ystyried enwebu aelodau i wasanaethu ar y panelau/gweithgor canlynol yn unol â'r adroddiad amgaeëdig –

- Panel Rhiantu Corfforaethol
- Panel Rhagoriaeth Gofal Cwsmer
- Gweithgor Polisi Gosod Tai
- Bwrdd Prosiect Gweithio'n Well

5 **CYNGOR POBL HYN YNYS MÔN** (Tudalennau 15 - 16)

Ystyried cais gan Gyngor Pobl Hyn Ynys Môn am adolygiad sgriwtini o gostau gwasanaethau mewn llety preswyl.

6 **MATERION CYLLIDOL - RHAGDYBIAETHAU AC AMSERLEN AR GYFER CYLLIDEB 2014/15** (Tudalennau 17 - 58)

Ystyried y canlynol –

- Rhagdybiaethau ac Amserlen ar gyfer Cyllideb 2014/15 *(Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod 15 Gorffennaf y Pwyllgor Gwaith)*
- Diweddariad ar Raglen Effeithlonrwydd 2012-13
- Canlyniadau Dros Dro Cyllideb Refeniw 2012/13 *(Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod 10 Mehefin y Pwyllgor Gwaith)*
- Canlyniadau Gyllideb Gyfalaf 2012/13 *(Adroddiad a gyflwynwyd i gyfarfod 10 Mehefin y Pwyllgor Gwaith)*
- Diweddariad ar Reoli Risg ac Yswiriant

7 **MATERION PERFFORMIAD - SGORFWRDD CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2013-14** (Tudalennau 59 - 88)

Ystyried y canlynol –

- Sgorfwrdd Corfforaethol Chwarter 1 2013-14
- Diweddariad interim ar Adroddiad Perfformiad 2012-13
- Gwneud Gwahaniaeth – Prosiect Cynllunio Busnes ac Ymgysylltu ynglyn â'r Gyllideb – Cynllun Marchnata a Chyfathrebu

8 **LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBUDSMON 2012/13 AR GYFER CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 89 - 100)

Ystyried unrhyw wersi i'w tynnu o'r Llythyr sy'n berthnasol i'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu.

9 **MATERION ER GWYBODAETH - TREFNIADAU DIOGELU I OEDOLION SY'N AGORED I NIWED** (Tudalennau 101 - 156)

Cyflwyno'r canlynol er gwybodaeth y Pwyllgor –

- Adroddiad ar weithgaredd 2012-13 mewn perthynas â threfniadau diogelu i oedolion sy'n agored i niwed 2012/13
- Adroddiad monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012-13

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Mai, 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos M.Huws G.O.Jones, R.Meirion Jones, Raymond Jones, R.Llewelyn Jones |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Gwasanaethau Cyfreithiol a Gweinyddol)/ Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Victor Hughes |

---

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd R.Meirion Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**3. IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd G.O.Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn.

**Cynghorydd Gwilym O.Jones**
**(fel Cadeirydd y Cyngor Sir)**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **29 GORFFENNAF 2013** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **RHAGLEN WAITH** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **RHEOLYDD SGRIWTINI** |
| **CAMAU GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL:** | **GOFYNNIR I'R PWYLLGOR GYMERADWYO, DIWYGIO NEU NEWID EI RAGLEN WAITH FEL Y GWÊL YN BRIODOL** |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno rhaglen waith ddrafft (Atodiad 1) i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo, ddiwygio neu newid ei Raglen Waith fel y gwêl yn briodol.

1.2 Pwrpas y rhaglen waith yw nodi blaenoriaethau'r Cyngor yn y flwyddyn sirol gyfredol (Mai 2013 i Mai 2014). Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai bod pobl yn cael gwybod am swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor a'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud. Bydd y rhaglen waith yn cael ei chynnwys ar dudalennau gwe'r Uned Sgriwtini ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ynghylch materion sgriwtini.

1.3 Dylid nodi, unwaith y bydd rhaglen waith wedi ei chytuno, yr adroddir arni i bob cyfarfod o'r Pwyllgor (i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried cynnwys eitemau newydd neu ohirio/dynnu eitemau cyfredol, a chynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf). Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei diweddaru a'i bod ar gael i'r cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

## 2.0 CEFNDIR

2.1 Er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 1.2 os gwelwch yn dda) rhaid i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sefydlu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sirol Mai 2013 i Fai 2014. Fel gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini, dylai'r gwaith a wneir fod o fudd i'r Cyngor. Pwrpas cynllunio ymlaen llaw yw:

- Nodi materion sy'n achosi pryder neu ffyrdd y gall Sgriwtini gyfrannu at nodau cyffredinol y Cyngor.
- Cytuno pa Bwyllgor Sgriwtini sydd fwyaf addas i ddelio gyda phob pwnc (e.e. adroddiad i Bwyllgor, Archwiliad gan Banel neu adroddiadau gwaith parhaus).

- Cynllunio sut y gellir gwneud gwaith o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac o fewn amserlenni rhesymol.

2.2 Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, rhaid i Bwyllgor Sgriwtini fod yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun. Dylai bennu ei raglen waith mewn ymgynghoriad gyda phob aelod o'r Pwyllgor ac, os oes modd, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion perthnasol. Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried cyfeiriadau gan y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor neu Bwyllgorau eraill.

## 3.0 CYLCH GORCHWYL

3.1 Mae Erthygl 6 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu cylch gorchwyl pob Pwyllgor Sgriwtini, ynghyd â'u swyddogaethau a'u haelodaeth ac mae'r Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini i'w gweld yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

3.2 **Cylch Gorchwyl**

- Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gael sicrwydd ynglŷn â'r modd y mae'r holl wasanaethau'n perfformio ac yn cyflawni gan sicrhau fod y Cyngor yn cwrdd â'i amcanion corfforaethol a gwasanaeth (fel y cawsant eu hamlinellu yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol), y Gyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllidebol a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol (neu gynlluniau a pholisïau olynol) a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Adolygu neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwaith wrth gyflawni ei swyddogaeth ac yng nghyswllt y penderfyniadau a wnaed ond "a alwyd i mewn" neu na weithredwyd arnynt i argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid ailystyried y penderfyniadau hynny.
- Adolygu neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd yng nghyswllt swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith, ac eithrio na fydd y pŵer hwn yn ymestyn i waith sgriwtineiddio penderfyniadau unigol ynglŷn â rheoli datblygu, trwyddedu, cofrestru neu unrhyw geisiadau eraill am ganiatadau neu hawliau.
- Sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.3 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (fel y manylir arno yn y Cyfansoddiad ac fel yr amlinellir ef uchod) yn fanwl, ac i gynorthwyo aelodau yn eu dyletswyddau, byddai'n deg crynhoi'r swyddogaethau allweddol ar ffurf y pwyntiau bwled isod:

- Monitro perfformiad gwasanaethau mewnol o ran polisïau a chynlluniau.
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau a strategaethau mewnol.
- Cynrychioli barn y cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaethau mewnol a ddarperir.
- Gweithredu fel "cyfaill beirniadol" i'r Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Prif Swyddogion (UDA)
- Cyfarfod yn chwarterol i adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol a'r penderfyniadau cyllidebol a wnaed.
- Diweddaru rhaglen waith y Pwyllgor.

**4.0 CASGLIAD**

4.1 Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried ei raglen waith ddrafft fel y manylir arni yn **ATODIAD 1** a’i chymeradwyo neu ei newid fel y gwêl yn briodol.

4.2 Wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith, mae’n ddefnyddiol i Bwyllgorau Sgriwtini gadw rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith mewn cof. I’r pwrpas hwn, mae copi o flaenraglen y Pwyllgor Gwaith ynghlwm yn **ATODIAD 2.**

Awdur: Bev Symonds Dyddiad: 1 Gorffennaf 2013
Teitl y Swydd: Rheolydd Sgriwtini

| |
|---|
| ATODIAD 1- Rhaglen Waith Drafft |
| ATODIAD 2- Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith |

*ATODIAD 1*

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd:  Y Cynghorydd Meirion Jones
Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O. Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o fis Mai 2013 i fis Mai 2014.  Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt:  Gareth Bayley-Hughes (Swyddog Sgriwtini) neu Bev Symonds (Rheolydd Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752079/2078
E-bost: gbhcee@ynysmon.gov.uk neu bsxce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Pwyllgor | Eitem/Awdur yr Adroddiad | Pwrpas | Lleoliad/Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **30.5.13** | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor | Mae angen i'r Pwyllgor ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar ddechrau blwyddyn sirol newydd 2013/14. | Siambr y Cyngor – WEDI'I WNEUD |
| | | | |
| **29 Gorffennaf 2013** | Cylch Gorchwyl a Blaenraglen Waith y Pwyllgor | Rheolydd Sgriwtini | Ystafell Bwyllgor 1 am 2pm |
| | Angen enwebiadau ar gyfer:<br>(i) Gweithgor Polisi Gosod Tai<br>(ii) Panel Rhiant Corfforaethol<br>(iii) Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer | Enwebu aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar amryfal Banelau:<br>(i) Swyddog sy'n arwain o'r gwasanaeth (Shan Williams)<br>(ii) PRhC yn gweithredu ar ran y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir i blant/pobl ifanc sydd mewn gofal o safon uchel (Anwen Hughes)<br>(iii) 3 Bwrdd Rhaglen y Cynllun Trawsnewid yn goruchwylio ac yn gyrru newid drwy gyfrwng rhaglenni a phrosiectau yn y Cyngor (Carol Wyn Owen) | |
| | Cais gan Gyngor Pobl Hŷn Ynys Môn am Adolygiad Sgriwtini o gostau cyfleustodau mewn llety preswyl [derbyniwyd llythyr gan CPHYM ym Mehefin 2013] | Byddai hyn yn sgriwtineiddio cyn gwneud penderfyniad oherwydd mae'n effeithio grŵp mawr o drigolion Ynys Môn ac o'r herwydd mae'n cwrdd â gofynion y Prawf Sgriwtini i gael ei roi ar y rhaglen. Yr awgrymiad yw y dylai'r Pwyllgor sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini ac y dylai'r Cadeirydd a'r Rheolwr Gwasanaeth perthnasol gytuno ar y Meini Prawf er mwyn hwyluso cwblhau'r dasg. | |
| | Materion Ariannol<br>(i) Adroddiad ar Ragamcanion Cyllidebol 2014/15 (Pwyllgor Gwaith 15 Gorffennaf)<br>(ii) Canlyniadau rhaglen effeithlonrwydd 2012/13 (yn adroddiad Ch1)<br>(iii) Y gofrestr risg – sefyllfa ddiweddaraf<br>(iv) Adroddiadau Canlyniad 2011/12 – (a) refeniw (b) cyfalaf | RÔL MONITRO CYLLIDEB | |
| | Materion Perfformiad<br>(i) Diweddariad interim ar adroddiad terfynol Ch4 | RÔL MONITRO PERFFORMIAD | |

| Dyddiad y Pwyllgor | Eitem/Awdur yr Adroddiad | Pwrpas | Lleoliad/Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | (diwedd 2012/13)<br>(ii) Papur ymgysylltu diweddaraf mewn perthynas â phennu blaenoriaethau newydd y Cyngor ar gyfer Cynllun y Cyngor<br>(iii) CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – Ch 1 | | |
| | Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2012-13 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn | - Darllen ac ystyried unrhyw wersi cyffredinol sy'n berthnasol i'r gwasanaethau y mae CSYM yn eu darparu | |
| | (I). Diogelu/Amddiffyn Oedolion Bregus – Adroddiad Blynyddol 2012-13 - Anwen Davies<br>(I)I. Polisi Iaith Gymraeg - Adroddiad Monitro - Carol Owen | **<ADRODDIADAU ER GWYBODAETH** : eu darllen os gwelwch yn dda a sylwadau i'r Cadeirydd | |
| | | | |
| 28 Hydref 2013 | - <u>MATERION PERFFORMIAD</u><br>- Cerdyn Sgorio Ch2 | RÔL MONITRO PERFFORMIAD | Ystafell Bwyllgor 1 / 2pm |
| | <u>MATERION CYLLID</u><br>- Cyllideb Ch2<br>- Strategaeth Cyllideb Tymor Canol<br>- Diweddariad ar Arbedion | RÔL MONITRO CYLLIDEB | |
| | Adroddiad Gwella Blynyddol | Penderfynu ar yr argymhellion yn yr adroddiad (os o gwbl) y mae angen monitro camau gweithredu'r gwasanaethau perthnasol yn eu cylch | |
| | <u>MATERION ADDYSG</u><br>Adroddiad Gwaith ar y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg<br><br>GWAHODD AELODAU CYFETHOLEDG | Mofyn sicrwydd fod cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â chynllun gweithredu ôl-arolwg Estyn yn unol â'r targedau a bennwyd a derbyn diweddariadau ar y Panelau, h.y. i) Safonau Addysg & ii) Grŵp Adolygu Perfformiad Ysgolion (ymwelodd y cyn-Aelodau Etholedig ar y Pwyllgor Sgriwtini Addysg â gwahanol ysgolion i fonitro cynnydd). | |

| Dyddiad y Pwyllgor | Eitem/Awdur yr Adroddiad | Pwrpas | Lleoliad/Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol AD | | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor fel y gall y Pwyllgor ei chymeradwyo, ei hadolygu neu ei diwygio. | |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiad | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd | |
| | | | |
| 9 Rhagfyr 2013 | Materion Cyllidebol | Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb. Ar 14 Ionawr 2014, bydd Sgriwtini, mewn cyfarfod ar y cyd, yn canolbwyntio'n unig ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb er mwyn cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith unrhyw sylwadau ar eu cynigion ac fel y gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud argymhelliad(argymehllion) ffurfiol. | Ystafell Bwyllgor 1 / 2pm |
| | I'W DREFNU | | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor fel y gall y Pwyllgor ei chymeradwyo, ei hadolygu neu ei diwygio. | |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiad | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd | |
| | | | |
| 14 Ionawr 2014 10am | SGRIWTINI AR Y CYD YN YSTYRIED CYLLIDEB DDRAFFT 2014/15 | Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ystyried Cynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb. Ar 14 Ionawr 2014, bydd Sgriwtini yn canolbwyntio'n unig ar y cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb er mwyn cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith unrhyw sylwadau ar eu cynigion ac fel y gall y Pwyllgor Sgriwtini wneud argymhelliad(argymehllion) ffurfiol. | Ystafell Bwyllgor 1 – (10am) |
| 14 Ionawr 2014 2pm | | | Ystafell Bwyllgor 1 - 2pm |
| | | | |
| | | | |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor fel y gall y Pwyllgor ei chymeradwyo, ei hadolygu neu ei diwygio. | |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiad | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd | |

| Dyddiad y Pwyllgor | Eitem/Awdur yr Adroddiad | Pwrpas | Lleoliad/Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 4 Chwefror 2014 | Cerdyn Sgorio Ch3 | | |
| | <u>MATERION CYLLIDEBOL</u><br>- Adroddiad ar y Gyllideb Ch3<br>- Ymgynghori ar Gynigion Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2014-15 | | Ystafell Bwyllgor 1 am 2pm |
| | Rhaglen Waith | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor fel y gall y Pwyllgor ei chymeradwyo, ei hadolygu neu ei diwygio. | |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiad | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd | |
| | | | |
| 28 Ebrill 2014 | Cerdyn Sgorio Ch4 | RÔL MONITRO PERFFORMIAD | |
| | <u>MATERION CYLLIDEBOL</u><br>- Diweddariad ar Gyllideb Ch4 | RÔL MONITRO CYLLIDEBOL | |
| | <u>Cynlluniau Darparu Gwasanaeth</u><br>- CDG yr holl gyfadrannau gan gynnwys yr elfennau o risg | Dadansoddiad ar gyfer penderfynu/cynllunio ar gyfer Rhaglenni Gwaith 2014-15 | |
| | Diweddariad gan y Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac unrhyw gyhoeddiad | Derbyn gwybodaeth gan y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd | |
| Eitemau ychwanegol a gyflwynir yn y man i gynnwys:<br>• Sesiwn hyfforddiant ar arferion gorau ac ati | | | |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| Dyddiad y cyfarfod: | 29 Gorffennaf 2013 |

# Enwebiadau Pwyllgor ar gyfer 2013-14

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Gofyn am enwebiadau gan aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer;-

I. Panel Rhiant Corfforaethol o fis Mai 2013 i fis Mai 2014
II. Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmer, a
III. Gweithgor Polisi Gosod Tai newydd

**2.0 CEFNDIR**

2.1 **Pwrpas y Panel Rhiant Corfforaethol:** gweithredu ar ran y Cyngor i sicrhau fod yr holl wasanaethau sydd â chyfrifoldeb i blant a phobl ifanc y gofelir amdanynt a gadawyr gofal, o safon uchel ac yn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â'u cymheiriaid. Cynhelir oddeutu 4 o gyfarfodydd arferol o'r Panel bob blwyddyn ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol. Yr aelod a enwebwyd i wasanaethau ar y Panel o fis Mai 2012 i fis Mai 2013 oedd y Cynghorydd J V Owen. Ar gyfer 2013-14, gofynnwyd am ddau enwebiad, y naill gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r llall gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

2.2 **Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer:** Maes gwaith y bwrdd yw rhoi sylw i'r ffrydiau gwaith isod i wella gwasanaethau cwsmer:

- *Grymuso Staff ac Agweddau* (yn cynnwys: recriwtio'r bobl iawn gyda'r agweddau iawn, hyfforddi a newid agwedd staff cyfredol a grymuso staff i gymryd penderfyniadau o fewn canllawiau'r polisïau y maent yn gweithio iddynt)
- *Disgwyliadau* (yn cynnwys y safonau Siarter - prydlondeb, ansawdd) *Mynediad* (yn cynnwys y dull gwasanaethau cwsmer e.e. siop un stop, un pwynt cyswllt - systemau CRM, datblygu'r we a mynediad i'ch gwybodaeth chi).
- *Delwedd* (yn cynnwys ansawdd yr amgylchedd/adeiladau y mae'r cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth ynddynt - safonau cyson ar draws yr ALl, gan gydnabod fod hyn yn cael effaith hefyd ar ysbryd y staff a'r argraff a roddir i'r cyhoedd a delwedd y staff - safonau sylfaenol /côd o ran gwisg).

Gofynnir i’r Aelodau Etholedig fynychu ei gyfarfod/ei chyfarfod cyntaf ym mis Medi (dyddiad i’w gadarnhau).  Bydd y swyddog perthnasol yn fodlon iawn i ddarparu brîff petai raid.

2.3 **Gweithgor Polisi Gosod Tai:** Grŵp Tasg a Gorffen a fydd yn cael ei arwain gan Swyddogion Tai Arbenigol oherwydd cymhlethdod a natur dechnegol y Polisi Gosod Tai.  Bydd arno hyd at 4 o Aelodau Etholedig a bydd yn rhoi atborth i’r Pwyllgor Sgriwtini yn ystod oes y grŵp – nid yw’n debygol o gymryd mwy na chwe mis.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod o’r Pwyllgor i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol o fis Mai 2013 i fis Mai 2014.

3.2 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu un aelod i wasanaethu ar y Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer hyd oni fydd y prosiect wedi’i gwblhau.

3.3 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn enwebu hyd at 4 o aelodau o’r Pwyllgor i wasanaethu ar y Gweithgor Polisi Gosod Tai am oddeutu chwe mis.

Beverley Symonds (Rheolydd Sgriwtini) Dyddiedig: 15 Gorffennaf, 2013

# CYNGOR POBL HŶN YNYS MÔN
# ANGLESEY OLDER PEOPLE'S COUNCIL

fao

Mrs Beth Symonds
Scrutiny Committee

Re: **Heating in sheltered accommodation**

At a recent meeting of the Older People's Council, correspondence was received from the Anglesey County Council's Technical Services in reply to our letter which had expressed concern about heating in sheltered accommodation owned by the Council.

In his response, Mr Dafydd Rowlands states that the Housing Service "is acutely aware of the difficulties faced by many tenants in connection with rising fuel costs and that the recommended £90 monthly payment is subject to review. It is important tht customers review monthly payments and submit actual meter readings to suppliers regularly in order to ensure that they are not over paying and Building up unnecessary credit".

The Council members felt that there was a need to monitor this situation and that better rates could be negotiated. Would this be a matter that the Scrutiny Committee could take up? We understand that the residents of the Isle of Wight have the same deal for all heating.

Yours sincerely

Mrs Pat Cohen

Chairperson

Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen, CAERNARFON, Gwynedd LL55 2YD

This page is intentionally left blank

| ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **ADRODD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **15 GORFFENNAF 2013** |
| **PWNC** | **RHAGYDYBIAETHAU AC AMSERLEN AR GYFER CYLLIDEB 2014/15** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO** | **Y Cyng. Hywel Eifion Jones (AELOD PORTFFOLIO CYLLID)** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **Clare Williams SWYDDOG ADRAN 151** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Clare Williams** |

**Natur a rheswm am adrodd:**

Diweddaru'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a Rhagdybiaethau ar gyfer Cyllideb 2014-15.

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Pwrpas yr adroddiad yw:

1. Diweddaru'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw am y cyfnod 2014-15 i 2016-17 (Rhan 3).

2. Cytuno ar yr egwyddorion a fydd yn sail ar gyfer cyllideb 2014-15 (Rhan 4).

3. Cytuno ar y Targed Arbedion ar gyfer y Cyfadrannau a'r strategaethau i gyflawni'r arbedion (Rhan 5).

**B – Ystyriaethau**

Yr ystyriaethau allweddol yn yr adroddiad yw:

1. Diogelu ysgolion ac adolygu hynny yng nghyd-destun yr arwyddion a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

2. Y rhagdybiaethau yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw (Rhan 3.9).

3. Sefydlu targed arbedion priodol i'r Awdurdod fel y gellir sicrhau cyllideb gytbwys.

4. Y risgiau cysylltiedig yn y Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a strategaeth gyllidebol 2014-15 (Rhan 6).

5. Y rhaglen drawsnewid a fydd o gymorth i ddarparu gwasanaethau a gyrru effeithlonrwydd yn y dyfodol.

6. Yr amserlen ar gyfer gosod cyllideb 2014-15.

| C – Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **CydraddoIdeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

**D – Argymhellion**

Cymeradwyo'r egwyddorion sy'n llywio'r cyllideb 2013-14 – Rhan 4.

Cymeradwyo'r Targedau arbedion ar gyfer yr Awdurdod. Para 5.1.

Cadarnhau bod yr arbedion y mae'r cyfadrannau yn eu nodi tuag at eu targedau perthnasol yn uwch na'r arbedion effeithlonrwydd yn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Para 5.4.

Cymeradwyo'r strategaeth i nodi'r arbedion angenrheidiol.

Nodi'r risgiau a'r newidiadau posibl i'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a chyllideb 2014-15. Rhan 6.

Nodi y bydd y Strategaeth Tymor Canol yn newid wrth i wybodaeth newydd fod ar gael ac yn sgil gofyn am sylwadau. Para 3.13.

Nodi'r newidielfennau a fedr newid o fewn y gyllideb ar hyn o bryd. Para 4.3-4.

**Enw awdur yr adroddiad:** **Clare Williams – Swyddog Adran 151**
**Dyddiad:** **14 Gorffennaf 2013**

**Atodiadau:**

Atodiad 1 – Crynodeb o Gyllideb 2013-14 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 5 Mawrth 2013
Atodiad 2 – Canlyniadau Dros Dro Cyllideb Refeniw 2012-13
Atodiad 3 – Senarios ar gyfer Arbedion yn y Cyfadrannau

**Papurau Cefndir**

Cyllideb 2013-14 a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2013

Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw a Chynigion Terfynol ar gyfer cyllideb Refeniw 2013-14

Cyllideb Refeniw 2012-13 – Canlyniadau Dros dro – Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 5-6-13.

## 1. CEFNDIR

**1.1** Nid yw'r sefyllfa economaidd trwy'r wlad wedi gwella fel y rhagwelwyd. Roedd y cylch gwario ar 26 Mehefin 2013 yn dangos sut y byddai'r llywodraeth yn gwario £745 biliwn o arian trethdalwyr rhwng Ebrill 2015 ac Ebrill 2016 ac yn manylu ar gynlluniau i ostwng gwariant gan £11.5bn i gau'r bwlch rhwng trethi a gwariant. Mae'r rhain yn cynnwys gostyngiad o 2% yn y grant bloc i wledydd datganoledig.

**1.2** Mae'r sefyllfa economaidd yng Nghymru yn debygol o fod yn llawer gwaeth nag a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Nid yw awdurdodau yng Nghymru wedi gweld yr un lefel o doriadau â'r rheini yn Lloegr sydd wedi gweld toriadau o hyd at 33% yn eu cyllidebau. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn awgrymu gostyngiad ariannol o 4% o ran arian parod ar gyfer 2014/15, ac efallai y tu draw i hynny, i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Ni fydd y gostyngiad gwirioneddol ar gyfer Ynys Môn wedi ei gadarnhau tan yr Hydref.

**1.3** Mae'r setliadau cymharol ar gyfer y ddwy flynedd gyllidol ddiwethaf wedi cynhyrchu'r canlyniadau canlynol ar gyfer y Cyngor :-

- Fe welodd setliad 2012-13 gostyngiad o 1.2% yn y Cyfranned Cyllid Allanol (AEF - hy y swm a derbyniwyd gan y Cyngor fel grant cyffredinol) o £93.436m i £92.331m. Roedd hyn yn cymharu i gynnydd cyfartalog ar draws pob awdurdod Cymraeg o 0.2%, ac fe adawodd hyn y Cyngor gyda'r setliad ffafriol ail-waethaf ymysg y 22 awdurdod.

- Ar gyfer 2013-14 fe gynyddodd y AEF gan £7.896m i £100.227m, ond roedd £4.625 o hyn i'w phriodoli i'r trosglwyddiad o gyfrifoldeb dros Gymorth Treth Cyngor a £2.155m pellach o grantiau penodol blaenorol yn cael eu corfforu yn yr AEF. Felly roedd y cynnydd gwaelodol dim ond yn £1.116m, neu 1.2%. Pan gyfunwyd pob elfen, setliad y Cyngor oedd yr 16eg mwya ffafriol allan o 22.

Tra nad yw'r cefndir hwn yn arweiniad da i beth fydd yn digwydd o 2014-15, nid oes unrhyw beth wedi ei nodi i gynnig fod y rhagolwg yn mynd i edrych yn fwy ffafriol.

**1.4** Mae'n werth nodi canlyniadau 2012/13 (Atodiad 2) wrth osod cyllidebau ar gyfer y dyfodol. Er mai tanwariant o £1.1m oedd y sefyllfa gyffredinol, roedd gorwariant yn y gwasanaethau cymdeithasol ac roedd y dreth gyngor a gasglwyd yn llai na'r targed yn y gyllideb.

**1.5** Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2013/14, mae'r Awdurdod wedi dechrau gwneud yr arbedion y mae'n rhaid wrthynt i gyflawni cyllideb 2013-14. Mae'r cyllidebau'n cael eu monitro yn fisol bellach ac mae adroddiadau Mai 2013 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan yr Adran Gyllid a'r gwasanaethau. Oherwydd maint yr arbedion a'r risg a nodir yn yr adroddiad ar y gyllideb, mae'n bwysig nodi unrhyw bwysau sy'n codi ac y gall bod angen rhoi sylw iddo. Wrth osod cyllideb ar gyfer 2014-15 ac i'r dyfodol, bydd angen rhoi sylw i oblygiadau'r materion hyn.

## 2. BLAENORIAETHAU AR GYFER 2014-15 A'R TU DRAW I HYNNY

**2.1** Mae angen alinio'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw gyda blaenoriaethau a Chynllun Corfforaethol yr Awdurdod. Bydd rhaid i gyllideb 2013-14 a'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw fod yn seiliedig ar Strategaethau Gwasanaeth Unigol a Chynlluniau Busnes cadarn, gan gynnwys y rhaglenni yn y Cynllun Trawsnewid. Bydd rhaid i gyllideb 2013-14 a'r Strategaeth Tymor Canol ar gyfer y Gyllideb Refeniw fod yn gydnaws â'r chwe Thema allweddol:

**2.1.1** Thema 1 – Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda.

**2.1.2** Thema 2 – Arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig.

**2.1.3** Thema 3 – Yn canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned.

**2.1.4** Thema 4 – Gwerthfawrogi a datblygu ein pobl.

**2.1.5** Thema 5 – Ymrwymiad i bartneriaeth.

**2.1.6** Thema 6 - Cyflawni.

## 3. Y STRATEGAETH TYMOR CANOL AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW (Y STRATEGAETH)

**3.1** Nod y Strategaeth yw darparu dull cadarn, cyson a chynaliadwy o sefydlu a chynnal sail ariannol sefydlog a darbodus fel y gellir bwrw ymlaen i wella a thrawsnewid gwasanaethau'r Cyngor.

**3.2** Y Strategaeth yw'r broses sy'n cysylltu gweledigaethau a blaenoriaethau'r Cyngor gyda'i gyllidebau ariannol, gan ddangos sut y bydd arian y Cyngor wedi ei strwythuro a'i reoli i sicrhau ei fod yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a'i bartneriaid.

**3.3** Bydd y Strategaeth yn cynorthwyo'r Cyngor i:-

**3.3.1** Cwrdd â'i flaenoriaethau a'i ganlyniadau strategol, corfforaethol.

**3.3.2** Gwella cynlluniau ariannol a rheolaeth ariannol adnoddau cyfalaf a refeniw'r Cyngor.

**3.3.3** Gwneud y defnydd gorau o adnoddau allanol a mewnol sydd ar gael i'r Cyngor.

**3.3.4** Sicrhau y darperir gwerth am arian ac effeithlonrwydd.

**3.3.5** Datblygu cyllidebau tymor hwy i gefnogi cynlluniau strategol.

**3.3.6** Alinio adnoddau ariannol gyda blaenoriaethau gwario'r Cyngor.

**3.3.7** Sicrhau bod lefel yr adnoddau yn ddigonol.

**3.3.8** Ymateb i bwysau allanol.

**3.3.9** Datblygu cyllideb gynaliadwy dros y tymor canol.

**3.3.10** Dwyn sylw at risgiau ariannol a lliniaru eu heffaith.

**3.4** Bob blwyddyn, mae angen paratoi cyllideb flynyddol a gosod y dreth gyngor. Fodd bynnag, fel y gellir cyflawni amcanion tymor hir y Cyngor a chynllunio mentrau newydd, datblygiadau cyfalaf a dyrannu adnoddau mewn ymateb i anghenion newidiol y gwasanaethau, mae angen cynlluniau gwasanaeth ac ariannol dros fwy nag un flwyddyn.

**3.5** Ar gyfer y broses ar gyfer gosod y gyllideb nesaf, mae'n hollbwysig bod yr awdurdod, nid yn unig yn cynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ond o leiaf y tair blynedd nesaf. O'r herwydd, trwy nodi arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf drwy drawsnewid gwasanaethau, dylid hefyd roi sylw i'r tymor canol i gwrdd â thargedau arbedion heriol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod. Efallai y bydd angen buddsoddiadau cychwynnol i drawsnewid gwasanaethau a bydd angen eu cyllido trwy'r Strategaeth hon, a fydd yn cynyddu'r swm y bydd raid ei arbed neu ei gyllido o arian wrth gefn a glustnodwyd.

**3.6** Roedd y strategaeth tymor canol ar gyfer y gyllideb refeniw a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2013 yn dwyn sylw at fwlch posibl o £3.1m ar gyfer 2014-15 a £4.0m yn 2015-16. Ar y pryd, roedd hwn yn ddiweddariad lefel uchel a oedd yn seiliedig ar strategaethau cyllideb refeniw tymor canol blaenorol, gyda'r prif ragdybiaethau yn ymwneud â chynnydd o 5% bob blwyddyn yn y dreth gyngor a 1% bob blwyddyn yn y dyfarniadau tâl.

**3.7** Mae'r strategaeth tymor canol ar gyfer y gyllideb refeniw wedi ei diweddaru i adlewyrchu dadansoddiad manylach o wariant a chynnydd a ragwelir, er bod mwy o waith ar ôl i'w wneud. Mae'r tabl isod yn dangos y strategaeth ddiweddaraf.

**Tabl 1 – Y Strategaeth cyn y cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru**

| | 2014-15 £m | 2015-16 £m | 2016-17 £m |
|---|---|---|---|
| **Cyllid ar gael:** | | | |
| Llywodraeth Cymru | 101.000 | 101.000 | 101.000 |
| Y Dreth Gyngor | 29.400 | 30.900 | 32.450 |
| **Cyfanswm** | **130.400** | **131.900** | **133.450** |
| | | | |
| **Cyllideb y Flwyddyn Gynt (Wedi ei haddasu)** | **128.200** | **130.400** | **131.900** |
| Cyllidebau Ysgol – Chwyddiant a diogelwch | 0.500 | 0.500 | 1.500 |
| Codiadau eraill mewn costau | 2.600 | 2.600 | 2.600 |
| Newidiadau demograffig | 0.500 | 0.500 | 0.500 |
| Cyllido Cyfalaf a Llog | 0.100 | 0.100 | 0.100 |
| Cyllido benthyca heb gefnogaeth | 0.200 | 0.400 | 0.400 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | 1.300 | 0.700 | 0.700 |
| Buddsoddi mewn newid - costau diswyddo | -0.100 | -0.300 | 0.000 |
| Cyfraniadau i falansau | -0.500 | 0.000 | 0.000 |
| Pwysau a Nodwyd | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Twf arall | 0.700 | 1.000 | |
| Arbedion y Cytunwyd arnynt | | | |
| Bwlch Cyllido | -3.100 | -4.000 | -4.250 |
| **Cyllideb** | **130.400** | **131.900** | **133.450** |
| | | | |

**Tabl 2 – Y Strategaeth gyda gostyngiad 4%**

| | 2014-15 £'000 | 2015-16 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cyllideb y flwyddyn gynt | 128,084 | 125,468 | 123,082 |
| | | | |
| Diogelwch Ysgolion | 449 | 449 | 449 |
| Chwyddiant | 3,241 | 3,151 | 3,062 |
| Cynnydd mewn incwm | -855 | -855 | -855 |
| Newid demograffig | 500 | 500 | 500 |
| Cyllido benthyca heb gefnogaeth | 160 | 240 | 320 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | 1,300 | 700 | 700 |
| Buddsoddi mewn newid | -100 | -300 | -500 |
| Cyfraniadau i falansau | -500 | 0 | 0 |
| Pwysau a Nodwyd | 0 | 0 | 0 |
| Blaenoriaethau Newydd | 700 | 1,000 | 1,000 |
| Arbedion | 0 | 0 | 0 |
| Bwlch Cyllido | -7,511 | -7,271 | -6,835 |
| **Cyfanswm** | **125,468** | **123,082** | **120,923** |
| | | | |
| Cyllidwyd gan Lywodraeth Cymru | 96,218 | 92,369 | 88,674 |
| Y Dreth Gyngor | 29,250 | 30,713 | 32,249 |
| | **125,468** | **123,082** | **120,923** |
| | | | |

**3.8** Mae Tabl 1 yn nodi'r sefyllfa flaenorol mewn perthynas â'r Strategaeth tymor canol ar gyfer y gyllideb refeniw, sy'n nodi bwlch o £3.1m yn y gyllideb ar gyfer 2014-15. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai'r grant gan LIC yn tyfu rhyw ychydig yn 2014-15 ac wedyn yn aros yr un fath. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf gyda thoriad o 4% o ran y cymorth allanol, fel yr hysbyswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a thybir yn awr mai hon yw'r senario sydd fwyaf tebygol. Bydd angen gwneud yr arbedion trwy drawsnewid gwasanaethau, arbedion, effeithlonrwydd a chynilo. Mae angen arbedion o gwmpas £7.5m yn 2014/15 a chyfanswm o £21.6m yn y tair blynedd hyd at 2016/17.

**3.9** Mae'r strategaeth tymor canol ar gyfer y gyllideb refeniw bellach yn cynnwys y rhagdybiaethau isod:

**3.9.1** Fel y dywedir uchod, bydd Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 yn gostwng 4%, yn unol â'r arwyddion diweddaraf. Efallai hefyd y bydd rhai grantiau penodol yn cael eu trosglwyddo i'r setliad cyffredinol ar gyfer 2014-15 a gallai hynny ostwng y cyllid ymhellach. Yn ogystal, gall rhai grantiau ddod i ben yn y dyfodol.

**3.9.2** Y Dreth Gyngor – Cynnydd o 5% bob blwyddyn.

**3.9.3** Ysgolion a Gwasanaethau cymdeithasol – Mae LIC wedi dweud eu bod yn disgwyl gweld cynnydd o 1.27% ar gyfer ysgolion. Nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i warchod gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhagdybiaethau yn y tabl uchod yn rhagdybio cynnydd o 1.27% ar gyfer ysgolion ynghyd â dyfarniad tâl 1%.

**3.9.4** Codiadau Eraill mewn Costau a Thwf Arall - Gwnaed darpariaeth ar gyfer chwyddiant o 1% yn y costau tâl, twf 10% mewn costau ynni a chwyddiant o rwng 2% a 3% ar wariant arall y mae modd ei reoli (ac eithrio costau gweithwyr sydd ddim yn gostau sy'n ymwneud â thâl - ni chaniatawyd unrhyw gynnydd ar gyfer y rhain). Rhagdybir y bydd incwm o ffynonellau heblaw grantiau yn tyfu ar gyfradd o 5% ar gyfartaledd.

**3.9.5** Yn ystod y flwyddyn, caiff y Strategaeth hon ei diweddaru ac ymgorfforir ynddi'r arbedion a nodwyd a'r buddsoddiadau y bydd rhaid wrthynt trwy'r Rhaglen Drawsnewid ar gyfer 2014-15 a thu draw i hynny. Ar hyn o bryd nid yw'r Strategaeth yn cynnwys unrhyw gostau ac arbedion ar gyfer prosiectau gan nad yw'r rhain yn derfynol.

**3.9.6** Newidiadau demograffig - Mae'r twf yn nifer y bobl sy'n defnyddio Gwasanaethau Oedolion yn cynyddu'r Gyllideb gwasanaethau Cymdeithasol gan £500k neu oddeutu 2.25%. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn aros tua'r un fath trwy gydol oes y Strategaeth hon.

**3.9.7** Cyllido Cyfalaf a Llog – Bydd cynigion a fydd yn dibynnu ar fenthyca digefnogaeth ychwanegol (Darbodus) yn gorfod dangos eu bod yn hunan-gyllidol dros gyfnod o amser. Fodd bynnag, cydnabuwyd y bydd angen buddsoddiad ar gyfer rhai ohonynt ac na fydd y buddsoddiad hwnnw'n cael ei ad-dalu'n llawn dros dymor y Strategaeth gyfredol. O'r herwydd, gwnaed darpariaeth ar gyfer cynnydd yn y costau benthyca dros y tymor canol. (Enghraifft benodol yw'r rhaglen ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, lle na fydd y derbyniadau cyfalaf a'r arbedion refeniw yn cael eu gwireddu ar unwaith.)

**3.9.8** Arfarnu Swyddi ac ôl-dâl (Adolygiad Tâl a Graddfeydd) - Yn dilyn trafodaethau yn y panel tâl a graddfeydd, bwriedir cwblhau'r ymarfer Arfarnu Swyddi'n llawn yn hytrach na fesul cam. Mae hyn yn newid o gymharu â'r hen Strategaeth a disgwylir y bydd yn costio o gwmpas £4m (yn seiliedig ar ymarfer 2009), yn ogystal â'r costau sy'n gysylltiedig ag ôl-dâl a thâl cyfartal. Dyma un o'r risgiau uchaf i'r Awdurdod.

**3.9.9** Buddsoddi mewn Newid - dyrannwyd £1.5m yn 2013/14 ar gyfer costau newid. Bydd hyn yn parhau dros y tair blynedd, ond gyda gostyngiad o £100k yn 2014/15, £300k ychwanegol yn 2015/16 a gostyngiad arall o £500k yn 2016/17. Defnyddir y cyllid hwn i gefnogi trawsnewid gwasanaethau.

**3.10** Pwynt pwysig arall i'w nodi yw na wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y Strategaeth ar gyfer cyfraniadau i'r balansau cyffredinol. Mae cyfrifon drafft terfynol 2012-13 yn dangos bod y Balansau Cyffredinol wedi codi i £6.1m o'r £4.4m a ragdybiwyd pan oedd cyllideb 2013/14 yn cael ei gosod. Bydd balansau'r arian wrth gefn cyffredinol a'r arian wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu hadolygu dros yr haf i ystyried y lefelau y mae'r cyngor eu hangen.

**3.11** Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae'r strategaeth tymor canol ar gyfer y gyllideb refeniw yn rhagdybio y bydd cynnydd o 5% yn y dreth gyngor. Mae'r tabl isod yn dangos y refeniw a gynhyrchid gan ystod o godiadau yn y Dreth Gyngor a hefyd y Dreth Gyngor bosibl ar gyfer band D ym mlwyddyn ariannol 2013-14 ar gyfer y gwahanol lefelau o gynnydd.

| Cynnydd canrannol yn y Dreth Gyngor | Refeniw Ychwanegol a Gynhyrchid £m | Amcangyfrif o Dreth Gyngor Band D £ |
|---|---|---|
| 5.00% | 1.393 | 986.11 |
| 4.70% | 1.309 | 983.29 |
| 4.50% | 1.254 | 981.41 |
| 4.00% | 1.114 | 976.72 |
| 3.50% | 0.975 | 972.02 |
| 3.00% | 0.836 | 967.32 |
| 2.50% | 0.697 | 962.63 |

**3.12** Os byddai'r Awdurdod yn codi'r dreth gyngor 5%, byddai hynny'n gadael bwlch cyllidebol o £7.511m yn seiliedig ar y toriad posibl o 4%. Os byddai'r Cyngor yn penderfynu mynd am gynnydd llai yn y dreth gyngor, byddai'r bwlch yn cynyddu fel y dangosir yn y tabl isod a byddai'n rhaid dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ychwanegol ac arbedion eraill ar ben y lefel sydd eisoes wedi ei nodi.

| Y Gostyngiad Refeniw os yw'r Cynnydd yn y Dreth Gyngor yn llai na 5% | | |
|---|---|---|
| **Cynnydd (%)** | **Refeniw Ychwanegol yn Sgil y Dreth Gyngor £m** | **Gwahaniaeth £m** |
| 5.00% | 1.393 | |
| 4.70% | 1.309 | 0.084 |
| 4.50% | 1.254 | 0.139 |
| 4.00% | 1.114 | 0.279 |
| 3.50% | 0.975 | 0.418 |
| 3.00% | 0.836 | 0.557 |
| 2.50% | 0.697 | 0.696 |

**3.13** Wrth i'r trafodaethau barhau mewn perthynas â'r gyllideb, bydd y rhagdybiaethau cyfredol yn newid wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael neu wrth i safbwyntiau newid. Y dull a fabwysiadwyd o fewn y Strategaeth yw dadansoddiad lefel uchel sydd wedi ei ddylunio i roi rhyw syniad o sefyllfa ariannol yr awdurdod i'r dyfodol.

## 4. EGWYDDORION SY'N LLYWIO CYLLIDEB 2014-15

**4.1** Bydd angen cyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2014-15. Yn y lle cyntaf rhagdybir y bydd hynny'n cael ei wneud heb ddefnyddio arian wrth gefn ar sail unwaith ac am byth.

**4.2** Bydd cynlluniau sy'n seiliedig ar fenthyca Darbodus yn gorfod dangos eu bod yn hunangyllidol.

**4.3** Mae'r rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau chwyddiant i'w gweld ym mharagraff 3.9.4 uchod.

**4.4** Er y cydnabyddir y byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno diogelu'r ysgolion (wedi ei addasu fel sy'n briodol yn seiliedig ar nifer y disgyblion a newidiadau mewn fformiwlâu) gan 1.27%, cyn cytuno i wneud hynny, argymhellir y dylid cynnal adolygiadau heriol i sicrhau bod y cyllidebau'n briodol ar hyn o bryd a bod gwaith yn cael ei wneud i sefydlu ailfodelu gwasanaethau.

**4.5** Mae mwy o ysgolion yn dweud eu bod yn disgwyl mynd i ddiffyg yn ystod 2014-15. Gyda chymorth yr Awdurdod, bydd angen i ysgolion gynllunio i sicrhau eu bod yn gweithredu o fewn eu cyllidebau.

## 5. TARGEDAU ARBEDION A STRATEGAETHAU

**5.1** Mae nifer o senarios arbedion wedi eu datblygu (Gweler Atodiad 3) sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer eithrio ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, yn unigol ac ar y cyd, rhag gorfod gwneud arbedion, yn eithrio un neu'r ddau o'r canran a'i cyfrifwyd ond yn ymofyn am arbediad penodol o £1m o'r ysgolion. Dylid nodi bod y senarios isod yn dibynnu ar ostyngiad cyson ar draws gwasanaethau a gallai hynny fod yn anodd iawn ar gyfer gwasanaethau bychain gyda llond llaw o staff. Os bydd ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu heithrio, mi fydd targed arbedion o 12.4% yn angenrheidiol i gwrdd â'r bwlch yn y gyllideb. (Senario 3A).

**5.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r arbedion y byddai modd eu cyflawni yn seiliedig ar ostyngiadau canrannol mewn cyllidebau net. Mae hefyd yn dangos yr arbedion y byddai modd eu cyflawni petai ysgolion a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu heithrio. Mae'r rhan olaf yn y tabl yn nodi'r arbedion y bydd raid wrthynt i gwrdd â'r bwlch yn y gyllideb.

| | |
|---|---|
| **Senario 1** | Canrannau Penodol, Pob Gwasanaeth |
| **Senario 2A** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion o'r Canran |
| **Senario 2B** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion Canran, ond Ymofyn Cyfraniad o £1m |
| **Senario 3A** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion a Gofal Cymdeithasol o'r Canran |
| **Senario 3B** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion a Gofal Cymdeithasol, ond Ymofyn Cyfraniad o £1M o'r Ysgolion |

| **Arbediad fel Canran** | **Senario 1** | **Senario 2A** | **Senario 2B** | **Scenario 3A** | **Senario 3B** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | | |
| 3.0% | 4,182 | 3,121 | 4,121 | 1,818 | 2,818 |
| 4.0% | 5,574 | 4,159 | 5,159 | 2,422 | 3,422 |
| 5.0% | 6,970 | 5,201 | 6,201 | 3,029 | 4,029 |
| 6.0% | 8,364 | 6,241 | 7,241 | 3,635 | 4,635 |
| 7.0% | 9,759 | 7,282 | 8,282 | 4,241 | 5,241 |
| 8.0% | 11,153 | 8,322 | 9,322 | 4,847 | 5,847 |
| 9.0% | 12,547 | 9,362 | 10,362 | 5,453 | 6,453 |
| 10.0% | 13,940 | 10,401 | 11,401 | 6,057 | 7,057 |
| 11.0% | 15,335 | 11,443 | 12,443 | 6,665 | 7,665 |
| 12.0% | 16,727 | 12,481 | 13,481 | 7,269 | 8,269 |
| | | | | | |
| ***Percentages required to achieve estimated saving*** | | | | | |
| *5.4%* | *7,511* | | | | |
| *7.2%* | | *7,511* | | | |
| *6.3%* | | | *7,511* | | |
| *12.4%* | | | | *7,511* | |
| *10.7%* | | | | | *7,511* |

**5.3** Mi fydd y canrannau uchod yn cael eu gostwng i adlewyrchu arbedion yn codi o fentrau o fewn y Rhaglen Trawsffurfio ac unrhyw fentrau generig sy'n gymwys ar draws y Cyngor. Dwy eitem sydd wedi ei adnabod yn barod yw:-

- Cynyddu'r twf tybiedig o incwm nad yw'n grant o 5% i 10%, a

- gostwng cefnogaeth i'r Drydydd Sector o 5%.

Nid yw'r effaith o'r rhain wedi ei mantoli, ac felly nid yw wedi ei chynnwys yn y ffigyrau a dengys uchod.

**5.4** Mae'r lefel targed o arbedion a ofynnir gan bob gwasanaeth yn ôl y Senarios priodol wedi ei amlinellu yn Atodiad 3. Bydd y gwaith o nodi a dyrannu arbedion ar draws gwasanaethau o fewn adran benodol yn cael ei benderfynu gan y Cyfarwyddwr perthnasol/Dirprwy Brif Weithredwr. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth fydd sicrhau bod arbedion yn cael eu nodi sydd o leiaf yn cyfarfod â'r targed arbedion uchod erbyn 21 Awst 2013 fan bellaf.

**5.5** Yn rhedeg ochr yn ochr â'r gwasanaethau yn nodi arbedion yn unigol, ceir y strategaethau a nodir isod a bydd yn rhaid iddynt gael eu harwain trwy brosiect. Bydd hyn yn cynhyrchu opsiynau pellach, sydd a'r potensial o ysgafnhau'r pwysau ar wasanaethau.

**5.6** Mae'r rhain yn dargedau anodd i'r mwyafrif o wasanaethau (yn arbennig os yw ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu diogelu). Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad yw hwn ond pwynt cychwyn ar gyfer datblygu opsiynau a bod y canlyniadau a'r penderfyniadau terfynol yn debygol o fod yn wahanol wrth i aelodau ymarfer eu dewis o bolisi.

**5.7** Bydd angen mabwysiadu nifer o strategaethau er mwyn nodi'r arbedion. Mae'r rhain yn cynnwys:

**5.7.1** Nodi arbedion trawsadrannol - efallai y bydd hyn angen cefnogaeth prosiect unwaith y am byth i sicrhau bod y canlyniadau yn gyraeddadwy ac yn cael eu darparu yn unol â'r disgwyliadau.

**5.7.2** Adolygiad o wariant – Gwasanaethau i adolygu'r gyllideb graidd i nodi llinellau cyllideb ar gyfer:

- Cyllidebau heb eu defnyddio – linellau gwariant sydd â chyllidebau, ond dim gwariant yn eu herbyn.
- Defnydd nad yw'n hanfodol o gyllidebau. Nodi llinellau cyllideb nad oes mo'u hangen ar gyfer darparu gwasanaeth.
- Adolygu cyllideb yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor.
- Adolygu cyllidebau gwasanaeth anstatudol.
- Adolygu cyllidebau sy'n cael eu gwario ar wasanaethau statudol.

**5.7.3** Nodi cyllid refeniw arall/ffynonellau newydd.

**5.7.4** Nodi gwasanaethau dewisol a mandadol i sicrhau eglurder am y gwasanaethau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu darparu.

**5.7.5** Cytuno ar lefelau gwasanaeth y gellir eu darparu o fewn y cyfyngiadau ariannol yn hytrach na lefel ddymunol o wasanaeth.

**5.7.6** Nodi sut y gall defnyddio TGCh drawsnewid y gwasanaeth a gwneud arbedion.

**5.7.7** Defnyddio methodoleg fel meddwl yn ddarbodus a meincnodi gwasanaethau yn erbyn rhai eraill.

**5.7.8** Edrych ar gydweithredu pellach, gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill, sector preifat a thrydydd sector.

**5.7.9** Edrych am yr arferion gorau ar gyfer darparu gwasanaethau, boed o awdurdodau lleol eraill, cyrff sector cyhoeddus eraill neu'r sector preifat.

**5.7.10** Adolygu eiddo a'r defnydd o adeiladau.

**5.7.11** Herio yn gadarn gynigion ar gyfer arbedion a thwf.

**5.7.12** Ystyried pa wasanaethau y gallwn roi'r gorau i'w darparu ac/neu adolygu sut y gallai'r gwasanaethau hyn gael eu darparu gan ddarparwyr eraill yn y gymuned.

**5.7.13** Ystyried lefel chwyddiant ar incwm a chyfleon i gynhyrchu incwm.

**5.8** Bydd angen i wasanaethau adolygu sut y maent yn darparu eu gwasanaethau a nodi'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r darparu hwnnw. Gall hyn gael ei helpu drwy'r adolygiadau perfformiad gwasanaeth a heriau adolygu gwasanaeth fel y gellir nodi dulliau eraill o ddarparu i sicrhau arbedion. Bydd hyn yn cael ei ymestyn i flynyddoedd i ddod wrth i'r gwasanaethau gael eu trawsffurfio ac fe all arbedion gael eu llusgo allan dros nifer o flynyddoedd.

**5.9** Bydd angen i'r awdurdod a'r Tim Uwch Arweinyddiaeth ystyried cynllunio dros y 3 blynedd nesaf. Rhaid angen datblygu rhaglen sy'n cynnwys ailddylunio y modd y mae'r Awdurdod yn darparu gwasanaethau sy'n addas i'r pwrpas (dylai hyn fod ar yr un egwyddorion â'r Rhaglen Blaenoriaethau Trawsnewid).

## 6. RISGIAU O FEWN Y STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW TYMOR CANOLOG (SCRTC) A CHYLLIDEB 2014-15

**6.1** Mae yna nifer o risgiau o fewn y broses o osod yr SCRTC a chyllideb 2014-15, a byddant yn newid yr SCRTC a'r lefel o arbedion sydd angen eu nodi wrth i'r proses cyllidebol fynd yn ei blaen. Bydd angen cymryd y rhain i ystyriaeth pan yn penderfynu ar y lefel arbedion i'w nodi a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6.1.1** Cyllid Llywodraeth Cymru - Tra bod arwyddion wedi eu rhoi yn setliad 2014/15 ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf, rhai dros dro ydynt, ac mae'r Gweinidog wedi nodi bod toriad sylweddol o 4% yn debygol yn 2014/15. Nid yw'r arwyddion cyfredol ond yn parhau hyd yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr DU nesaf. Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu heffeithio gan drosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad, ac y mae nifer o drosglwyddiadau mawr yn cael eu trafod. Bydd newidiadau data hefyd yn effeithio'r setliad a'r patrwm yw i ddata Ynys Môn waethygu o gymharu ag awdurdodau eraill, e.e. oherwydd twf mwy araf yn y boblogaeth. Mae'r llinell AEF yn yr SCRTS, felly, yn eithaf ymfflamychol. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, y prif ffactor mae'n debyg yw a oes llawr wedi ei adeiladu i mewn i osod uchafswm I ar unrhyw ostyngiad.

**6.1.2** Grantiau - Mae rhybuddion am lefelau grant yn tueddu i gael eu derbyn naill ai yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol flaenorol neu yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw. Fe all rhai o'r rhain gael eu gostwng yn sylweddol neu eu torri yn gyfan gwbl, nid oes gennym ddarlun llawn o bob un o'r rhain ac ni fydd hyn gennym wrth i'r flwyddyn ariannol ddechrau.

**6.1.3** Galw Gofal Cymdeithasol - Mae'r Gwasanaethau Oedolion hefyd yn gweld twf mewn galw ar draws pob maes. Tra bo lwfans blynyddol ar gyfer twf demograffig wedi ei adeiladu i mewn i'r gyllideb, mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon o gynnydd 2013/14 i oedolion dros 65 ac anableddau dysgu. Pe bai'r galw'n cynyddu, bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth.

**6.1.4** Diwygiadau lles - mae risgiau a phwysau sylweddol yn wynebu'r awdurdod. Y brif elfen lleoleiddio Budd-dal Treth Gyngor.

**6.1.5** Newidiadau mewn pensiynau - Bydd cofrestru gweithwyr yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn cael effaith yn 2013-14. Bydd hyn yn golygu y bydd staff nad ydynt ar hyn o bryd mewn cynllun pensiwn yn cael eu cofrestru yn awtomatig a mater iddynt hwy fydd optio allan. Mae'r SCRTC wedi tybio y bydd 25% o staff y Cyngor nad ydynt ar hyn o bryd mewn cynllun pensiwn yn parhau i fod yn aelodau. Ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd graddfa'r optio allan yn yr amgylchiadau newydd hyn a bydd mwy o bobl yn parhau yn y cynllun pensiwn yn golygu cyfraniadau uwch gan yr Awdurdod.

## 7. AMSERLEN

**7.1** Y dyddiadau allweddol arfaethedig o fewn yr amserlen ar gyfer y broses o osod y gyllideb yw'r canlynol:

- Darparu Cyfarwyddyd a Thempledi i Adrannau/Meysydd Gwasanaeth /Penaethiaid Gwasanaeth/Deilyddion Cyllideb - 30 Gorffennaf 2012.

- Gweithdai i Aelodau

  - Pwyllgor Gwaith

    - Awst 2013;
    - Medi / Hydref 2013 – I'w gadarnhau

    Noder: Gweithdai pellach i'w trefnu fel bo'r angen.

  - Yr holl Aelodau

    - Medi / Hydref 2013 – I'w gadarnhau

    Noder: Gweithdai pellach i'w trefnu fel bo'r angen.

- Gweithdai TUA/Penaethiaid Gwasanaeth

  - Awst 2013;
  - Medi 2013.

Noder: Gweithdai pellach i'w trefnu fel bo'r angen.

- Gofyn am gyflwyno cynigion arbed a thwf gan Adrannau – 13 Medi 2013.
- Cyllideb Drafft – 18 Hydref 2013.
- Hysbysiad ynglŷn â'r Setliad Dros Dro - 17 Hydref 2013 (Noder: Hwn yw'r dydd Iau agosaf i ddyddiad y cyhoeddiad yn 2012. Dim hysbysiad o'r dyddiad gwirioneddol wedi ei dderbyn).
- Ymgynghori Cyhoeddus – Tachwedd 2013.
- Hysbysiad o'r Setliad Terfynol – 5 Rhagfyr 2013 (Noder: Hwn yw'r dydd Iau agosaf i ddyddiad y cyhoeddiad yn 2012. Dim hysbysiad o'r dyddiad gwirioneddol wedi ei dderbyn).
- Cyllidebau Terfynol i'w Cymeradwyo – Chwefror 2014.
- Cyfarfod o Bwyllgor Gwaith i Gymeradwyo'r Gyllideb – 13 Chwefror 2014.
- Cyfarfod o'r Cyngor i gymeradwyo'r gyllideb – 5 Mawrth 2014.

**7.2** Mae'r amserlen a'r dyddiadau allweddol (ac eithrio'r cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor) yn dibynnu ar unrhyw newidiadau yn safbwyntiau'r Cyngor a gwybodaeth newydd all gael ei derbyn yn ystod y broses o setlo'r gyllideb 2014-15.

## 8. CYFALAF

**8.1** Mae'r Cynllun Cyfalaf wedi ei dreiglo ymlaen fel cyllideb sail am y ddwy flynedd diwethaf heb rownd fidio. Bwriedir dod â'r broses hon yn ei hôl ar sail fwy strategol y flwyddyn hon. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfarwyddyd penodol wedi ei awgrymu. Cafodd y cynllun cyfalaf cyfredol ei adolygu fel rhan o broses cyllideb 2013-14 a'i ddiweddaru ar gyfer digwyddiadau oedd yn wybyddus a gostyngiad o £0.32m (i £4.05m) mewn Cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru dros y flwyddyn flaenorol.

**8.2** Roedd setliad 2013-14 hefyd yn nodi gostyngiad pellach ym mlwyddyn ariannol 2014-15 i £0.44m (neu 11% i £3.60m) ac yna dim newid yn 2015-16. Fodd bynnag, fel gyda'r setliad AEF, fe allai hyn newid a gostwng yn sylweddol pan gaiff y cyllid ei gyhoeddi yn Hydref 2013 (dros dro) a Rhagfyr 2013 (terfynol).

## 9. CRYNODEB

**9.1** Bydd y 3 blynedd nesaf (o 2014-15 ymlaen) yn rhai hynod o heriol lle bydd yn rhaid i'r Awdurdod fod yn barod i ddarparu gwasanaethau gyda llai o adnoddau (naill ai o ran arian neu mewn termau real) (gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth)). O ganlyniad mae angen symud i ffwrdd oddi wrth gynllunio am flwyddyn ar y tro i broses o gynllunio tymor hirach (mae hyn yn cynnwys cynllunio cyllidebol a darparu gwasanaeth). Rhaid i'r Cyngor fod yn cynllunio ar gyfer 2014-15 ond hefyd y tu hwnt i'r cyfnod hwn er mwyn sicrhau cynaliadwyaeth.

**9.2** Mae rhaglen drawsnewid wedi ei sefydlu i nodi cyfleon i arbed, fydd yn sicrhau bod yr Awdurdod yn barod am y blynyddoedd i ddod. Bydd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniad ar gyfeiriad siwrnai'r Awdurdod a beth yw'r gwasanaethau hanfodol y bydd angen eu darparu. Bydd angen i'r rhaglen ddelio â sut y gall yr Awdurdod ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol gyda naill ai'r un adnoddau neu lai o adnoddau, a hefyd pa wasanaethau y gallai'r Cyngor roi'r gorau i'w darparu.

**9.3** Mae angen i broses gosod cyllideb 2014-15 ddechrau mor fuan ag sy'n bosibl gyda'r nod o sefydlu cyllideb drafft mor fuan â phosibl. Cyntaf yn y byd y gall hyn gael ei wneud, mwyaf yn y byd fydd yr hyblygrwydd fydd ar gael i'r Awdurdod i ymateb a gwneud newidiadau os a phan y daw gwybodaeth a safbwyntiau newydd i'r amlwg.

**9.4** Yr argymhelliad ar hyn o bryd yw i'r Awdurdod edrych i ganfod arbedion o 12-13% o leiaf am 2014.15. Byddai hyn yn cyflawni arbedion o dros £7.5m. Dylai'r Adrannau fod yn nodi arbedion ar gyfer 2015 ond fel y crybwyllwyd uchod, dylent hefyd nodi sut y maent yn bwriadu darparu gwasanaethau (a chynhyrchu arbedion) dros y 3 i 4 blynedd nesaf. Mae'r ffigyrau dangosol ar gyfer adrannau unigol yn Atodiad 3 yn seiliedig ar i'r arbediad sydd ei angen fod wedi ei rannu'n gyfartal ar draws yr holl wasanaethau. Y mwyaf yw'r swm y gellir ei arbed drwy fentrau yn y Raglen Drawsnewid, yr isaf fydd y gyfran sydd angen ei sicrhau drwy agwedd draddodiadol o doriadau tameidiog.

| CYLLIDEB 2013-14 | Sefyllfa ddigyfnewid drafft ar ôl setliad dros dro 3 Rh. 2012 £000 | Newidiadau setliad terfynol a newidiadau eraill £000 | Cynigion i Arbed £000 | Twf Arfaethedig £000 | Cyllideb Arfaethedig £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | | | | | |
| Dysgu Gydol Oes (yn cynnwys ysgolion) | 47,485 | | -307 | | 47,178 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 31,883 | -85 | -978 | 84 | 30,904 |
| Datblygu Cynaliadwy | 22,592 | -190 | -1,336 | 300 | 21,366 |
| Dirprwy Brif Weithredwr | 8,316 | 29 | -239 | | 8,106 |
| Costau Corfforaeth a Democrataidd | 2,269 | -235 | | | 2,169 |
| Cefnogaeth Treth Gyngor – cyfrifoldebau ychwanegol | 4,468 | 357 | | | 4,825 |
| Ardollau | 3,223 | -3 | | | 3,220 |
| Ariannu Cyfalaf a Llog | 7,185 | | | | 7,185 |
| Ad-daliadau i CRT/DSO | -358 | | | | -358 |
| Mentrau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy (arbedion) | -480 | 125 | | | -230 |
| **Cyfanswm** | **126,583** | **-2** | **-2,860** | **384** | **124,365** |
| Grant Cytundeb Canlyniad | -545 | | | | -545 |
| Bwrdd Gwella ac Adfer Addysg | 190 | | | | 190 |
| Arian wrth gefn Proses | 500 | -500 | | | 0 |
| Arian wrth gefn Cyffredinol | 0 | | | | 0 |
| Arian wrth gefn Arfarnu Swydd | 900 | -450 | | | 450 |
| **Is Gyfanswm Cyllideb Ddigyfnewid** | **127,628** | **-952** | **-2,860** | **384** | **124,460** |
| **O'r Cynllun Tymor Canolog :** | | | | | |
| Arian wrth gefn ychwanegol Arfarnu Swyddi | 400 | -400 | | | 0 |
| Arian wrth gefn Benthyca Digefnogaeth Ychwanegol | 200 | -200 | | | 0 |
| **Pwysau :** | | | | | |
| -Plant y Gofelir Amdanynt | 600 | 250 | | | 850 |
| -Awtogofrestru | 200 | -200 | | | 0 |
| -Diwygio Lles | 200 | -150 | | | 50 |
| -Diogelu Ysgolion | 500 | | | | 500 |
| Arian wrth gefn Diswyddiadau | 1,000 | | | | 1,000 |
| Arian wrth gefn Cost newid | 500 | | | | 500 |
| Arian wrth gefn Penodol Arall | 0 | 600 | | | 350 |
| Cyfraniad o / i'r Balansau | 0 | 500 | | | 500 |
| **Cyfanswm cyn Arbedion** | **131,228** | **-552** | **-2,860** | **384** | **128,210** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 99,961 | 266 | | | 100,227 |
| Treth Gyngor | 27,867 | 156 | | | 27,867 |
| Cymorth Treth Ddisgresiynol | -50 | | | | -50 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **127,778** | **422** | **0** | **0** | **128,210** |
| **Bwlch Cyllido** | **3,450** | **-974** | **-2,860** | **384** | **0** |

| GWARIANT AMODOL 2012/13<br>PROVISIONAL OUTTURN FIGURES 2012/13 | CYLLIDEB ADDASIEDIG ADJUSTED BUDGET<br>£000 | GWIRIONEDDOL ADDASIEDIG ADJUSTED ACTUAL<br>£000 | GWAHANIAETH VARIANCE (Tanwario)/ Drosodd / (Under) / Over<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Addysg Gydol Oes / Lifelong Learning** | 48,925 | 48,835 | **(90)** |
| **Cymuned / Community** | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol/ Social Services | 26,358 | 27,014 | **656** |
| Gwasanaeth Tai/ Housing Service | 925 | 926 | **1** |
| Gwasanaeth Hamdden a Chymuned/ Leisure and Community Service | 4,113 | 4,181 | **68** |
| **Datblygu Cynaliadwy / Sustainable Development** | | | |
| Gwasanaeth Datblygu Economaidd/ Economic Development Service | 1,507 | 1,507 | **0** |
| Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylcheddol / Planning and Environment | 3,379 | 3,236 | **(143)** |
| Gwasanaeth Eiddo/ Property Service | 977 | 797 | **(180)** |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth/ Highways and Transportation Service | 11,068 | 10,814 | **(254)** |
| Gwasanaeth Gwastraff / Waste Service | 8,479 | 8,209 | **(270)** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr / Deputy Chief Executive** | | | |
| Uwch Reolwyr / Senior Management | 1,224 | 1,176 | **(48)** |
| Gwasanaethau Pwyllgorau a Cyfreithiol/ Committee and Legal Services | 175 | 139 | **(36)** |
| Gwasanaeth Polisi/ Policy Service | (216) | (144) | **72** |
| Gwasanaeth Cyllid/ Finance Service | 1,073 | 1,066 | **(7)** |
| Gwasanaeth Archwilio/ Audit Service | 1 | 8 | **7** |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol / HR Service | 201 | 129 | **(72)** |
| Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu/ Information Communication Technology Service | 317 | 63 | **(254)** |
| | **108,506** | **107,956** | **(550)** |
| **Cyllidebau sy'n Risg Corfforaethol/ Budgets treated as Corporate Risks** | | | |
| All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol/ Out of County Social Services | 1,559 | 1,469 | **(90)** |
| All Sirol Addysg/ Out of County Education | 1,028 | 879 | **(149)** |
| Digartrefedd/Homelessness | 307 | (26) | **(333)** |
| Budd-daliadau/ Benefits | 28 | (155) | **(183)** |
| Cyllido Cyfalaf a Llog / Capital Financing and Interest | 8,075 | 8,176 | **101** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd / Corporate and Democratic Costs | 1,461 | 1,403 | **(58)** |
| | **120,964** | **119,702** | **(1,262)** |
| Grant Cymorth Refeniw / Revenue Support Grant | (73,544) | (73,544) | **0** |
| Incwm Treth Annomestig / Non Domestic Rate Income | (18,787) | (18,787) | **0** |
| Y Dreth Gyngor / Council Tax | (26,704) | (26,550) | **154** |
| Grant Cymell Perfformiad / Performance Incentive Grant | (729) | (729) | **0** |
| **Newid mewn Cronfeydd Clustnodedig a Balansau Cyffredinol / Change in Earmarked Reserves and General Balances** | **1,200** | **92** | **(1,108)** |

| | |
|---|---|
| **Senario 1** | Canrannau Penodol, Pob Gwasanaeth |
| **Senario 2A** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyedig Ysgolion o'r Canran |
| **Senario 2B** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion Canran, ond Ymofyn Cyfraniad o £1m |
| **Senario 3A** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion a Gofal Cymdeithasol o'r Canran |
| **Senario 3B** | Eithrio Cyllideb Ddirprwyol Ysgolion a Gofal Cymdeithasol, ond Ymofyn Cyfraniad o £1M o'r Ysgolion |

| **ARBEDION A'R LEFELAU GOFYNNOL** | **5.4%** | **7.2%** | **6.3%** | **12.4%** | **10.7%** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Senario 1 £** | **Senario 2A £** | **Senario 2B £** | **Senario 3A £** | **Senario 3B £** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 1,904 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 714 | 956 | 829 | 1,642 | 1,424 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 2,340 | 3,135 | 2,720 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 247 | 331 | 287 | 568 | 492 |
| Tai | 121 | 162 | 140 | 277 | 240 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 75 | 101 | 87 | 173 | 150 |
| Priffyrdd | 585 | 784 | 679 | 1,348 | 1,165 |
| Cynllunio | 97 | 129 | 112 | 222 | 193 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 98 | 131 | 113 | 224 | 195 |
| Property | 264 | 354 | 306 | 607 | 526 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 3 | 4 | 4 | 7 | 6 |
| Gwastraff | 422 | 565 | 490 | 970 | 841 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 74 | 99 | 86 | 170 | 148 |
| Archwiliwr | 12 | 17 | 14 | 28 | 25 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 56 | 75 | 65 | 128 | 111 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 63 | 84 | 73 | 144 | 125 |
| Cyllid | 173 | 232 | 201 | 398 | 345 |
| Adnoddau Dynol | 39 | 52 | 45 | 90 | 78 |
| TGCh | 98 | 132 | 114 | 226 | 196 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 93 | 124 | 108 | 213 | 185 |
| Polsi | 33 | 44 | 38 | 76 | 66 |
| | **7,511** | **7,511** | **7,511** | **7,511** | **7,511** |

| ARBEDION AR: | 4.0% | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth | Senario 1<br>£ | Senario 2A<br>£ | Senario 2B<br>£ | Senario 3A<br>£ | Senario 3B<br>£ |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 1,415 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 530 | 530 | 530 | 530 | 530 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 1,737 | 1,737 | 1,737 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 183 | 183 | 183 | 183 | 183 |
| Tai | 89 | 89 | 89 | 89 | 89 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 56 | 56 | 56 | 56 | 56 |
| Priffyrdd | 434 | 434 | 434 | 434 | 434 |
| Cynllunio | 72 | 72 | 72 | 72 | 72 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 72 | 72 | 72 | 72 | 72 |
| Property | 196 | 196 | 196 | 196 | 196 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Gwastraff | 313 | 313 | 313 | 313 | 313 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 55 | 55 | 55 | 55 | 55 |
| Archwiliwr | 9 | 9 | 9 | 9 | 9 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 41 | 41 | 41 | 41 | 41 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 47 | 47 | 47 | 47 | 47 |
| Cyllid | 128 | 128 | 128 | 128 | 128 |
| Adnoddau Dynol | 29 | 29 | 29 | 29 | 29 |
| TGCh | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 69 | 69 | 69 | 69 | 69 |
| Polsi | 24 | 24 | 24 | 24 | 24 |
| | **5,574** | **4,159** | **5,159** | **2,422** | **3,422** |

| ARBEDION AR: | 6.0% | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth | Senario 1<br>£ | Senario 2A<br>£ | Senario 2B<br>£ | Senario 3A<br>£ | Senario 3B<br>£ |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 2,123 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 795 | 795 | 795 | 795 | 795 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 2,606 | 2,606 | 2,606 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 275 | 275 | 275 | 275 | 275 |
| Tai | 134 | 134 | 134 | 134 | 134 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 84 | 84 | 84 | 84 | 84 |
| Priffyrdd | 651 | 651 | 651 | 651 | 651 |
| Cynllunio | 108 | 108 | 108 | 108 | 108 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 109 | 109 | 109 | 109 | 109 |
| Property | 294 | 294 | 294 | 294 | 294 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Gwastraff | 469 | 469 | 469 | 469 | 469 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 82 | 82 | 82 | 82 | 82 |
| Archwiliwr | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 70 | 70 | 70 | 70 | 70 |
| Cyllid | 193 | 193 | 193 | 193 | 193 |
| Adnoddau Dynol | 43 | 43 | 43 | 43 | 43 |
| TGCh | 109 | 109 | 109 | 109 | 109 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 103 | 103 | 103 | 103 | 103 |
| Polsi | 37 | 37 | 37 | 37 | 37 |
| | **8,364** | **6,241** | **7,241** | **3,635** | **4,635** |

| ARBEDION AR: | 8.0% | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth | Senario 1<br>£ | Senario 2A<br>£ | Senario 2B<br>£ | Senario 3A<br>£ | Senario 3B<br>£ |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 2,831 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 1,060 | 1,060 | 1,060 | 1,060 | 1,060 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 3,475 | 3,475 | 3,475 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 366 | 366 | 366 | 366 | 366 |
| Tai | 179 | 179 | 179 | 179 | 179 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 111 | 111 | 111 | 111 | 111 |
| Priffyrdd | 868 | 868 | 868 | 868 | 868 |
| Cynllunio | 143 | 143 | 143 | 143 | 143 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 145 | 145 | 145 | 145 | 145 |
| Property | 392 | 392 | 392 | 392 | 392 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Gwastraff | 626 | 626 | 626 | 626 | 626 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 110 | 110 | 110 | 110 | 110 |
| Archwiliwr | 18 | 18 | 18 | 18 | 18 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 83 | 83 | 83 | 83 | 83 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 93 | 93 | 93 | 93 | 93 |
| Cyllid | 257 | 257 | 257 | 257 | 257 |
| Adnoddau Dynol | 58 | 58 | 58 | 58 | 58 |
| TGCh | 146 | 146 | 146 | 146 | 146 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 138 | 138 | 138 | 138 | 138 |
| Polsi | 49 | 49 | 49 | 49 | 49 |
| | **11,153** | **8,322** | **9,322** | **4,847** | **5,847** |

| ARBEDION AR: | 10.0% | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth | Senario 1<br>£ | Senario 2A<br>£ | Senario 2B<br>£ | Senario 3A<br>£ | Senario 3B<br>£ |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 3,539 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 1,325 | 1,325 | 1,325 | 1,325 | 1,325 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 4,344 | 4,344 | 4,344 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 458 | 458 | 458 | 458 | 458 |
| Tai | 224 | 224 | 224 | 224 | 224 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 139 | 139 | 139 | 139 | 139 |
| Priffyrdd | 1,085 | 1,085 | 1,085 | 1,085 | 1,085 |
| Cynllunio | 179 | 179 | 179 | 179 | 179 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 181 | 181 | 181 | 181 | 181 |
| Property | 490 | 490 | 490 | 490 | 490 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Gwastraff | 782 | 782 | 782 | 782 | 782 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 137 | 137 | 137 | 137 | 137 |
| Archwiliwr | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 104 | 104 | 104 | 104 | 104 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 116 | 116 | 116 | 116 | 116 |
| Cyllid | 321 | 321 | 321 | 321 | 321 |
| Adnoddau Dynol | 72 | 72 | 72 | 72 | 72 |
| TGCh | 182 | 182 | 182 | 182 | 182 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 172 | 172 | 172 | 172 | 172 |
| Polsi | 61 | 61 | 61 | 61 | 61 |
| | **13,940** | **10,401** | **11,401** | **6,057** | **7,057** |

| ARBEDION AR: | 12.0% | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddiaeth** | **Senario 1 £** | **Senario 2A £** | **Senario 2B £** | **Senario 3A £** | **Senario 3B £** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | |
| Cyllid Ysgolion Dirprwyiedig | 4,246 | | 1,000 | | 1,000 |
| Addysg Canolog | 1,590 | 1,590 | 1,590 | 1,590 | 1,590 |
| **Cymunedau** | | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 5,212 | 5,212 | 5,212 | 0 | 0 |
| Hamdden a Diwylliant | 550 | 550 | 550 | 550 | 550 |
| Tai | 268 | 268 | 268 | 268 | 268 |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 167 | 167 | 167 | 167 | 167 |
| Priffyrdd | 1,302 | 1,302 | 1,302 | 1,302 | 1,302 |
| Cynllunio | 215 | 215 | 215 | 215 | 215 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 217 | 217 | 217 | 217 | 217 |
| Property | 588 | 588 | 588 | 588 | 588 |
| Rheoli'r Gyfarwyddiaeth | 7 | 7 | 7 | 7 | 7 |
| Gwastraff | 939 | 939 | 939 | 939 | 939 |
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 165 | 165 | 165 | 165 | 165 |
| Archwiliwr | 27 | 27 | 27 | 27 | 27 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 124 | 124 | 124 | 124 | 124 |
| Rheolaeth Corfforaethol | 140 | 140 | 140 | 140 | 140 |
| Cyllid | 385 | 385 | 385 | 385 | 385 |
| Adnoddau Dynol | 87 | 87 | 87 | 87 | 87 |
| TGCh | 219 | 219 | 219 | 219 | 219 |
| Cyfreithiol a Gweinyddiaeth | 206 | 206 | 206 | 206 | 206 |
| Polsi | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 |
| | **16,727** | **12,481** | **13,481** | **7,269** | **8,269** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD I: | PWYLLGOR GWAITH |
| DYDDIAD: | 10 MEHEFIN 2013 |
| PWNC: | CYLLIDEB REFENIW 2012-13 – CANLYNIADAU DROS DRO |
| DEILYDD(ION) PORTFFOLIO: | CYNGHORYDD H E JONES |
| SWYDDOG(ION) ARWEINIOL: | CLARE WILLIAMS |
| SWYDDOG CYSWLLT: | TONY FURBER |

**Natur a rheswm am adrodd**

Mae gwariant yn erbyn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol wedi bod yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn ac adroddiadau ar hynny wedi bod yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau bob chwarter. Mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys manylion am y sefyllfa gyfredol a'r rhagamcanion hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r cyfrifon ar gyfer 2012-13 wrthi'n cael eu cwblhau a'r Datganiad Cyfrifon wrthi'n cael ei baratoi.

**A – Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi syniad buan ynglŷn â'r sefyllfa derfynol o ran gwariant refeniw yng Nghronfa'r Cyngor er dylid nodi mai ffigyrau dros dro ydynt ar hyn o bryd.

Cafodd cyllideb refeniw net o £119m ei phennu ar gyfer 2012-13. Roedd yn cynnwys gostyngiad o £3.7m mewn gwariant a bu'n rhaid defnyddio £1.2m o'r arian wrth gefn. Cafodd y rhagamcanion diweddaraf ar gyfer diwedd y flwyddyn eu cynnwys yn Adroddiad Monitro Chwarter 3 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror. Yn yr adroddiad, dywedwyd y byddid yn disgwyl gorwariant sylweddol yn bennaf oherwydd y pwysau ar y cyllidebau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nodwyd camau gweithredu i gyfyngu'r effaith net ar orwariant o £1m (gweler paragraff 5.3 ar dudalen 6 adroddiad mis Chwefror).

Mae'r ffigyrau canlyniadau dros dro yn dangos tanwariant net o £1.1m sy'n dangos newid o £2.1m i'r sefyllfa yn Chwarter tri. Gellir priodoli hyn yn bennaf i'r newid mawr yn y sefyllfa o ran Addysg, lle mae'r rhagamcan blaenorol o orwariant o £774k wedi troi'n danwariant o £90k. Ar wahân i hyn, yn hytrach na nifer fechan o symudiadau mawr, gwelwyd patrwm o symudiadau mwy cyfyngedig ar draws yr holl benawdau, sydd, gyda'i gilydd, i gyfrif am weddill y newid. Y ffactorau a gyfrannodd at y patrwm hwn oedd:-

- effaith y moratoriwm ar rai mathau o wariant ym misoedd diwethaf y flwyddyn;
- y pwyll cyffredinol a ddangoswyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i'r rhagolygon cyfredol o ran sefyllfa ariannol y Cyngor; a
- y dull gwyliadwrus a fabwysiadwyd gan staff Cyllid a deiliaid cyllidebau wrth ddarogan y sefyllfa diwedd blwyddyn oherwydd yr angen i osgoi gorwariant annisgwyl.

Ceir mwy o fanylion ynghylch llinellau gwasanaethau unigol yn Rhan B isod. Pwysleisir eto mai ffigyrau dros dro yw'r rhain ac y byddant yn parhau felly hyd oni fydd y cyfrifon wedi'u cwblhau. Cyflwynir y Datganiad Cyfrifon i'w archwilio erbyn diwedd mis Mehefin a bydd yr archwiliad yn cael ei gwblhau a'r cyfrifon yn cael eu cymeradwyo erbyn diwedd mis Medi.

Mae penderfyniadau yn parhau i fod angen eu gwneud ynghylch dyrannu arian wrth gefn a chynnydd posibl mewn darpariaeth a bydd y rhain yn ffactorau allweddol wrth benderfynu ar y swm terfynol y bydd ei angen o'r arian wrth gefn cyffredinol. Serch hynny, mae rhagolygon ardderchog y bydd y canlyniadau terfynol yn dangos bod sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor yn cryfhau – sydd i'w groesawu – ac yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran rheoli trawsnewidiad gwasanaethau a gostwng gwariant fesul dipyn.

## B – Ystyriaethau

Dangosir y sefyllfa ar gyfer pob maes gwasanaeth yn Atodiad 1. Fel y nodir uchod, mae yna batrwm cyson o berfformiad ariannol gwell ar draws y rhan fwyaf o benawdau o gymharu â'r rhagolygon yn Chwarter 3. Caiff pob symudiad dros £200k eu crynhoi yn y tabl isod:

| Maes Gwasanaeth | Newid o gymharu â Chwarter 3 (£'000) |
|---|---:|
| Addysg | 864 |
| Priffyrdd | 289 |
| Digartrefedd | 273 |
| Budd-daliadau | 328 |
| Incwm Dreth Gyngor | 146 |
| **Cyfanswm** | **1,900** |

Mae'r rhain yn cyfrif am bron y swm cyfan o'r symudiadau net gyda newidiadau net eraill yn cael eu gwrthbwyso gan orwariant ychydig yn uwch yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, gorwariant sydd wedi codi o £500k i £656k.

Isod, ceir sylwadau mewn perthynas â'r meysydd gwasanaeth unigol:

**Addysg**

- Yn ddiweddar, gorwariwyd yn gyson ar y cyllidebau integreiddio. Er na fu modd dileu hyn yn gyfan gwbl, mae monitro a rheolaeth ofalus wedi gostwng y ffigwr gan £292k o'r lefel ragdybiedig o £650k i £358k.
- Mae grant uwch na'r disgwyl ar gyfer cyllido llefydd yn y chweched dosbarth wedi cynhyrchu £230k o incwm ychwanegol.
- Mae'r tanwariant ar y Gwasanaeth Ieuenctid wedi cynyddu gan £73k o'r swm rhagamcanedig o £20k i £93k.
- Mae costau prydau ysgol wedi gwella gan £200k gan droi gorwariant o £100k yn danwariant am yr un swm.
- Mae symudiadau yn erbyn cyllidebau eraill yn dangos newid net o £49k gan arwain at gyfanswm o £864k mewn perthynas â symudiadau yn y gwasanaeth.

**Priffyrdd**

Mae tanwariant o £171k ar oleuadau stryd. Nodwyd tanwariant yn erbyn y gyllideb a broffiliwyd yn gynharach yn y flwyddyn. Disgwyliwyd y byddai hynny'n cael ei wrthbwyso gan wariant gweddol uchel yn y chwarter olaf, ond ni ddigwyddodd hynny.

Mae gorwariant o £25k a ragamcanwyd ar gyfer Cludiant Cyhoeddus wedi troi'n danwariant o £48k, symudiad o £73k.

Mae symudiadau net o £45k ar benawdau cyllidebol eraill yn cynhyrchu newid net ar gyfer y gwasanaeth o £289k o'i gymharu â Chwarter 3.

**Digartrefedd**

Mae incwm uwch na'r disgwyl wedi arwain at danwariant net o £333k o gymharu â'r rhagolygon o £60k, newid o £273k.

**Budd-daliadau**
Mae gwybodaeth ddiweddaredig ar lefelau'r cymhorthdal a dderbyniwyd wedi arwain at newid net o £328k o gymharu â'r rhagolygon gyda'r gorwariant o £145k a ragdybiwyd yn flaenorol yn troi'n danwariant o £183k.

**Y Dreth Gyngor**
Oherwydd y llwyddwyd i gasglu mwy na'r disgwyl yn ystod misoedd diwethaf y flwyddyn, mae'r diffyg mewn incwm wedi gostwng gan £145k, o'r lefel o £300k a ragdybiwyd i £155k.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anallu i adennill incwm wedi cael ei chodi gan £36k.

Mae costau staffio ac adeiladau mewn perthynas â'r cartrefi preswyl £100k yn uwch na'r rhagolygon cynharach.

Mae symudiadau net o £20k ar benawdau cyllidebol eraill yn cynhyrchu'r cynnydd net o £156k yn y gorwariant ar gyfer y gwasanaeth o gymharu â Chwarter 3.

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

| CH – Crynodeb |
|---|
| Mae'r canlyniadau dros dro ar gyfer Cronfa'r Cyngor am 2012-13 yn dangos tanwariant cyffredinol o £1.1m, sy'n welliant sylweddol ar y sefyllfa a ragamcanwyd yn flaenorol, sef gorwariant o £1.0m.<br><br>Gellir priodoli'r rhan fwyaf o'r gwelliant hwn i'r newid yn y sefyllfa mewn perthynas ag Addysg – daeth gorwariant o £774k a ragamcanwyd yn flaenorol yn danwariant o £90k. Mae hyn o ganlyniad yn rhannol i incwm grant uwch na'r disgwyl ond mae'n adlewyrchiad hefyd o'r gwelliant sylweddol o ran gwariant ar Integreiddio a Phrydau Ysgol. Y tu draw i hynny, mae patrwm cyson o berfformiad ariannol gwell na'r disgwyl ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y pwyll a ddangoswyd o ran gwneud rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn ond mae'n dangos hefyd y gwnaed ymdrechion yn ystod misoedd diwethaf y flwyddyn i ffrwyno gwariant yn gyffredinol.<br><br>Ni wyddys beth fydd lefel yr arian wrth gefn cyffredinol hyd oni fydd penderfyniadau pellach wedi cael eu gwneud mewn perthynas â dyraniadau i wasanaethau ac arian wrth gefn penodol a lefelau'r darpariaethau sydd eu hangen ac, y tu draw i hyn, ni ellir cadarnhau'r sefyllfa'n ffurfiol hyd oni fydd yr archwiliad wedi cael ei gwblhau a'r cyfrifon wedi'u cymeradwyo. Serch hynny, mae rhagolygon ardderchog y bydd y canlyniadau terfynol yn dangos bod sefyllfa ariannol sylfaenol y Cyngor yn cryfhau - sydd i'w groesawu - ac yn caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd o ran rheoli trawsnewidiad gwasanaethau a gostwng gwariant fesul dipyn. |
| **D – Argymhelliad** |
| Nodi'r adroddiad |

**Enw awdur yr adroddiad: Tony Furber**
**Swydd Ddisgrifiad : Rheolwr Cyfrifeg Dros Dro**
**Dyddiad : 24 Mai 2013**

| Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1: Ffigyrau Canlyniadau Dros Dro 2012-13 |
| **Papurau Cefndirol:** |
| |

| GWARIANT AMODOL 2012/13<br>PROVISIONAL OUTTURN FIGURES 2012/13 | CYLLIDEB ADDASIEDIG ADJUSTED BUDGET £000 | GWIRIONDDOL ADDASIEDIG ADJUSTED ACTUAL £000 | GWAHANIAETH VARIANCE (Tanwario)/Drosodd / (Under) / Over £000 |
|---|---|---|---|
| **Addysg Gydol Oes / Lifelong Learning** | 48,925 | 48,835 | **(90)** |
| **Cymuned / Community** | | | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol/ Social Services | 26,358 | 27,014 | **656** |
| Gwasanaeth Tai/ Housing Service | 925 | 926 | **1** |
| Gwasanaeth Hamdden a Chymuned/ Leisure and Community Service | 4,113 | 4,181 | **68** |
| **Datblygu Cynaliadwy / Sustainable Development** | | | |
| Gwasanaeth Datblygu Economaidd/ Economic Development Service | 1,507 | 1,507 | **0** |
| Gwasanaeth Cynllunio ae Amgylcheddol / Planning and Environment | 3,379 | 3,236 | **(143)** |
| Gwasanaeth Eiddo/ Property Service | 977 | 797 | **(180)** |
| Gwasanaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth/ Highways and Transportation Service | 11,068 | 10,814 | **(254)** |
| Gwasanaeth Gwastraff / Waste Service | 8,479 | 8,209 | **(270)** |
| **Dirprwy Brif Weithredwr / Deputy Chief Executive** | | | |
| Uwch Reolwyr / Senior Management | 1,224 | 1,176 | **(48)** |
| Gwasanaethau Pwyllgorau a Cyfreithiol/ Committee and Legal Services | 175 | 139 | **(36)** |
| Gwasanaeth Polisi/ Policy Service | (216) | (144) | **72** |
| Gwasanaeth Cyllid/ Finance Service | 1,073 | 1,066 | **(7)** |
| Gwasanaeth Archwilio/ Audit Service | 1 | 8 | **7** |
| Gwasanaeth Adnoddau Dynol / HR Service | 201 | 129 | **(72)** |
| Gwasanaeth Technolog Gwybodaeth a Chyfathrebu/ Information Communication Technology Service | 317 | 63 | **(254)** |
| | **108,506** | **107,956** | **(550)** |
| **Cyllidebau sy'n Risg Corfforaethol/ Budgets treated as Corporate Risks** | | | |
| Digartrefedd/Homelessness | 1,559 | 1,469 | **(90)** |
| All Sirol Addysg/ Out of County Education | 1,028 | 879 | **(149)** |
| All Sirol Gwasanaethau Cymdeithasol/ Out of County Social Services | 307 | (26) | **(333)** |
| Budd-daliadau/ Benefits | 28 | (155) | **(183)** |
| Cyllido Cyfalaf a Llog / Capital Financing and Interest | 8,075 | 8,176 | **101** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd / Corporate and Democratic Costs | 1,461 | 1,403 | **(58)** |
| | **120,964** | **119,702** | **(1,262)** |
| Grant Cymorth Refeniw / Revenue Support Grant | (73,544) | (73,544) | **0** |
| Incwm Treth Annomestig / Non Domestic Rate Income | (18,787) | (18,787) | **0** |
| Y Dreth Gyngor / Council Tax | (26,704) | (26,550) | **154** |
| Grant Cymell Perfformiad / Performance Incentive Grant | (729) | (729) | **0** |
| **Newid mewn Cronfeydd Clustnodedig a Balansau Cyffredinol / Change in Earmarked Reserves and General Balances** | **1,200** | **92** | **(1,108)** |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD** | **10 MEHEFIN 2013** |
| **PWNC** | **CANLYNIADAU CYLLIDEB GYFALAF 2012/13** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL** | **CLARE J WILLIAMS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **CLARE J WILLIAMS** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Caniatáu i'r Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllideb ar lefel gorfforaethol.

## A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

1. **CEFNDIR**

**1.1** Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd adroddiadau chwarterol ar gynnydd yn erbyn y gyllideb gyfalaf ac unrhyw ganlyniadau ariannol. Yn yr adroddiad hwn, ceir gwybodaeth am y sefyllfa am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben a dygir sylw at unrhyw broblemau y daethpwyd ar eu traws. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau o bwys i ganlyniadau terfynol y gyllideb gyfalaf, fel sy'n angenrheidiol, yn yr adroddiad priodol cyntaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Bydd yr adrannau perthnasol yn adrodd ar unrhyw brosiectau unigol yn unol â'r trefniadau arferol ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

**1.2** Caiff gwariant mawr ar eitemau yn y gyllideb gyfalaf ei nodi isod:-

| Prosiectau Cyfalaf Mawr | Cyllido | Gwariant yn ystod y Flwyddyn £'000 | Gwariant Cynyddol £'000 | Cyfanswm Cyllideb y Prosiect £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Bont - adleoli | CSYM/LIC | 4,335 | 4,562 | 10,932 |
| Stoc Dai – Pecynnau Mewnol SATC | Wedi'i gyllido o fewn y CRT | 7,378 | 28,470 | Cwblhawyd |
| Isadeiledd Strategol ar Ynys Môn – Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona | SCEC / LIC | Dim | Dim | 2,013 |
| Menter Benthyca Llywodraeth Leol (LGBI) | LIC | 1,795 | 1,795 | 5,300 |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig (CAGD) Penhesgyn | LIC | 986 | 986 | 1,000 |
| Adfywio'r Tair Tref | Cydgyfeiriant | 669 | 4,765 | 8,248 |
| Yr Amgylchedd Arfordirol | Cydgyfeiriant | 538 | 4,718 | 4,590 |
| Rhaglen Gwelliannau Mân-ddaliadau | CSYM /LIC | 1,043 | 3,489 | Arian wrth gefn |

**1.3** Prosiectau a chynlluniau mawr a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn

**1.3.1** Cychwynnwyd ar nifer o brosiectau a chynlluniau eleni.

**1.3.2** Mae'r cynllun ar gyfer Safleoedd ac Adeiladau yn y cyfnod paratoadol. Fel y dywedwyd eisoes, mae swyddog prosiect wedi cael ei benodi ac mae'r prif gynllun wrthi'n cael ei ddatblygu. Bellach, penodwyd ymgynghorwyr pensaernïol a bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno'r haf hwn a disgwylir penderfyniad ym mis Medi. Disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn 2014/15.

**1.3.3** Cwblhawyd blwyddyn gyntaf o dair y cynllun Menter Benthyca Llywodraeth Leol gyda £1,795 yn cael ei fuddsoddi i wella ymarferoldeb a chyflwr asedau priffyrdd yr Awdurdod. Cyllidir y cynllun hwn o fenthyciad a gefnogir drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Byddir yn buddsoddi £3.6m pellach yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Y prosiect mawr arall y cychwynnwyd arno oedd y gwaith gwella yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig Penhesgyn. Fel y dywedwyd eisoes, ychwanegwyd £150k at y gyllideb gychwynnol ar gyfer y prosiect er mwyn gwneud gwaith gwella ychwanegol. Disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin eleni ac y bydd yn agor yn fuan ym mis Gorffennaf. Cyllidir y prosiect o'r arian wrth gefn y Grant Rheoli Gwastraff mewn modd Cynaliadwy.

**1.4** Prosiectau a chynlluniau mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn

**1.4.1** Cwblhawyd tri phrosiect mawr yn ystod y flwyddyn.

**1.4.2** Y cyntaf o'r rhain oedd cwblhau rhaglen wella Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Yr awdurdod hwn oedd yr ail awdurdod yn unig yng Nghymru i gwblhau'r cynllun hwn a hynny flynyddoedd ar y blaen i rai awdurdodau lleol eraill.

**1.4.3** Yr unig brosiect mawr arall a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd y gwaith Amgylchedd Arfordirol ar Bier Miwmares a ariannwyd o gyllid Cydgyfeiriant ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r contract terfynol. Mae'r gwaith dan y rhaglen grant Amgylchedd Arfordirol bellach wedi'u cwblhau.

**1.5** Gwaith sy'n mynd rhagddo ar brosiectau a chynlluniau mawr a gychwynnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf

**1.5.1** Cychwynnwyd gwaith ar nifer o brosiectau a chynlluniau cyn eleni a bydd y gwaith hwn yn parhau yn y dyfodol.

**1.5.2** Gwelwyd gostyngiad mawr o gymharu â'r llynedd, yn lefel y gwariant ar y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn. Yn chwarter dau, dywedwyd bod y rhaglen wedi cael ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r dirwasgiad a oedd yn golygu bod y derbyniadau cyfalaf ddim yn gallu dal i fyny hefo'r gwariant. Mae gwariant ar y rhaglen yn parhau i fod yn uwch na'r arian sy'n dod i mewn gyda diffyg o £1,589k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen waith a gwerthu mân-ddaliadau yn golygu y bydd y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod 2013/14.

**1.5.3** Mae'r gwaith o godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Bont yn parhau i 2013/14 a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau tuag at ddiwedd Ionawr 2014. Gwariwyd £1,868k yn llai yn ystod y flwyddyn na'r swm y rhaglennwyd ar ei gyfer a hynny'n bennaf oherwydd y tywydd garw. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan grant 70% gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'r oedi a'r llithriad wedi cael unrhyw effaith ar y grant yr ydym yn gymwys i'w gael eleni. Parheir i fonitro'r prosiect hyd oni fydd wedi'i gwblhau a bydd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru i'r graddau y mae hynny'n bosibl.

**1.5.4** Yr unig gynllun mawr arall yw Cynllun Adfywio'r Tair Tref (Adnewyddiad Ffisegol) sy'n cael ei gyllido o arian Cydgyfeiriant. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r amserlen ar gyfer y cynllun hwn wedi cael ei ymestyn a disgwylir ei gwblhau yn 2015/16.

**B - Ystyriaethau**

## 2. GWARIANT YN YSTOD Y FLWYDDYN

**2.1** Mae gwariant amodol yn £25.4m. Mae hyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (£21.6m). Bu cynnydd yn y gwariant cymharol oherwydd adleoli Ysgol y Bont (gwariant £4.1m yn fwy na 2011/12) ynghyd â blwyddyn gyntaf Menter Benthyca Llywodraeth Leol (£1.8m) a CAGD Penhesgyn (£1m). Bu modd gwneud i fyny am hynny gyda llai o wario ar gynlluniau Cydgyfeiriant y Tair Tref a'r Amgylchedd Arfordirol wrth iddynt ddod i ben (gwariant £2.3m yn llai na 2011/12) a hefyd y rhaglen ddiwygiedig i wella'r mân-ddaliadau (gwariant £1.2m yn llai na 2011/12). Mae modd priodoli'r cynnydd yn y gwariant i'r symudiadau hyn, ynghyd â symudiadau eraill llai a mwy cyffredinol yn y rhaglen.

**2.2** Cyfanswm y gyllideb a oedd ar gael ar gyfer ei gwario yn 2012/13 oedd £32.3m. Yn ogystal, mae rhywfaint o'r cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu. Mae rhan sylweddol o'r gyllideb gyfalaf graidd yn cael ei chyllido o adnoddau y gellir eu dwyn ymlaen.

**2.3** Gellir crynhoi'r gwariant fesul rhaglen fel a ganlyn:-

| | CYFFREDINOL | | TAI (CRT) | | TAI (PREIFAT) | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % | £000 | % | £000 | % |
| Gwreiddiol | 13,055 | | 9,800 | | 1,200 | | 24,055 | |
| Dygwyd ymlaen | 2,516 | | 0 | | 912 | | 3,428 | |
| Newidiadau yn y Flwyddyn | 4,588 | | 0 | | 203 | | 4,791 | |
| Cyfanswm ar gael | 20,159 | | 9,800 | | 2,315 | | 32,274 | |
| Gwariant | 15,589 | 77 | 8,751 | 89 | 1,088 | 47 | 25,428 | 79 |
| Llithriad | 4,570 | 23 | 1,049 | 11 | 1,227 | 53 | 6,846 | 21 |

**2.3.1** Dengys hyn bod £32.3m ar gael ac wedi ei neilltuo yn 2012/13, £24.0m o'r gyllideb wreiddiol, £3.4m pellach wedi ei ddwyn ymlaen a £4.8 net yn codi yn y flwyddyn.

**2.4** Yn gyffredinol, disgwylir y bydd prosiectau a chyllidebau gwerth £4.9m i gyd yn trosglwyddo i'r flwyddyn gyfredol, ynghyd â £3.8m mewn arian wrth gefn heb ei dyrannu.

**2.5** Y gwariant cyffelyb ar gyfer 2011/12 oedd:-

| | CYFFREDINOL | | TAI (CRT) | | TAI (PREIFAT) | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | % | £000 | % | £000 | % | £000 | % |
| Cyfanswm ar gael | 15,427 | | 9,500 | | 2,384 | | 27,311 | |
| Gwariant | 10,910 | 71 | 9,237 | 97 | 1,472 | 62 | 21,619 | 79 |
| Llithriad | 4,517 | 29 | 263 | 3 | 912 | 38 | 5,692 | 21 |

**2.6** Gorwariwyd ar nifer fechan o brosiectau yn ystod y flwyddyn a gyllidwyd o gyllidebau refeniw gwasanaeth. Yr unig risgiau sylweddol, fel yr adroddwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, oedd y gweithfeydd i Pier Biwmares a gyllidwyd gan Cydgyfeiriant (cynllun yr Amgylchedd Arfordirol) ac adleoli Ysgol y Bont. Mae'r gwaith i Bier Biwmares wedi cael ei gwblhau a byddir yn adrodd ar y trafodaethau terfynol cyn gynted ag sy'n bosibl. Parheir i fonitro prosiect adleoli Ysgol y Bont yn ofalus.

## 3. ADNODDAU CYFALAF

### 3.1 GRANTIAU CYFALAF

**3.1.1** Mewn adroddiadau blaenorol, dywedwyd y byddai'n rhaid, yn achos rhai o'r prosiectau sy'n derbyn cymorth grant, gwario'r gyllideb gyfan erbyn diwedd y flwyddyn neu wynebu'r posibilrwydd o golli adnoddau. Yn unol â ffigyrau canlyniadau amodol, dyma'r sefyllfa:-

**Cyllid Pontio Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain (Haen 3) – Adleoli Ysgol y Bont**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Canolfannau Hamdden Amlwch, Plas Arthur a Chaergybi – Grant Effeithlonrwydd Ynni**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Canolfannau Hamdden Plas Arthur a Chaergybi – Grantiau Unedau Adennill Gwres**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Canolfan Fusnes Môn – Grant Effeithlonrwydd Ynni**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Menter Benthyca Llywodraeth Leol**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Menter Canolfan Teithio Cynaliadwy**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Cyfalaf Consortia Cludiant Rhanbarthol**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Biwmares, Amlwch a Threarddur – Grant ar gyfer y Strydlun a Gwaith Gwella Amgylcheddol**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Grant Rheoli Gwastraff mewn modd Cynaliadwy**
Gwariwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**Toiledau Cemaes**
Cafwyd caniatâd gan LIC i gario drosodd y swm nas gwariwyd i 2013/14.

**Grantiau Cydgyfeiriant**
Mae'n bosibl y ceir problemau gyda Phier Biwmares fel yr adroddwyd arnynt.

**3.1.2** Derbyniodd yr Awdurdod grant ychwanegol (£310k) tuag at ddiwedd y flwyddyn ar gyfer cynnal a chadw cyfalaf a buddsoddi yn ysgolion. Defnyddiwyd hwn yn llawn yn ystod y flwyddyn.

### 3.2 DERBYNIADAU CYFALAF

**3.2.1** Dywedwyd eisoes bod derbyniadau cyfalaf a ragwelwyd yn is na'r gyllideb. Dangosir y derbyniadau gwirioneddol dros dro ar sail 'ddefnyddiadwy' yn y tabl isod:-

| Derbyniadau Cyfalaf (Defnyddiadwy)* | | | Derbyniadau y cyllidebwyd ar eu cyfer £000 | Derbyniadau yn Ch4 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Tai: | Cyfrif Refeniw Tai | Gwerthu dan Hawl i Brynu | 100 | 30 |
| | | Gwerthu Tir | 500 | 0 |
| | Tai Sector Preifat | Gwerthu Plotiau<br>Taliadau a Ad-dalwyd<br>Grantiau a Ad-dalwyd | } 200 | 163 |
| Eraill: | Mân-ddaliadau** | | 250 | 391 |
| | Cyffredinol***<br>Diwydiannol | | } 1,150<br>} | 375 |

** Dim yn cynnwys cyfraniadau cyfalaf*
*** Incwm y mân-ddaliadau yn erbyn y gyllideb arwyddol*
****Mae cyllid yr Awdurdod yn y flwyddyn ar gyfer adleoli Ysgol y Bont yn deillio o'r derbyniadau cyfalaf a ddisgwylir yn y dyfodol yn sgil gwerthu safle hen Ysgol y Graig. Oherwydd llithriad gyda'r cynllun, mae'r prosiect hyd yma wedi cael ei gyllido'n llawn gyda grantiau.*

**3.2.2** Mae derbyniadau cyfalaf eraill yn is na'r swm y cyllidebwyd ar eu cyfer oherwydd y dirywiad yn y farchnad, yn arbennig o safbwynt tir diwydiannol a masnachol lle mae nifer o safleoedd wedi bod ar y farchnad gydag ychydig iawn o ddiddordeb hyd yma.

**3.2.3** Nid yw'r gostyngiad yn y gwerthiannau'n cael effaith ar Grant Cytundeb Canlyniadau y Cyngor oherwydd mae'n parhau i gyrraedd y targedau sy'n gysylltiedig â'r grant.

**3.2.4** Mae'r derbyniadau a ddangosir yn erbyn y mân-ddaliadau wedi cael eu neilltuo'n benodol i gyllido gwaith gwella ar fân-ddaliadau'r Awdurdod. Fel yr adroddwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r gwariant yn uwch na'r derbyniadau cyfalaf ond disgwylir i'r derbyniadau ddal i fyny yn ystod y flwyddyn nesaf.

**3.2.5** Mae derbyniadau cyfalaf CRT yn is na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd na chafwyd y £0.5m a ragwelwyd yn sgil gwerthu tir. Fodd bynnag, mae'r rhaglen SATC bellach wedi cael ei chwblhau ac mae llithriad yn y rhaglen yn gwneud iawn am y diffyg hwn.

## 4. ARIANNU

**4.1** Ar adeg cynhyrchu'r adroddiad hwn, roedd cyllido'r rhaglen gyfalaf wrthi'n cael ei adolygu a cheir cadarnhad ynghyd yn yr adroddiad chwarterol nesaf.

**4.2** Sonnir am fenthyca mewn adroddiadau ar wahân ar Reoli Trysorlys. Nid aeddfedodd yr un benthyciad yn ystod y flwyddyn ac ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau oherwydd penderfynwyd, yn amodol ar adolygiad parhaus, y byddai mewnoli benthyciadau yn fwy buddiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. O ganlyniad, roedd £96.1m o fenthyca allanol ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2012 : £96.1m). Roedd cyfradd y portffolio o ddyledion ar gyfartaledd yn 5.5% yn ystod y flwyddyn. Roedd yr angen o ran cyllido cyfalaf a ddygwyd ymlaen £4.6m uwchlaw benthyciadau allanol (h.y. roedd £4.6m o'r benthyciadau wedi cael eu mewnoli). Mae'r opsiynau cyllido ar gyfer 2012/13 wrthi'n cael eu cwblhau a bydd raid ymestyn ymhellach yr angen i gyllido cyfalaf ac o'r herwydd, raddfa'r benthyciadau mewnol.

## 5. ARIAN WRTH GEFN HEB EI DDYRANNU A LLITHRIAD

**5.1** Bydd yr arian wrth gefn heb ei ddyrannu yn llithro i 2013/14 ac yn dod yn:-

| | |
|---|---|
| • Astudiaethau Dichonoldeb | £0.5m |
| • Arian wrth gefn heb ei ddyrannu (rhaglen rhesymoli asedau) | £1.3m |
| • Arian wrth gefn ar gyfer Adfywio / cyllid cyfatebol | £0.8m |
| • Gwelliannau Hamdden | £0.2m |
| • Heb ei ddyrannu | £1.0m |

Nid yw'r elfen o'r arian wrth gefn benthyca di-gefnogaeth sydd heb ei ddefnyddio wedi ei ddwyn ymlaen.

**5.2** Gall y rhan fwyaf o'r llithriad ar gyllidebau cyfalaf cyffredinol (Cronfa'r Cyngor £3.7m; Cronfa Tai'r Cyngor £1.2m) drosglwyddo i'r flwyddyn gyfredol. Nid oes unrhyw lithriad yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai : bydd rhaglen eleni'n cael ei hadolygu a bydd unrhyw angen ychwanegol am fenthyca di-gefnogaeth yn cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## 6. EDRYCH YMLAEN

**6.1** Mae angen nodi yma dau gynllun mawr – Ysgolion yr Ugeinfed Ganrif ar Hugain a'r rhaglenni rhesymoli asedau.

**6.2** Rhaid nodi dwy elfen yn y rhaglen Ysgolion yr Ugeinfed Ganrif ar Hugain. Adroddwyd eisoes fod yr Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer y Cynllun Band A (ysgol gynradd newydd yng Nghaergybi) wedi'i ohirio am y tro tra bod gwaith ymchwilio a gwerthuso opsiynau'n cael ei wneud. Rhagwelir y bydd yr ASA hwn yn cael ei gyflwyno i LIC yn gynnar yn 2014.

**6.2.1** Yn ychwanegol at hyn, mae Rhaglen Strategol Amlinellol (RhSA) wrthi'n cael ei pharatoi. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y rhaglen yn ei chyfanrwydd (Bandiau A i D). Mae'r drafft diweddaraf i fod i gael ei gyflwyno erbyn canol mis Mehefin a disgwylir ymateb gan LIC o fewn mis o'i gyflwyno.

**6.2.2** Adroddir ar wahân ar gynnydd mewn perthynas â'r ASA Band A a'r RhSA drafft a bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol hyn fel sy'n briodol.

**6.3** Adroddwyd eisoes bod Partneriaethau Lleol yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen y Cyngor i resymoli asedau. Mae cynigion yn cael eu hadolygu sydd wedi'u halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau, opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau a'r anghenion cysylltiedig o ran asedau.

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

1. Y canlyniad dros dro ar sail gwariant yw £25.4m yn erbyn y cyfanswm o £32.3m sydd ar gael. Fel rhan o gyllideb 2012/13, cafodd rhai o'r cyllidebau a'r cyllidebau wrth gefn eu crafangu'n ôl neu eu hailbroffilio. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau eraill sydd heb eu gwario yn cael eu cyllido o adnoddau'r Cyngor ei hun a gellir eu dwyn ymlaen lle mae gwasanaethau'n cadarnhau bod angen y cyllid o hyd. Bydd amrywiadau ar dderbyniadau cyfalaf yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau 2013/14 lle mae angen hynny.

2. Ar sail yr asesiad diweddaraf o brosiectau a fydd yn llithro i 2013/14, mae'n debygol y bu modd gwarchod y rhan fwyaf o'r adnoddau cyfalaf gan gynnwys y grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw hynny y gellid eu defnyddio ar gyfer y rhaglen yn gyffredinol.

## D - Argymhelliad

Nodi'r adroddiad.

**Enw awdur yr adroddiad: Clare J Williams**
**Swydd: Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**
**Dyddiad: 28 Mai 2013**

## Atodiadau:

Atodiad A : Canlyniadau Cyllideb Cyfalaf 2012-13 Drafft.

## Papurau Cefndirol:

## Atodiad A

## Canlyniadau Cyllideb Cyfalaf 2012-13 : Drafft

| Prosiectau | Cyllideb 2012-13 £'000 | Llithriad 2011-12 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tai** | **11,203** | **912** | **12,115** | **9,839** | **81** | |
| Tai Cyngor | 9,800 | 0 | 9,800 | 8,751 | 89 | Yn gyffredinaol, mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn unol â'r disgwyl. Yn unol â'r rhaglen, cwblhawyd gwaith SATC yn ystod Rhagfyr, gyda'r Awdurdod yr ail yng Nghymru i gyflawnu hyn. Mae'r gwaith ar effeithlonrwydd ynni yn llithro i mewn i'r flwyddyn nesaf oherwydd oediadau gan gontractwyr allanol sy'n gwneud y gwaith. |
| Preifat - Grantiau | 1,200 | 458 | 1,658 | 835 | 50 | Mae llithriad ychydig yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Yn bennaf, roedd hyn oherwydd fod amseru'r strategaeth adnewyddu tai diwygiedig tuag at ddiwedd y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 203 | 454 | 657 | 253 | 39 | |
| **Addysg** | **7,406** | **1,008** | **8,414** | **5,528** | **66** | |
| Ail-leoli Ysgol y Bont | 6,110 | 93 | 6,203 | 4,335 | 70 | Mae'r gwaith o godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Bont yn parhau i 2013/14 a disgwylir y bydd wedi'i gwblhau tuag at ddiwedd Ionawr 2014. Gwariwyd £1,867k yn llai yn ystod y flwyddyn na'r swm y rhaglennwyd ar ei gyfer a hynny'n bennaf oherwydd y tywydd garw. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan grant 70% gan Lywodraeth Cymru ac nid yw'r oedi a'r llithriad wedi cael unrhyw effaith ar y grant yr ydym yn gymwys i'w gael eleni. Parheir i fonitro'r prosiect hyd oni fydd wedi'i gwblhau a bydd unrhyw risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru i'r graddau y mae hynny'n bosibl. |
| Addysg : Arall | 1,296 | 915 | 2,211 | 1,193 | 54 | Mân gynlluniau yw'r rhain sy'n werth £1.4m ac mae swm wrth gefn o £0.9m tuag at gostau Ysgolion y 21ain Ganrif. Roedd y mân gynlluniau wedi eu cwblhau'n sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **Adfywio** | **7,359** | **-361** | **6,998** | **6,794** | **97** | |
| Datblygu Economaidd – Isadeiledd Strategol – Safleoedd ac Eiddo | 150 | 0 | 150 | 0 | 0 | Mae'r cynllun yn y cyfnod paratoadol. Fel y dywedwyd eisoes, mae swyddog prosiect wedi cael ei benodi ac mae'r prif gynllun wrthi'n cael ei ddatblygu. Bellach, penodwyd ymgynghorwyr pensaernïol a bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno'r haf hwn a disgwylir penderfyniad ym mis Medi. Disgwylir y bydd y cynllun yn cael ei gwblhau yn 2014/15. |
| Datblygu Economaidd : Arall | 375 | 721 | 1,096 | 260 | 24 | Mae rhan fawr o'r llithriad yn ymwneud ag astuduaethau dichonoldeb cyfalaf a chyllid partneraieth. Mae gweithgaredd yn y maes hwn yn codi momentwm ac mae'r rhan fwyaf o'r balansau wedi eu hymrwymo. |
| Eiddo : Amgylchedd Arfordirol | 502 | 0 | 502 | 538 | 107 | Mae'r holl waith adeiladu wedi'i gwblhau. Mae trafodaethau ynghylch contract terfynol prosiect Pier Biwmares yn parhau. Mae'r gwaith dan y rhaglen Amgylchedd Arforfidol bellach wedi'u cwblhau. |
| Eiddo : Rhaglen Wella'r Mân-ddaliadau | 535 | -1,081 | -546 | 1,043 | -191 | Gwelwyd gostyngiad mawr o gymharu â'r llynedd, yn lefel y gwariant ar y rhaglen ar gyfer gwella'r mân-ddaliadau, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn. Yn chwarter dau, dywedwyd bod y rhaglen wedi cael ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r dirwasgiad a oedd yn golygu bod y derbyniadau cyfalaf ddim yn gallu dal i fyny hefo'r gwariant. Mae gwariant ar y rhaglen yn parhau i fod yn uwch na'r arian sy'n dod i mewn gyda diffyg o £1,589k ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y newidiadau i'r rhaglen waith a gwerthu mân-ddaliadau yn golygu y bydd y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa ariannol gytbwys/gwarged yn ystod 2013/14. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwastraff : Safle Mwynderau Sifig - Penhesgyn | 992 | 0 | 992 | 986 | 99 | Fel y dywedwyd eisoes, ychwanegwyd £150k at y gyllideb gychwynnol ar gyfer y prosiect er mwyn gwneud gwaith gwella ychwanegol. Disgwylir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin eleni ac y bydd yn agor yn fuan ym mis Gorffennaf. Cyllidir y prosiect o'r arian wrth gefn y Grant Rheoli Gwastraff mewn modd Cynaliadwy. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 1,601 | 0 | 1,601 | 669 | 42 | Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith eleni yn gysylltiedig â chynllun Treftadaeth Tref Caergybi. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r amserlen ar gyfer y cynllun hwn wedi cael ei ymestyn a disgwylir ei gwblhau yn 2015/16. |
| Priffyrdd : Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2012-13 | 1,700 | 0 | 1,700 | 1,796 | 106 | Mae'r amcanion ar gyfer y rhaglen 2012-13 wedi eu cyflawni. Cyllidir y cynllun hwn o fenthyciad a gefnogir drwy grant gan Lywodraeth Cymru a gellir mynd i'r afael ar yr amrywiadau gwariant dros y cynllun tair mlynedd. |
| Priffyrdd : Grant Menter Canolfan Trafnidiaeth Gynaliadwy/Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol 2012-13 | 626 | 0 | 626 | 626 | 100 | Cwblhawyd y gwaith i gyd erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y cynllun yn cwmpasu darpariaeth o gyfleuster parcio a theithio yn Llanfairpwll yn ogystal â gwelliannau i Lôn Las Cefni. |
| Priffyrdd : Grant Gwaith Strydlun ac Amgylcheddol 2012-13 | 585 | 0 | 585 | 585 | 100 | Cwblhawyd y prosiect. |
| Priffyrddd : Grant Llwybrau Diogel yng Nghymunedau 2012-13 | 293 | 0 | 293 | 292 | 99 | Roedd yr holl brosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Arall** | **2,878** | **1,868** | **4,747** | **3,267** | **69** | |
| Hamdden : Unedau Adennill Gwres | 227 | 117 | 344 | 344 | 100 | Cwblhawyd y prosiect. |
| Hamdden : Effeithlonrwydd Ynni Canolfannau Hamdden | 485 | 0 | 485 | 476 | 98 | Gweithredwyd y prosiect yng Nghanolfannau Hamdden Plas Arthur, Caergybi ac Amlwch. Mae'r gwaith wedi ei gwblhau'n sylweddol. |
| Priffyrdd : Arall | 896 | 59 | 955 | 523 | 55 | Yn bennaf, mae'r balans yn ymwneud â llithriad ar brynu cerbydau newydd o £100k. Cynllunir i wario hyn yn y flwyddyn i ddod. |
| Eiddo : Arall | 413 | 576 | 989 | 676 | 68 | Gwaith yn mynd rhagddo yn ôl y disgwyl. Mae'r rhan helaeth o'r llithriad yn ymwneud â'r gyllideb ar gyfer gwaith i fynwentydd a thoiledau Cemaes. |
| Cynlluniau Adrannol Arall | 857 | 1,116 | 1,973 | 1,248 | 63 | Cynlluniau wedi mynd rhagddynt yn ôl y disgwyl. Mae'r llithriad yn y gyllideb yn ymwneud â nifer o fân gyllidebau y disgwylir i'w gwario yn y flwyddyn i ddod. |
| **Cyfanswm** | **28,846** | **3,428** | **32,274** | **25,428** | **79** | |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ADRODDIAD: | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD: | 29 GORFFENNAF 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | RHEOLI RISG AC YSWIRIANT |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN: | PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) |
| GWEITHREDIAD: | ER GWYBODAETH / YSTYRIED Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor yn galw a'r y Pwyllgor Scriwtini i:-

- Nodi risgiau sylweddol, fel yn addas, i'w sgriwtineiddio'n fwy manwl fel rhan o'u rhaglen gwaith;
- Derbyn, adolygu a herio'r broses ar gyfer gweithredu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol a chorfforaethol allweddol y Cyngor;
- Bodloni ei hun bod prosesau a threfniadau cadarn yn bodoli ac yn cael eu gweithredu ar gyfer rheoli risgiau gweithredol, gan gynnwys risgiau iechyd a diogelwch.

1.1 Fe gyflwynwyd y Gofrestr Risg Corfforaethol cychwynnol i'r Pwyllgor Archwilio ym Ionawr 2013.

## 2. CYNNYDD AR WEITHREDU'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG

**2.1** Cymeradwywyd y Strategaeth Rheoli Risg a'r Canllawiau Rheoli Risg gan y Pwyllgor Gwaith ar y 15fed Hydref 2012. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau yn y trefniadau adrodd a rheoli unwaith bydd y rhain yn cael eu cadarnhau.

**2.2** Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau ar y 6ed o Dachwedd 2012, a'r 8fed o Orffennaf 2013.

**2.3** Mae rôl y Grŵp Rheoli Risg wedi ei gynnwys mewn i'r Grŵp Adolygu Perfformiad sydd yn cwrdd yn fisol, ac sydd â chynrychiolaeth o Drawsnewid, Perfformiad, Archwilio Mewnol, Cyllid, TG, Eiddo, Risg ac Yswiriant, ac Iechyd a Diogelwch.

**2.4** Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn parhau i gefnogi Penaethiaid Gwasanaeth i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Gwasanaeth, er bod cynnydd ar hyn wedi cael ei effeithio gan yr Adolygiad Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

**3.1** Bu'r Grŵp Adolygu Perfformiad adolygu'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth a'r Cofrestr Risg Corfforaethol ar yr 2ail o Orffennaf 2013. Rwyf wedi adolygu

eu hargymhellion a'r Cofrestr Risg Corfforaethol ac mae'r fersiwn sydd wedi diwygio yn atodol i'r adroddiad hon yn Atodiad A.

**3.2** Mae'r adolygiad wedi adnabod y canlynol fel risgiau uchaf y Cyngor:-

| | |
|---|---|
| YM8 | Methu â chynllunio ar gyfer gostyngiad sylweddol mewn nawdd o 2015/2016 |
| YM33 | Methu â darparu gwasnaethau o fewn y gyllideb a ddarperir |
| YM31 | Risg o beidio cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data |
| YM36 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd |

**3.3** Bydd y Gofrestr Risg Corfforaethol wastad yn ddogfen byw ac yn datblygu ac yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiweddaru fel bo'r angen.

## 4. HAWLIADAU YSWIRIANT

**4.1** Atodir profiad hawliadau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 1$^{af}$ Ebrill 2007 hyd at 31$^{ain}$ o Fawrth 2013 fel atodiad B i'r adroddiad hwn. Nodwch os gwelwch yn dda bod yr adroddiad yn seiliedig ar y dyddiad digwyddiad ac nid dyddiad a dderbynnir yr hawliad.

**4.2** O arwyddocâd mae'r cynnydd o 40% yn y nifer o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus sydd wedi eu derbyn yn ystod 2012/2013. Mae hyn i'w briodoli i hawliadau am ddifrod i gerbydau oherwydd cyflwr ffyrdd y Cyngor. Ar hyn o bryd mae'n rhy gynner i wneud sylw ar effaith ariannol hyn.

**4.3** Bu hefyd gynnydd o 100% yn y nifer o hawliadau yn ymwneud â fflyd cerbydau'r Cyngor. Ni ellir priodoli hyn i unrhyw faes gwasanaeth ond ymddengys i fod yn gysylltiedig â chynnydd mewn gwallau gyrwyr, gan ein gyrwyr ni a defnyddwyr ffyrdd eraill, a thywydd garw.

## 5. ARGYMHELLION

**5.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y Gofrestr Risg Corfforaethol a nodi'r profiad hawliadau yswiriant.

**CLARE WILLIAMS**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)** **8 GORFFENNAF 2013**

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd: Bregysrwydd / Perygl | Risg Adnabuwyd: Sbardun | Risg Adnabuwyd: Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Lefel Risg: Tebygrwydd | Lefel Risg: Llymder | Lefel Risg: Sgôr | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Lefel Risg Gweddilliol: Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM2 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â chynnal y gwelliannau wnaed yn nhermau Llywodraethu | • Etholiadau a chyflwyno wardiau mwy nac un aelod ayb<br>• Ansefydlogrwydd gwleidyddol<br>• Diffyg cudymffurfio â polisiau a gweithdrefnau<br>• Systemau newydd ddim yn cael eu gwreiddio'n llawn<br>• Cael trefniadau Cynllunio Busnes, Rheoli Risg, a Rheoli Perfformiad gwan<br>• Cyfathrebu mewnol annigonol ac aneffeithiol | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Niwed i enw da / beirniadaeth gan rheoleiddwyr<br>• Ymyrraeth pellach<br>• Ansicrwydd<br>• Morâl isel<br>• Penderfyniadau anaddas<br>• Deunydd aneffeithiol o adnoddau<br>• Diffyg atebolrwydd, cydymffurfiaeth a sicrwydd | 3 | 5 | 15 | Darparu'r cyfnefino a sesiynau briffio manwl i'r holl Aelodau | Carys Edwards | Gorff 2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Gweithredu'r Cynllun Trawsnewid a gwreiddio'n llawn swyddogaethau'r Byrddau Trawsnewid | Danielle Edwards | | | | | |
| | | | | | | | | | Paratoi a cynhyrchu Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Einir Thomas | | | | | |
| | | | | | | | | | Gwreiddio'r trefniadau Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol | Gethin Morgan | | | | | |
| | | | | | | | | | Gwreiddioi'r fframwaith hunan-asesu | Gethin Morgan | | | | | |
| | | | | | | | | | Gweithredu canfyddiadau'r adroddiad cyfathrebu mewnol | Gwen Sion | Mawrth 2014 | | | | |
| YM1 | Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â cydweithio yn effeithiol gydag eraill er budd y Cyngor | • Pwysau Cyllidebol<br>• Agenda LIC<br>• Perthnasau Gwael<br>• Diffyg hyder yn y Cyngor<br>• Diffyg cynllunio<br>• Diffyg ymgynghori<br>• Rhwystrau gwleidyddol | • Niwed i enw da<br>• Gwasanaethau llai effeithiol<br>• Amcanion heb eu cyflawni<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol (dim cydweithio)<br>• Colli gwneud penderfyniadau yn lleol (pan yn cydweithio)<br>• Colli cyllid (dim cydweithio)<br>• Methu â gwneud arbedion | 4 | 3 | 12 | Cytuno datganiad a'r ymateb y Cyngor i gydweithio, gan gynnwys diffinio cydweithio | Richard Parry Jones | | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Penderfynu pa fframweithiau cydweithio sydd gwerth prynu fewn i | UDA | Parhaus | | | | |
| YM8 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chynllunio am ostyngiad sylweddol mewn cyllid o 2015/2016 | • Setliad llai gan LIC<br>• Llai o incwm<br>• Ddim yn gymwys i ymgeisio am rhai ffynonellau cyllido<br>• Effeithiau chwyddiannol a chyfraddau llog<br>• Blaenoriaethau fforddiadwy - arbedion heb eu cyflawni | • Amcanion heb eu cyflawni<br>• Lleihad yn y gwasanaethau a ddarperir<br>• Ansawdd is o wasanaethau a ddarperir<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Methu ô chefnogi grwpiau ac unigolion bregys | 5 | 5 | 25 | Darparu Cynllun Cyllidol Tymor Canolig a'i ddiwygio'n chwarterol | Clare Williams | Hydref 2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Adnabod pwysau demograffig | Clare Williams | Hydref 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Monitro gostyngiadau mewn grantiau a datblygu strategaethau ymadael â'r grantiau | Clare Williams | Hydref 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Adolygu'r broses o benderfynu'r gyllideb | Clare Williams | Hydref 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Darparu a gweithredu Strategaeth Effeithlonrwydd | | | | | | |
| YM33 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 01/2013 | Methu â darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir | • Cyllidebau yn lleihau<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaeth<br>• Diffyg gwybodaeth amserol rheolaeth ariannol / rheolaeth gyllidebol<br>• Costau ynni uwch (effaith marchnad)<br>• Trefniadau cynllunio gweithlu gwan<br>• Effaith prosiectau mawr (e.e. Wylfa, Ynys Ynni)<br>• Diffyg yn y gyllideb mewn rhai ysgolion | • Lleihad yng ngwasanaethau a ddarperir mewn blynyddoedd sydd i ddod<br>• Niwed i enw da<br>• Diffyg gwelliant ym meysydd allweddol<br>• Diffyg capasiti a/ neu'r gallu i ymgymryd llwyth gwaith y Cyngor<br>• Ymyrraeth pellach gan LIC (yn arbennig mewn perthynas ag ysgolion) | 5 | 4 | 20 | Adolygu'r broses o benderfynny'r gyllideb | Clare Williams | Hydref 2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Gwreiddio'r systemau ariannol newydd (y lejer ayyb) | Richard Ll Jones | | | | | |
| | | | | | | | | | Sefydlu proses newydd ar gyfer adrodd ariannol | Clare Williams | Mehefin 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Sefydlu proses newydd ar gyfer monitro ariannol | Clare Williams | Medi 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu | | | | | | |
| | | | | | | | | | Gweler hefyd risgiau YM5, YM22, YM23 a YM37 | | | | | | |
| YM32 | Dirprwy Prif Weithredwr | 10/2011 | Methu â chwblhau yr adolygiad Arfarnu Swyddi | • Gofyn statudol i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd<br>• Amser cymerwyd hyd yma i ymgymryd Adolygiad Tâl a Graddfeydd (>10 mlynedd) | • Morâl staff isel<br>• Lefelau tâl anghystadleuol<br>• Risg uwch o anghydraddoldeb tâl yn parhau | 4 | 3 | 12 | Cytuno amserlen a'i weithredu | Carys Edwards | Ebrill 2014 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Penodi a cadw gweithwyr addas i ymrymryd â'r prosiect | Carys Edwards | Ebril 2013 | | | | |
| YM34 | Dirpwy Prif Weithredwr | 01/2013 | Methu â chyrraedd cytundeb mewn perthynas â hawliadau tâl cyfartal cyflwynwyd hyd yma | • Oedi yn cwblhau Arfarnu Swyddi<br>• Hawliadau diweddar yn yr Alban<br>• Anghydraddoldeb mewn lefelau cyflog | • Niwed i enw da<br>• Costau ariannol uwch mewn termau talu neu amddiffyn yr hawliadau a cyflogau uwch yn y dyfodol | 3 | 4 | 12 | Paratoi a gweithredu strategaeth | Carys Edwards | Mai 2013 | | | | Chwarterol |
| YM22 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â rheoli Adeiladau a Thir yn effeithiol | • Cyfyngiadau cyllidebol<br>• Gofynion deddfwrol<br>• Diffyg hanesyddol o fuddsoddi<br>• Gofynion datblygol parhaus y Cyngor<br>• Dirywiad economaidd | • Colli / llai o incwm<br>• Costau uwch atgyweiriadau a chynnal a chadw<br>• Yr angen am atgyweiriadau argyfwng<br>• Staff yn gweithio mewn cyflyrau anaddas (e.e. adeiladau dros dro, diffyg lle)<br>• Gormodedd o gapasiti lle mewn rhai llefydd<br>• Tor-cyfraith iechyd a diogelwch<br>• Adeiladau gwag yn draen ar adnoddau | 3 | 4 | 12 | Adolygu'r defnydd o dir ac adeiladau a gwerth am arian gan gysylltu â gwaith y Grŵp Gweithio'n Ddoethach | Clare Williams & Mike Barton | Hydref 2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Blaenoriaethu holl wariant atsyweiriadau a cynnal a chadw ar sail matrics risg | Mike Barton | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Datblygu a gweithredu strategaeth gwaredu ag asedau | Mike Barton | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Gweler hefyd risgiau YM1, YM5, YM8, YM23, YM37 a YM38 | | | | | | |



Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus ■ Risg Uchel ▢ Risg Canolig ▢ Risg Isel ▢ Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd: Bregysrwydd / Perygl | Risg Adnabuwyd: Sbardun | Risg Adnabuwyd: Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Lefel Risg: Tebygrwydd | Lefel Risg: Llymder | Lefel Risg: Sgôr | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen: Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Lefel Risg Gweddilliol: Tebygrwydd | Lefel Risg Gweddilliol: Llymder | Lefel Risg Gweddilliol: Sgôr | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| YM7 | Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau | 10/2011 | Risg o beidio rheoli gwybodaeth yn effeithlon na'n effeithiol | • Systemau TG mawr nad ydynt yn addas<br>• Diffyg buddsoddi yn systemau TG<br>• Cyfyngiadau cyllidebol<br>• Gofynion deddfwrol<br>• Gofyn datblygol parhaus y Cyngor | • Analluedd i gydymffurfio ag anghenion cyfreithiol / statudol / contract<br>• Data cywir a chyfredol ddim ar gael yn cael effaith ar benderfyniadau<br>• Dyblygu<br>• Gwasanaethau llai effeithlon<br>• Colli / llai o incwm | 5 | 3 | 15 | Datblygu a gweithredu Strategaeth TGCh | Barry Eaton | | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Adnabod yr holl systemau cyfredol a sefydlu sut maent yn integreiddio â'i gilydd | Barry Eaton | Medi 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Adolygu unrhyw fylchau a pha sustemau ychwanegol sydd eu hangen i'w llenwi | Clare Williams | Mawrth 2014 | | | | |
| | | | | | | | | | Cyflwyno'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth (gan ystyried canfyddiadau'r Archwiliad ICO) | Huw Pritchard | | | | | |
| YM31 | Pennaeth Swyddogaeth Cyfreithiol a Gweinyddol | 08/2012 | Risg o beidio gydymffurfio â gofynion ddedfwriaeth Gwarchod Data | • Systemau anniogel<br>• Gwall dynol<br>• Trefniadau storio/gwaredu annigonol<br>• Diffyg arweiniad corfforaethol<br>• Trefniadau anaddas ar gyfer llywodraethu GD | • Niwed i enw da<br>• Cosbau Ariannol mewn termau dirwyon gan yr ICO | 5 | 4 | 20 | Gweithredu a gwreiddio rôl y SIRO | Huw Pritchard | | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Gweithredu'r Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth (wrth gymryd i ystyriaeth canfyddiadau archwiliad yr ICO) | Huw Pritchard | | | | | |
| YM20 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â darparu gwasanaethau yn dilyn digwyddiad o sylwedd (e.e argyfwng sifil, llifogydd mawr ayyb) | • Dim Cynlluniau Parhad Busness effeithiol mewn lle<br>• Diffyg cynlluniau argyfwng effeithiol mewn lle<br>• Diffyg gwerthfawrogiad o'r anghenion statudol a'u heffaith<br>• Diffyg capasiti<br>• Dibyniaeth ar system a rhwydweithiau TGCh | • Methu ag ymateb yn briodol<br>• Amharu ar wasnaethau<br>• Y Cyngor yn methu â chydymffurfio a'i ddyletswydd o dan y Ddeddf Argyfwng Sifil<br>• Niwed i enw da<br>• Adfer hir | 2 | 4 | 8 | Gwreiddio RPB fel ei fod yn dod yn rhan annatod o weithgareddau Gwasanaethau | Penaethiaid Gwasanaeth | Hyd2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Datblygu cynllun RPB TGCh | Barry Eaton | | | | | |
| | | | | | | | | | Ymarfer ac adolygu trefniadau RPB | Penaethiaid Gwasanaeth | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | UDA i weithredu strwythyr "Gold Command" | Bethan Jones | Medi 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Pwyllgor Gwaith i gytuno darpariaeth rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, wedi ei gynnal gan Sir y Fflint | Bethan Jones | Mawrth 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Tim Gweithredu Rhanbarthol i ddod a'r cynig ion leihau lefelau risgiau sydd yn weddill ymlaen a sefydlu gwasanaeth newydd | Bethan Jones | Oct 2013 | | | | |
| YM15 | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) | 10/2011 | Methu â chynllunio ar gyfer a chefnogi unigolion sydd yn cael eu heffeithio gan y Diwygiadau Buddiannau Lles | • Newidiadau i'r system Buddiannau Lles yn genedlaethol<br>• Diwygiadau Gronfa Gymdeithasol<br>• Diffyg manylder darparir o Llywodraethau Ganol a Chymraeg | • Gwaethygu cynhwysiant ariannol (mae ôl-ddyledion rhent £52k yn uwch ers mis Ebrill 2013)<br>• Cynnydd yn ymddygiad gwrth-gymdeithasol a gweithgareddau troseddol yn cynnwys twyll<br>• Cynnydd sylweddol yn ôl-ddyledion y Dreth Gyngor a Rent - £1m diffyg posibl yn y Dreth Gyngor<br>• Colli incwm i Wasanaethau Tai, yn effeithio ymarferoldeb y cynllun busnes 30 mlynedd<br>• Cynnydd yn ddigartrefedd a dyled unigolyn<br>• Lleihad incwm wrth i'r gallu i dalu am wasanaethau penodol leihau<br>• Costau uwch<br>• Galw uwch am wasanaeth, yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol a gwasanaethau cynghori<br>• Amser ychwanegol i asesu ceisiadau | 2 | 4 | 8 | Darparu'r Prosiect Diwygiadau Buddiannau | Shan Lloyd Williams | Awst 2013 | | | | Chwarterol |
| YM23 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Methu â gweithredu cynnwys y cynllun ôl – arolygiad Estyn a gwella perfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol | • Darganfyddwyd arolygiad Estyn fod perfformiad a'r rhagolygon i wella yn anfoddhaol<br>• Anghydbwysedd yn y galw a'r cyflenwi mewn perthynas a lleoedd ysgolion<br>• Disgwyliadau LIC a'r rheoleiddwyr allanol<br>• Diffyg cyllideb i gyflawni gwasanaethau a gwelliannau<br>• Capasiti arweinyddiaeth | • Ymyrraeth allanol pellach<br>• Gwasanaethau Addysg yn cael ei gymryd o reolaeth Ynys Môn | 3 | 5 | 15 | Cynnydd yn erbyn pob un o'r pwyntiau gweithredu a nodir yn y CGOA yn cael eu monitro'n rheolaidd ac adroddir arnynt i'r Pwyllgor Addysg a Hamdden. | Dr Gwynne Jones | Parhaus | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Adroddiad interim ar leoedd dros ben yn y sectorau cynradd ac uwchradd a gynhyrchir, gan amlygu ffigurau diwygiedig ar gyfer lleoedd dros ben ac ystafelloedd posibl mewn ysgolion penodol y gellid eu defnyddio i leoli staff ardal | Dr Gwynne Jones | Yn gyflawn | | | | |
| | | | | | | | | | Cwblhau ymgynghori mewn ardaloedd penodol | Dr Gwynne Jones | Yn gyflawn | | | | |
| | | | | | | | | | Amlinellu'r cynllun strategol ar gyfer moderneiddio ysgolion gytunwyd gan yr UDA | Dr Gwynne Jones | Yn gyflawn | | | | |
| YM25 | Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes | 08/2012 | Methu ag ymateb i adroddiad Estyn mewn perthynas ag Ysgol Uwchradd Caergybi, yn enwedig y diffyg yn y gyllideb | • Disgwyliadau Estyn<br>• Disgwyliadau'r Awdurdod o'r Ysgol. | • Gall gosod yr ysgol o dan fesurau arbennig, fyddai'n dylanwadu canfyddiad Estyn o'r Awdurdod.<br>• Niwed i enw da'r ysgol a'r Cyngor<br>• Lleihad yn nifer y disgyblion yn dewis yr ysgol | 4 | 3 | 12 | Datblygu cynllun ar ôl arolwg [CGOA] manwl | Dr Gwynne Jones | Yn gyflawn | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Monitro cynydd yn erbyn y CGOA yn rheolaidd | Dr Gwynne Jones | Yn gyflawn | | | | |

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod    Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus    Risg Uchel    Risg Canolig    Risg Isel    Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd | | | Lefel Risg | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen | | | Lefel Risg Gweddilliol | | | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregysrwydd / Perygl | Sbardun | Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | |
| YM5 | Cyfarwyddwr Cymuned | 10/2011 | Methu â chwrdd â gofynion y boblogaeth oedolion, yn enwedig y rheini sy'n gymwys am gefnogaeth | • Newidiadau demograffeg<br>• Cyffredinolrwydd uwch o orffwylltra<br>• Newid yng nghyllido o'r Gwasanaeth Iechyd a LIC<br>• Newidiadau i Buddiannau Lles<br>• Dyfarniad diweddar yn ymwneud â setlo ffioedd ar gyfer cartrefi Preswyl / Nyrsio Annibynnol<br>• Gostyniad sylweddol yn y grant Cefnogi Pobl | • Galw uwch am wasanaethau yn y dyfodol<br>• Llai o incwm<br>• Costau cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r cyllidebau ar gael<br>• Lleihad yn ansawdd gwasanaeth<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Niwed i enw da<br>• Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrdd<br>• Cynydd mewn digartrefedd, yn arbennig ymysg oedolion bregys | 3 | 4 | 12 | Darparu'r Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn | Anwen Davies | Medi 2016 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Cadarnhau'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys am gefnogaeth a sicrhau bod pob cynllun gofal newydd yn cwrdd a hyn | Anwen Davies | Mawrth 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Adolygu pob cynllun gofal cyfredol | Anwen Davies | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Cryfhau'r sylfaen o ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned yn arbennig o amgylch ymyrraeth | Anwen Davies | Medi 2016 | | | | |
| YM16 | Cyfarwyddwr Cymuned | 10/2011 | Methu â chwrdd â gofynion Plant Ynys Môn, yn enwedig y rhieni sy'n gymwys am gefnogaeth ac amddiffyniad | • Asesiadau a monitro annigonol<br>• Diffyg dogfennaeth<br>• Diffyg canllawiau priodol a hyfforddiant<br>• Cyfathrebu gwael<br>• Trosiant uchel o staff<br>• Diffyg capasiti<br>• Galw cynyddol am wasanaethau | • Ymyriadau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant dan fygythiad<br>• Cyflawni canlyniadau da ar gyfer plant dan fygythiad<br>• Amcanion allweddol a thargedau heb eu cyflawni<br>• Ymyrraeth allanol<br>• Anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid heb eu cwrdd<br>• Penderfyniadau yn cael eu gwneud heb ystyried barn / buddiannau cydranddeiliad<br>• Gwasanaeth llai effeithiol<br>• Cynnydd mewn cwynion, hawliadau ac ymrwymiadau<br>• Cynnydd yn y pwysau ar y cyllidebau<br>• Morâl staff isel a lefelau salwch uchel<br>• Diffyg darpariaeth arall, yn cynnwys allsirol | 3 | 4 | 12 | Cyfarfodydd wythnosol i rheolwyr gweithredol rheoli risgiau darparu dangosyddion perfformiad allweddol | Anwen Huws | Parhaus | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Cyfarfodydd wythnosol o'r Uwch Banel Llety I rheoli lleoliadau allsirol | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfarfodydd misol o Tim Rheoli GP i rheoli a lliniaru materion fel cyllid, staffio, salwch a chydweithio | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Cyfarfod misol y Bwrdd Gwella Gwasanaeth aml-asiantaeth yn darparu sgriwtini a herio ar ystod o risgiau perfformiad a gwasanaeth, ac yn monitro Cynllun Gwella / Busnes y Gwasanaeth | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Mae'r Bwrdd Sicrwydd Ansawdd chwarterol yn rheoli materion o anghenion cwsmeriaid, cwynion a risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd y ddarpariaeth | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Grŵp Tasg wedi ei sefydlu i ddatblygu diogelwch data gwell | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Cynllun Gwella Gwasanaeth cynhwysfawr gyda chamau gweithredu clir, targedau a chyfrifoldebau | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Gwelliannau a gyflawnwyd mewn perthynas ag amddiffyn, diogelu, gofalu am ac ôl-ofal, yn ogystal â rheoli gwasanaethau | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Darparu canllawiau allanol pan fo angen (fel y Tîm Cefnogi Annibynnol) i ddarparu asesiad risg gwrthrychol o ddarparu gwasanaethau | Anwen Huws | Parhaus | | | | |
| YM38 | Cyfarwyddwr Cymuned | 11/2011 | Methu â chynllunio tai fforddiadwy ac addas i gwrdd ag anghenion y boblogaeth | • Diffyg mewnbwn/cynnydd<br>• Diffyg capasiti<br>• Effaith y Diwygiadau Buddiannau Lles | • Dim yn cwrdd â'r targedau<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaethau eraill (digartref, gwasanaethau cymdeithasol ayyb)<br>• Diffyg eiddo 1 – 2 llofft ar yr Ynys, sy'n gwneud lleihau yn broblem, a bydd yn arwain yn anochel i gynydd mewn ôl-ddyled rhent a digartrefedd | 3 | 3 | 9 | Cyfarfodydd chwarterol wedi eu sefydlu gyda Cyfarwyddwyr Datblygu y 3 RSL sy'n gweithio a'r Môn, a sydd yn cynllunio datblygiadau ar gyfer 3 blynedd ymlaen, ac yn monitro pob cynllun tra ar y safle, ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau a nodwyd | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Grŵp Galluogi Tai Gwledig yn canolbwyntio ar adnabod yr angen am dai, ac mae ganddynt gynllun gweithredu canolbwyntiedig, adolygir bob blwyddyn | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Ymgymerwyd ag arolwg o anghenion tai lleol a gwaith dilynol, gan weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Sianelau deialog gadarnhaol wedi eu datblygu gyda Swyddogion LIC, i wneud y mwyaf o wariant grant | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Ymchwilio i ffyrdd eraill o ariannu datblygiadau tai fforddiadwy, gan gynnwys defnydd o CRTa thir sy'n eiddo i'r Cyngor | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi ei ddrafftio i'w gyflwyno i'r Aelodau Etholedig a'r UDA | Shân Lloyd Williams | Mehefin 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Cryfhau perthynas waith gyda Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod anghenion llety yn cael eu bwydo i'r swyddogion perthnasol yn y Gwasanaethau Tai a'u hystyried mewn trafodaethau gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Shân Lloyd Williams | Parhaus | | | | |

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus ■ Risg Uchel ☐ Risg Canolig ☐ Risg Isel ☐ Aros am Wybodaeth

# COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

| Cyfeirnod Risk | Perchennog Risg/ Swyddog Arwain | Dyddiad Adnabuwyd neu Diwygiwyd | Risg Adnabuwyd | | | Lefel Risg | | | Mesurau Rheoli Ychwanegol / Triniaeth ei angen | | | Lefel Risg Gweddilliol | | | Dyddiad Arolygu / Amlder |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bregysrwydd / Perygl | Sbardun | Effeithiau / Beth neu pwy fydd yn cael eu heffeithio a sut / Canlyniad / Effaith ar amcanion | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | Gweithrediad | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Targed | Tebygrwydd | Llymder | Sgôr | |
| YM37 | Cyfarwyddwr Cymuned | 08/2012 | Methu â chynllunio ar gyfer mynediad i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd i gwrdd ag anghenion y boblogaeth | • Diffyg penderfyniadau Corfforaethol<br>• Diffyg cyfleusterau addas a darpariaeth gwasanaeth<br>• Diffyg buddsoddiad yn hanesyddol<br>• Diffyg strategaeth | • Dirywiad pellach yn y cyfleusterau (adeiladau) a'r gwasanaethau ar gael<br>• Diffyg darpariaeth ar gyfer gweithgareddau gofal cymunedol<br>• Cynnydd yn y galw am wasanaethau eraill (ymddygiad gwrth-gymdeithasol ayyb) | 2 | 3 | 6 | Cytuno a gweithredu Strategaeth Hamdden | Gwen Carrington | | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Cytuno a gweithredu Strategaeth Llyfrgelloedd | Gwen Carrington | | | | | |
| YM29 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 10/2011 | Methu â chwrdd â thargedau Rheoli Gwastraff. | • Targedau statudol mwy llym<br>• Diffyg cyfranogiad cydranddeiliaid | • Effaith ar y gyllideb ar gael<br>• Cosbau ariannol | 1 | 4 | 4 | Gwerthuso dewisiadau ailgylchu a gwastraff cyfredol gyda'r bwriad o weithredu system gasglu fwy effeithiol gan arwain at gyfraddau ailgylchu uwch | Dewi Williams | Mawrth 2014 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Ailddatblygu canolfannau ailgylchu gwastraff cartref | Dewi Williams | Rhag 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Parhau i hyrwyddo lleihau gwastraff ac ailgylchu i annog cyfranogiad cydranddeiliaid | Dewi Williams | Parhaus | | | | |
| YM36 | Cyfarwyddwr Cymuned | 01/2013 | Methu â chynllunio ar gyfer effaith diwygiadau yn y sector iechyd | • Diffyg gwybodaeth gan LIC a'r Ymddiriedolaeth Iechyd<br>• Diffyg capasiti | • Beichiau ychwanegol yn nhermau darparu gwasanaeth<br>• Costau ychwanegol<br>• Costau heb eu cyllido amdanynt | 4 | 4 | 16 | Sefydlu Bwrdd Prosiect i ddatblygu a gweithredu trawsnewid a chynllun moderneiddio ar gyfer y gwasanaeth | Anwen Davies | Medi 2016 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd mewn ardaloedd penodol i sicrhau bod effeithiau yn cael eu cyfyngu | Anwen Davies | Medi 2016 | | | | |
| | | | | | | | | | Cynnal astudiaeth i sefydlu anghenion tymor hir posib y boblogaeth a chost darparu gwasanaeth | Anwen Davies / Clare Williams | Mawrth 2014 | | | | |
| YM39 | Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy | 07/2013 | Risg o anaf neu salwch i weithwyr | • Diffyg gwerthfawrogiad o bwysigrwydd iechyd a diogelwch<br>• Torri rheolau iechyd a diogelwch<br>• Ansicrwydd mewn perthynas â newid | • Niwed i'r staff (gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn lle rhai ar absenoldeb salwch)<br>• Costau cynyddol<br>• Dirwyon / erlyniad<br>• Parhad gwasnaeth yn cael ei gyfaddawdu<br>• Llai o gapasiti | 2 | 4 | 8 | Sefyldu Bwrdd Llywio effeithiol ar gyfer Iechyd a Diogelwch | Steve Nicol | Gorff 2013 | | | | Chwarterol |
| | | | | | | | | | Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Iechyd a Diogelwch | Steve Nicol | Hydref 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Mabwysiadu a gorfodi dogfen rolau a chyfrifoldebau ar gyfer Iechyd a Diogelwch | Steve Nicol | Medi 2013 | | | | |
| | | | | | | | | | Datblygu a gweithredu Cynlluniau Iechyd a Diogelwch Blynyddol | Steve Nicol | Parhaus | | | | |
| | | | | | | | | | Monitro bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau ac yn effeithiol | Steve Nicol | Parhaus | | | | |

Tebygolrwydd: 1 = Prin 2 = Annhebygol 3 = Posib/Cymedrol 4 = Tebygol 5 = Bron yn Bendant / Digwydd yn Barod Llymder: 1 = Dibwys 2 = Bychan 3 = Cymedrol 4 = Mawr 5 = Trychinebus ■ Risg Uchel ■ Risg Canolig □ Risg Isel □ Aros am Wybodaeth

## ATODIAD B / APPENDIX B

| Gwasanaeth / Service | Cyfnod / Period | Atebolrwydd y Cyflogwr / Employers Liability | | | | | | Atebolrwydd Cyhoeddus / Public Liability | | | | | | Modur / Motor | | | | | | Eiddo / Property | | | | | | Eraill / Other | | | | | | Total | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | | Nifer o Hawliadau / No of Claims | | | | Côst / Cost | |
| | | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding | Derbyniwyd / Received | Talwyd / Paid | Gwrthodwyd / Repudiated | Heb ei Setlo / Outstanding | Talwyd / Paid | Heb ei Setlo / Outstanding |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | 01/04/2007 - 31/03/2008 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 184 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 292 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 3 | 0 | 408 | 0 | 6 | 5 | 4 | 0 | 884 | 0 |
| | 01/04/2008 - 31/03/2009 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 9000 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 1 | 0 | 9000 |
| | 01/04/2009 - 31/03/2010 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 | 2 | 2 | 0 | 964 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 2 | 3 | 0 | 964 | 0 |
| | 01/04/2010 - 31/03/2011 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 946 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 | 946 | 0 |
| | 01/04/2011 - 31/03/2012 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3174 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 3174 | 0 |
| | 01/04/2012 - 31/03/2013 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm / Total** | **1** | **0** | **0** | **1** | **0** | **9000** | **5** | **1** | **4** | **0** | **184** | **0** | **7** | **5** | **2** | **0** | **5376** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **6** | **0** | **6** | **0** | **408** | **0** | **19** | **6** | **12** | **1** | **5968** | **9000** |
| Datblygu Economaidd / Economic Development | 01/04/2007 - 31/03/2008 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 01/04/2008 - 31/03/2009 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 01/04/2009 - 31/03/2010 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 01/04/2010 - 31/03/2011 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 11500 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 2 | 1 | 0 | 11500 |
| | 01/04/2011 - 31/03/2012 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1200 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1200 | 300 |
| | 01/04/2012 - 31/03/2013 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2205 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 2205 | 0 |
| | **Cyfanswm / Total** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **4** | **2** | **2** | **0** | **2205** | **0** | **2** | **0** | **0** | **2** | **1200** | **11800** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **6** | **2** | **2** | **2** | **3405** | **11800** |
| Priffyrdd a Rheoli Gwastraff / Highways & Waste Management | 01/04/2007 - 31/03/2008 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 69 | 12 | 56 | 1 | 273308 | 1549 | 3 | 2 | 1 | 0 | 13531 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 74 | 14 | 59 | 1 | 286839 | 1549 |
| | 01/04/2008 - 31/03/2009 | 1 | 1 | 0 | 0 | 16297 | 0 | 44 | 6 | 35 | 3 | 112049 | 93412 | 5 | 4 | 1 | 0 | 2376 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 40000 | 51 | 11 | 36 | 4 | 130722 | 133412 |
| | 01/04/2009 - 31/03/2010 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 52 | 8 | 37 | 7 | 74625 | 188992 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 54 | 9 | 38 | 7 | 74625 | 188992 |
| | 01/04/2010 - 31/03/2011 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 56 | 11 | 43 | 2 | 90276 | 17780 | 9 | 7 | 2 | 0 | 2205 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 335 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 66 | 19 | 45 | 2 | 92816 | 17780 |
<u>Adwerthu</u>: Bydd Swyddogion y Cyngor yn edrych i fynychu archfarchnadoedd lle mae grwpiau mawr o drigolion yn casglu er mwyn dosbarthu holiadur a siarad un-i-un gyda'r trigolion nad ydynt o anghenraid yn cael cyswllt rheolaidd gyda'r Cyngor.

Bydd y sesiynau hyn yn cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau er mwyn manteisio ar y nifer mwyaf o ymatebion.

<u>Cyflwyniadau</u>: Bydd sefydliadau partneriaethol yn cael cyflwyniad i'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol drwy'r pwyllgorau a'r cyfarfodydd partneriaeth cyfredol a byddwn yn perfformio yn union yr un math o weithgaredd gyda'r grwpiau hyn, a byddwn yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno pan fydd yn gyfleus iddynt er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu cynrychioli. Dyma rai enghreifftiau o'n mudiadau partner -

Cynghorau Tref a Chymuned
Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
3ydd Sector h.y. Medrwn a Menter Mon
Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn
Fforwm Prifathrawon Ynys Môn

Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu hyrwyddo drwy wefan y Cyngor, a thrwy ein rhwydwaith o Lyfrgelloedd a Chanolfannau Hamdden.

Bydd ymwelwyr i bob un o'r canolfannau hyn yn derbyn holiadur a bydd staff y dderbynfa ar gael i ateb cwestiynau ar yr ymgynghoriad.

## 5.2 Gweithgaredd wedi ei Dargedu

Bydd y prosiect ymgynghori, fel a amlinellir yn 5.0, yn targedu yn benodol nifer o grwpiau sy'n rhannu nodweddion wedi eu diogelu. Mae nodweddion penodol y gweithgaredd hwn yn dal i gael eu datblygu ond byddant yn cynnwys, o leiaf, yr elfennau isod o ran hyrwyddo a chyfathrebu.

Pobl Ifanc: (Llais Ni - i'w gadarnhau ar gyfer mis Medi)

Cymunedau: Byddwn, fel gofyniad sylfaenol, yn ymgysylltu gyda'r rhai sy'n gweithio yn y maes Gofal Cymunedol i helpu i ddarparu'r ymgynghoriad hwn drwy eu cysylltiadau presennol gyda'r cymunedau.

Pobl hŷn: Rydym wedi ymgysylltu gydag asiantaethau a sefydliadau fel y Bartneriaeth Pobl Hŷn ac Age Concern i ddechrau a bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu cymryd i ystyriaeth.

Bydd yr holl holiaduron a'r dogfennau opsiynau yn cael eu cynhyrchu fel eu bod yn hawdd i'w darllen.

## 5.3 Hysbysebu ac 'Uwchben y Llinell'

Bydd ystod o hysbysebion ymyriadol ac unffordd yn ychwanegu at y sianelau cyfathrebu eraill ar gyfer yr ymgynghori hwn. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y gost leiaf a bydd yn cael ei ddefnyddio i gyfleu ein negeseuon allweddol a chyfeirio pobl i sianelau eraill lle y gallant gymryd rhan yn yr ymgynghori (h.y. gwefan, digwyddiadau, ac ati).

Bydd posteri'n cael eu datblygu a byddant yn amlygu'r negeseuon allweddol a'r ffyrdd o gyfranogi, a byddant yn cael eu dosbarthu drwy'r rhwydwaith llawn o asedau'r Cyngor ynghyd â lleoliadau sector preifat, yn cynnwys:

- Siopau papur newydd
- Siopa prydau poeth i'w cludo ymaith
- Deintyddion

- Meddygfeydd
- Swyddfeydd post
- Archfarchnadoedd
- Meithrinfeydd /Cyn-ysgol/ Canolfannau Plant
- Llyfrgelloedd
- Swyddfeydd y Cyngor
- CAB
- Swyddfeydd Tai
- Cwmnïau mawr

Bydd holiaduron yn cael eu dosbarthu i holl adeiladau'r Cyngor, gyda staff y derbynfeydd yn cael eu briffio i'w rhoi hwy allan i'r holl gwsmeriaid. Bydd blychau postio ym mwyafrif o adeiladau'r Cyngor i bobl ddychwelyd eu holiaduron ar ôl eu cwblhau.

### 5.4 Cynllun Cyfryngau

Bydd cefnogaeth y cyfryngau yn hanfodol i lwyddiant unrhyw weithgaredd cysylltiadau cyhoeddus. Mae ymchwil wedi dangos mai'r ffordd orau gan drigolion o gael gwybodaeth yw drwy'r cyfryngau lleol. Bydd y cyfryngau yn chwarae rhan greiddiol yn yr ymgynghori a bydd amserlen o weithgaredd o ran y wasg yn cael ei datblygu i gyflwyno'r prosiect, i hyrwyddo cyfleon ar gyfer cymryd rhan, dweud wrth bobl am y datblygiadau a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canlyniadau. Bydd y strategaeth cyfryngau yn ceisio dylanwadu ar ongl newyddion y newyddiadurwyr ond bydd hefyd yn effeithio ar ganfyddiadau miloedd o drigolion.

Yn ychwanegol at hyrwyddo negeseuon allweddol y prosiect hwn, mae'n bwysig hefyd ystyried sut yr ydym yn dweud pethau. Gall y tôn wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae pobl yn derbyn y negeseuon allweddol. Er enghraifft: Mae 'Byddem yn hoffi i chi ein helpu i gynllunio dyfodol gwasanaethau Ynys Môn' i'w weld yn gynnes ac yn gyfeillgar. O'i gymharu, mae 'Rhaid i bethau newid, neu bydd gwasanaethau'n dioddef' yn llawer mwy awdurdodol.

Mae ymchwil yn dangos ei bod yn llawer iawn gwell gan bobl glywed y dôn flaenorol ac nad ydynt eisiau clywed beth sydd yn rhaid iddynt ei wneud neu rywun yn 'pregethu' atyn nhw'.

Yng ngoleuni hyn, bydd y strategaeth cyfryngau yn canolbwyntio ar ddarparu'r ffeithiau a pherswadio ymgysylltiad drwy annog ysbryd o bartneriaeth drwy dôn uniongyrchol a thryloyw yn ogystal â negeseuon lleol.

Mae'r manteision o gymryd agwedd uniongyrchol yn cynnwys:

- Neges glir
- Diamwys - yn caniatáu i'r ffeithiau yn unig gael eu cyfathrebu
- Yn cynnwys gwybodaeth ar 'sut i' weithredu

- Efallai y bydd pobl yn sylwi mwy arno oherwydd ei fod yn ymwneud â gwasanaethau pwysig y maent hwy eu hangen neu eu heisiau

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r wybodaeth barhau i fod yn afaelgar ac felly bydd datblygu cyfleon cysylltiadau cyhoeddus yn sicrhau bod y gweithgareddau yn denu sylw pobl fel eu bod yn fwy tebygol o ymgysylltu a chael eu cynnwys.

Mae'n bwysig defnyddio amrywiaeth o gyfryngau i roi gwybodaeth i bobl a'u cael i gymryd rhan fel y gall y Cyngor gyrraedd cynulleidfa ehangach.

<u>Dulliau gweithredu ar gyfer Gweithgaredd Cysylltiadau Cyhoeddus</u>:
Bydd lansiad swyddogol yn cael ei drefnu gyda chyfle i gymryd lluniau yn cynnwys yr Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

Fe all hyn gynnwys gwaith briffio gyda newyddiadurwyr i egluro'r broses a'r rhesymau y tu ôl iddi. Bydd gwaith gyda'r cyfryngau yn canolbwyntio ar negeseuon allweddol, cynulleidfaoedd allweddol, cerrig milltir, amserlenni ac amseroedd cau.

Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei sicrhau mewn nifer o ffyrdd yn cynnwys:

- Datganiadau i'r wasg
- Cyfleon tynnu lluniau mewn digwyddiadau allweddol e.e. Sioe Mon
- Llythyrau i'r Golygydd
- Sesiynau briffio ar gyfer y wasg neu drafodaethau byw (gydag Arweinydd Cyngor)
- Erthyglau mewn llythyrau newyddion cymunedol a phartneriaethol
- Erthyglau gyda chyfryngau arbenigol allai fod â diddordeb mewn elfennau penodol o'r ymgynghoriad (e.e. llythyrau newyddion busnesau lleol).

Bydd cyhoeddusrwydd cadarnhaol am unrhyw beth sy'n ymwneud â'r prosiect yn helpu i annog cefnogaeth a dealltwriaeth o'r materion. Yng ngoleuni hyn, mae amserlen o weithgareddau rhagweithiol gyda'r cyfryngau yn cael ei datblygu i gyd-fynd â dyddiadau a chyfleon allweddol ar gyfer ymgysylltu.

Yn unol ag arfer orau, bydd swyddfa'r wasg yn sicrhau:

- Bod gwaith y cyfryngau yn rhagweithiol ac wedi ei integreiddio'n llwyr gyda'r ymgyrch farchnata ehangach
- Bod cyhoeddusrwydd wedi ei gysylltu i faterion lleol go iawn fel y gall trigolion berthnasu iddo

- Bod yna ddata bas o gyfranogwyr y gellir galw arnynt pan fo angen
- Bod manylion y sefydliad ar gael yn rhwydd i newyddiadurwyr (e.e. faint mae'r gwasanaethau'n gostio a beth fydd pobl yn ei gael am eu harian)
- Bydd yr holl gyhoeddusrwydd yn y cyfryngau yn cael ei fonitro a'i recordio

Rhwystrau Tebygol i Ymgysylltiad:
Amheuaeth: Rhaid i'r Cyngor fod yn barod am bryderon ynglŷn â'r prosiect hwn. Rhaid mynd i'r afael â Negyddiaeth er mwyn gwneud yn siŵr fod pobl yn deall bod y Cyngor eisiau diogelu yn hytrach na pheryglu'r gwasanaethau sydd yn bwysig i bobl. Bydd rhoi gwybodaeth i bobl a chadw mewn cysylltiad â hwy ar bob cyfnod o'r prosiect hwn yn bwysig er mwyn parhau i gael eu cefnogaeth.

Diffyg ymddiriedaeth: O ystyried y materion enw da sylweddol sy'n parhau ac sydd yn y fantol, mae datblygu a chadw ymddiriedaeth trigolion yn rhan hanfodol o'r prosiect hwn.

Difaterwch: Fe fydd yna bob amser bobl nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb yn y prosiect ond mae'n bwysig nad ydym yn gwahaniaethu yn eu herbyn a'n bod yn ymgysylltu â hwy. Dylem ddarparu'r wybodaeth y mae pobl ei hangen i ddeall beth yr ydym yn ceisio ei gyflawni a chynnig cyfleon i bawb gymryd rhan.

Disgwyliadau: Rhaid i'r Cyngor reoli disgwyliadau. Rhaid i'r strategaeth cyfryngau osod disgwyliadau realistig a pheidio â gorwerthu na thanwerthu'r prosiect i'r cynulleidfaoedd perthnasol.

Protocol ar gyfer Rheoli'r Cyfryngau: Bydd protocol yn cael ei ddrafftio i sefydlu'r cyfranddeiliaid priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd o fewn y prosiect hwn. Bydd hyn yn cynnig cyfarwyddyd ynglŷn â pha bryd y dylai'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am roi cyhoeddusrwydd a siarad ar y mater.

### 5.5 Cyfathrebu ar-lein

Bydd y Cyngor yn defnyddio nifer o sianelau cyfathrebu ar y we i hyrwyddo a darparu'r ymgynghoriad cyllidebol.

**Pa gynulleidfaoedd a ellir eu cyrraedd drwy gyfathrebu ar-lein?**
Mae defnydd o'r Rhyngrwyd wedi ei gysylltu â nifer o ddangosyddion cymdeithasol-economaidd a demograffig amrywiol, fel oedran, lleoliad ac addysg:

- Mae 99% o rai 16 - 24 oed wedi defnyddio'r Rhyngrwyd.
- Mae 82% o bobl 65 + oed wedi defnyddio'r rhyngrwyd.
- Mae 97 % o oedolion a gafodd addysg i lefel gradd wedi cael mynediad i'r Rhyngrwyd.

- Mae 45 % heb unrhyw gymwysterau ffurfiol wedi cael mynediad i'r Rhyngrwyd.
- Mae 4 miliwn o oedolion anabl nad ydynt erioed wedi defnyddio'r Rhyngrwyd.

Bydd angen cael sianelau cyfathrebu eraill i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cyrraedd pobl nad ydynt yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn arbennig pobl dros 65, y rhai sydd â llai o gymwysterau ffurfiol a rhai gydag anableddau.

**Hyrwyddo'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor**
Er mwyn cefnogi tryloywder y broses ymgynghori, bydd pob un o'r adroddiadau sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad i'w cael yn hawdd ac yn weddol sydyn ar wefan y Cyngor.

Bydd trigolion hefyd yn gallu defnyddio'r wefan i roi eu safbwyntiau drwy holiadur ar-lein.

Bydd yr ymgynghori'n cael ei hysbysebu ar draws y wefan a bydd ymwelwyr yn gallu ateb yr holiadur ar unwaith ar-lein os oes ganddynt ddiddordeb mewn rhoi eu safbwyntiau.

**Gwefannau rhwydweithio cymdeithasol**
Mae rhwydweithio cymdeithasol yn fwy poblogaidd gyda'r rhai dan 40 oed. Fodd bynnag, y mae'n tyfu mewn poblogrwydd gyda rhai hŷn ac y mae gan nifer ohonynt gyfrif Facebook.

Mae gan Gyngor Ynys Môn dros 2,000 o ddilynwyr ar Twitter a dros 2000 o gyfeillion ar eu tudalennau Facebook. Bydd negeseuon rheolaidd yn cael eu postio i'r bobl hyn drwy'r ymgynghoriad i'w hannog i gymryd rhan.

**E-bost**
Mae gan y Cyngor fas-data o 100 o bobl leol sydd wedi gofyn am gael eu diweddaru am wasanaethau'r Cyngor trwy e-bost. Byddir yn e-bostio'r bobl hyn gyda gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymgynghori.

Profodd hyn i fod yn ffordd effeithiol iawn o hyrwyddo ymgynghoriadau mewn awdurdodau eraill a bydd yn cael ei annog fwy a fwy yma ym Môn.

**Adrodd yn ôl i'r cyhoedd**
Drwy gydol yr ymgynghori, byddir yn defnyddio'r wefan a sianelau eraill i adrodd yn ôl i'r cyhoedd ar sut y cymerwyd eu safbwyntiau i sylw pan yn gwneud rhyw benderfyniad arbennig. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn yr arolwg ac yn darparu cyfeiriad e-bost yn derbyn e-byst ar ôl yr ymgynghoriad yn egluro sut y cymerwyd eu safbwyntiau i ystyriaeth a'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

### 5.6 Ymgysylltu â Gweithwyr

Mae Cynllun Ymgysylltiad Gweithwyr wedi ei sgopio ac mae nifer o'r cymhorthion ymgysylltu arfaethedig uchod wedi eu sicrhau yn ychwanegol at wasanaeth newyddlen y Cyngor a chylchrediad y Ddolen.

## 6.0 Goblygiadau o ran Adnoddau

Rydym yn gweithio ar y goblygiadau o ran adnoddau ar hyn o bryd.

| Activity | Description | Cost |
|---|---|---|
| 5,000 Cardiau Post | I gynyddu'r mewnbwn gan drigolion yn sefydliadau'r Cyngor | £357 (yn cynnwys costau dylunio) |
| 200 Posteri | I hysbysu ac arwain trigolion i lle a sut i gymryd rhan | Hyd at £300 |
| Hysbysebion yn y papuray newydd lleol – Mail & Chronicle | I hysbysu'r darllenwyr o le, sut a phryd i gymryd rhan | Chronicle x 3 - £1050<br>Mail x 3 - £TBC |
| Hawl i Holi (cost terfynol) | I ymgysylltu a sgrwtineiddio'r drafft arfaethedig gydag Aelodau | Oddeutu £4,000 (yn seiliedig ar 5 HiH) |
| Presenoldeb mewn archfarchnadoedd lleol | I hysbysu a hyrwyddo'r trigolion o le a sut i gyfranogi yn ogsytal a sicrhau cyfranogiad | ?? (I'w gadarnhau)<br>Minimal |
| **CYFANSWM** | | **Oddeutu £6,500 (yn seiliedig ar 5 HiH)** |
| | | |

**APPENDIX 1 – GWNEUD GWAHANIAETH………Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu**

| Gweithgaredd | Perchnogaeth / Cyfrifoldeb | Wythnos yn cychwyn……. | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1/7 | 8/7 | 15/7 | 22/7 | 29/7 | 5/8 | 12/8 | 19/8 | 26/8 | 2/9 | 9/9 |
| Briffio'r Penaethiaid | GM | | | | | | | | | | | |
| Cytundeb UDA I'r holiadur gyhoeddus | GM | | | | | | | | | | | |
| Cytundeb y PG I'r holiadur gyhoeddus | GM | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad gyda Staff | GM / GS | | | | | | | | | | | |
| Briffio staff ar y gwaith ymgysylltu | UDA | | | | | | | | | | | |
| Y Ddolen | GS | | | | | | | | | | | |
| Newyddlen Staff | GS | | | | | | | | | | | |
| Stand yn y dderbynfa yn ysgogi ymrwymiad | NE / GS | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad pellach drwy SNS / wefan | GS | | | | | | | | | | | |
| Ads yn y Papurau lleol | GS | | | | | | | | | | | |
| Cynhadledd Rheolwyr Canol (Medi) | GM / JW | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad gyda'r cyhoedd | GS / GJ | | | | | | | | | | | |
| Cwestiynnu'r Arweinydd ar MonFM @ Sioe Mon | GJ | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hawl I Holi (cychwyn Medi) TBC | GJ | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad yn y wasg & ar SNS /wefan | GS | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad e-bost gyda 100 drigolion | GM | | | | | | | | | | | |
| Presenoldeb y Cyngor @ Archfarchnadoedd | AW | | | | | | | | | | | |
| Gwybodaeth mewn canolfannau hamdden / llyfrgelloedd a derbynfeydd y Cyngor (postcards) | Staff | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltiad gyda Hapddalwyr | GM | | | | | | | | | | | |
| Cynghorau Tref a Chymuned (e-bost) | GM | | | | | | | | | | | |
| Partneriaeth Economaidd Mon | AO (?) | | | | | | | | | | | |
| Medrwn & Menter Mon (3ydd sector) | GC / HJ (?) | | | | | | | | | | | |
| Pennaethiaid Ysgolion | GJ (?) | | | | | | | | | | | |
| Ebost Bwrdd y DAP (Twristiaeth) | IH | | | | | | | | | | | |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc | GM / LlJ | | | | | | | | | | | |

Tudalen 80

**I'W DDYCHWELYD ERBYN 13 MEDI 2013 OS GWELWCH YN DDA**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Gwneud Gwahaniaeth**

Mae gwariant cyhoeddus dan bwysau. Wrth i Lywodraethau'r Deyrnas Gyfunol a Chymru gyhoeddi rhagor o doriadau i wariant cyhoeddus, bydd yn rhaid i lywodraeth leol wneud penderfyniadau anodd.

Yma ym Môn rhagwelir y bydd angen i ni arbed £20m dros y tair blynedd nesaf.

Er bod gennym lai o arian i'w wario, mae disgwyliadau pobl leol yn uwch. Wrth gwrs, mae'r cyhoedd yn dymuno gweld gwelliannau mewn meysydd allweddol fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae pobl eisiau gweld economi leol ffyniannus, gyda digonedd a gyfleon ac amgylchedd lleol sy'n lân ac yn daclus.

Gyda llai o arian i'w rannu, mae un peth yn sicr: bydd raid i ni benderfynu'n ofalus iawn **beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf** i fywydau pobl leol, a chanolbwyntio ar wneud y pethau hynny'n dda.

**Dyna pam rydym angen eich sylwadau. A fyddech cystal â threulio ychydig o funudau'n cwblhau'r holiadur hwn.**

Gallwch ei gwblhau ar-lein yn www.ynysmon.gov.uk/gwneud gwahaniaeth neu gallwch fynd â'r holiadur i'ch llyfrgell neu eich canolfan hamdden leol, neu i swyddfeydd y Cyngor. Fel arall gallwch ei bostio i Gwneud Gwahaniaeth, Swyddfa'r Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW.

**RHAN 1: Beth sy'n gwneud gwahaniaeth?**

Bydd gan y Cyngor £20m yn llai o arian i'w wario dros y tair blynedd nesaf.

Mae hynny'n dal i olygu y bydd gennym gyllideb net o oddeutu £130m bob blwyddyn i'w gwario yn Ynys Môn. Ar ba bethau y dylem ni wario'r arian hwnnw yn eich barn chi? Beth ddylai ein blaenoriaethau fod? Dyma eich cyfle i gael dweud eich dweud.

Rydym wedi nodi tri maes gwaith i'r Cyngor hyd at 2017 sy'n canolbwyntio ar sefydlu'r isod…….

1. **Ynys Fenter** ☐
   Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i adfywio Ynys Môn: darganfod ffyrdd i ailfywhau cymunedau, rhoi sylw i sgiliau angenrheidiol, tai ac isadeiledd ac amgylchedd yr Ynys.

2. **Cyngor sydd â Gwasanaethau Ardderchog** ☐
   Ymdrechu i sicrhau bod y Cyngor yn gwasanaethu'r cyhoedd yn y ffordd orau bosib, trwy ddarparu gwasanaethau effeithlon a modern sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Mae'n golygu rhoi pwyslais ar wella meysydd penodol lle mae angen i ni wella ein gwasanaethau.

3. **Cyngor sy'n trawsnewid ei Fusnes i gwrdd â'r hinsawdd economaidd heriol** ☐

   Edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sicrhau bod gennym y dechnoleg, yr arbenigedd, y gweithlu, y cynlluniau a'r trefniadau llywodraethu iawn ar gyfer darparu gwasanaethau unfed ganrif ar hugain i'r cyhoedd

Pa un o'r rhain yw'r pwysicaf i chwi?

Ysgrifennwch 1, 2 neu 3 yn y blychau perthnasol i'w rhoi yn nhrefn eu pwysigrwydd.

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r meysydd gwaith hyn?**

Yn Cytuno'n Gryf ☐ Cytuno ☐ Dim yn Cytuno nac yn Anghytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n Gryf ☐

Sylwadau pellach (Parhewch ar ddalen arall os oes angen)

| |
|---|
| |

Rydym wedi nodi meysydd ar gyfer eu datblygu dan bob thema allweddol. Dywedwch wrthym beth yw eich pum blaenoriaeth uchaf a'ch pum blaenoriaeth isaf os gwelwch yn dda. Peidiwch â rhoi **dim mwy na 5 tic** ym mhob colofn os gwelwch yn dda.

| | Uchel | Isel |
|---|---|---|
| Codi safonau mewn ysgolion a moderneiddio cyfleusterau addysgol | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleon i gael swyddi trwy ehangu ymchwil a hyfforddiant | | |
| Gwella'r rhwydwaith ffyrdd trwy ailwynebu ffyrdd, trin wynebau ffyrdd a buddsoddiadau eraill yn yr isadeiledd ffyrdd | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau'r adfywiad economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl ar yr Ynys | | |
| Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio gwasanaethau sy'n rhoi cyngor ar faterion budd-dal ac i ostwng tlodi | | |
| Mwy o gyfleon i bobl hŷn fyw'n annibynnol am gyfnodau hwy | | |
| Cefnogi plant bregus | | |
| Sicrhau mynediad i dai fforddiadwy | | |

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu canolfannau cymunedol lleol i ddod â gwasanaethau'n agosach at y bobl a defnyddio adeiladau gwag | | |
| Bod â system gynllunio gadarn sy'n sensitif i bryderon lleol | | |
| Rhagoriaeth o ran y gwasanaeth i'r cwsmer yn yr holl wasanaethau yr ydym yn eu darparu | | |
| Cynyddu cyfraddau ailgylchu | | |
| Hybu'r iaith Gymraeg a meithrin cymunedau dwyiethog | | |

Pa bethau eraill sy'n gwneud / fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd yn Ynys Môn?

| |
|---|
| |

**RHAN 2: Arbedion**

Mewn sefyllfa ddelfrydol, byddai gennym arian i'w wario ar yr holl bethau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i ansawdd eich bywyd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â lle dylid gwneud arbedion.

Bydd eich sylwadau yn ein cynorthwyo wrth i ni lunio opsiynau ar gyfer gwneud arbedion. Byddwn yn ymgynghori gyda chi ar

fanylion mwy penodol cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

- Cynyddu ffioedd parcio a hamdden?
- Rhoi’r gorau i ddarparu gwasanaethau am ddim neu wasanaethau a ddarperir am lai na’u cost.
- Trosglwyddo rhai o swyddogaethau’r Cyngor i’r sector preifat, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol?
- Gweithio gyda sefydliadau preifat, cymunedol a gwirfoddol i greu sefydliad cydweithredol neu ar y cyd i redeg gwasanaeth?
- Cydweithio gyda Chynghorau eraill i sicrhau arbedion ariannol mawr?
- Adolygu nifer yr adeiladau a’r cyfleusterau yr ydym yn eu rhedeg?
- Rhoi’r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau yn gyfan gwbl? Pa rai?

**Diolch am eich sylwadau. Bydd eich barn yn cyfrif.**

**Mawr o ddiolch am eich amser.**

## GWNEUD GWAHANIAETH
## Holiadur Cydraddoldeb

Er mwyn ein cynorthwyo ni i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd sy'n deg i bawb, byddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu rhoi i ni'r wybodaeth y gofynnir amdani isod. Bydd y wybodaeth a gawn gennych yn gyfrinachol ac yn ddienw, yn cael ei chadw ar wahân i unrhyw ohebiaeth a gawn gennych ac yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro ystadegol yn unig.

**Oed**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 – 15 | | 16 – 20 | | 21 – 45 | |
| 46 – 65 | | 66 – 74 | | 75 a throsodd | |

**Rhyw**

| | |
|---|---|
| Gwryw | |
| Benyw | |
| Gwell gen i beidio â dweud | |

**Adnabod Rhyw –** Ydych chi erioed wedi dweud eich bod yn drawsryweddol? I ddibenion y cwestiwn hwn, diffinnir "trawsryweddol" fel unigolyn sy'n byw, neu sy'n dymuno byw, amser llawn yn y rhyw na chafodd ei aseinio iddynt ar adeg eu geni.

| | |
|---|---|
| Do | |
| Naddo | |
| Gwell gen i beidio â dweud | |

**Dewis iaith (siarad)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | | Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) | | |
| Saesneg | | Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | | |

**Dewis iaith (ysgrifenedig)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg | | Braille | | |
| Saesneg | | Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | | |

**Anabledd** - A ydych yn ystyried bod gennych anabledd sy'n cyd-fynd a'r ystyr yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r Ddeddf yn diffinio person anabl fel rhywun sydd â nam corfforol neu feddyliol, sydd yn cael effaith sylweddol ac andwyol tymor hir ar ei allu ef neu hi i wneud gweithgareddau dydd i ddydd cyffredin.

| | |
|---|---|
| Ydw | |
| Nac ydw | |
| Gwell gen i beidio â dweud | |

Os ydych, disgrifiwch natur eich anabledd os gwelwch yn dda. Gallwch nodi mwy nag un.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nam corfforol | | Anhawster/anabledd dysgu | | |
| Nam synhwyrol | | Gwell gen i beidio â dweud | | |
| Anhawster iechyd meddwl | | Arall/anabledd na ellir ei weld | | |

**Crefydd neu gred**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Baha'i | | Iddew | | |
| Bwdhydd | | Moslem | | |
| Cristion | | Sikh | | |
| Hindŵ | | Dim crefydd neu gred | | |
| Jain | | Gwell gen i beidio â dweud | | |
| | | Arall (manylwch yma) | | |

**Cyfeiriadedd rhywiol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | Cyfunrywiol | |
| Hoyw | | Lesbiad | |
| Gwell gen i beidio â dweud | | | |

**Tarddiad ethnig**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | | Asiaidd | | Du | | |
| Tsieineaidd | | Cymysg | | Arall (manylwch yma) | | |

Diolch am eich amser.

Dychwelwch y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, at:

Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni, Uned Bolisi, Cyngor Mon, Llangefni, LL77 7TP

This page is intentionally left blank

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ein cyf: | PT/jm | Gofynnwch am: | James Merrifield |
| Eich cyf: | | ☏ | 01656 644 200 |
| Dyddiad: | 9 Gorffennaf 2013 | ✉ | James.Merrifield@ombwdsmon-cymru.org.uk |

Mr Richard Parry Jones
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Congor
Llandefni
Ynys Mon
LL77 7TW

Annwyl Richard

**Llythyr Blynyddol 2012-2013**

Yn sgil cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf amgáu'r Llythyr Blynyddol (2012-2013) ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Fel yr amlinellir yn fy Adroddiad Blynyddol, cynyddodd nifer y cwynion newydd i'm swyddfa 12% i'r hyn oedd yn 2011/12. Cwynion ynghylch iechyd yw'r cwynion mwyaf niferus o hyd a, bellach, maent i gyfrif am fwy na thraean o'r holl gwynion a ddaeth i law. Tai a chynllunio yw'r meysydd mwyaf wedi hynny o ran cwynion yn eu cylch er bod nifer y cwynion ynghylch cynllunio yn amlwg yn llai na'r rhai ynghylch tai, a hynny am y tro cyntaf ers i'r swyddfa ddod i fodolaeth (yn cyfrif am 16% a 12% o'r llwyth gwaith).

Wrth gyfeirio at berfformiad cyffredinol Cynghorau Sir/Bwrdeistrefol Sirol yng Nghymru, er y bu cynnydd o 35% yn nifer yr adroddiadau ymchwilio a gyhoeddwyd gan fy swyddfa yn ystod 2012/13 o'i gymharu â 2011/12, rwyf yn falch o nodi, er gwaethaf y cynnydd hwn, na fu cynnydd yn nifer gyfartalog yr adroddiadau 'wedi ei gadarnhau' a gyhoeddwyd yn erbyn Cynghorau Sir/Bwrdeistrefol Sirol. Er fy mod wedi cael achos i gyhoeddi nifer o Adroddiadau er Lles y Cyhoedd sy'n nodi pryderon a ffaeleddau - mae'r adroddiadau hyn i gyd wedi ymwneud â'r byrddau iechyd. Er gwaethaf hyn, buaswn yn annog yr holl gyrff yng Nghymru i ddarllen yr adroddiadau er mwyn dysgu unrhyw wersi cyffredinol sy'n briodol i'r gwasanaethau y maent yn eu rhoi.

Nodaf fod nifer gyfartalog yr 'Atebion Sydyn' a'r 'Setliadau Gwirfoddol' a gyflawnwyd gydag awdurdodau lleol yn is na'r nifer yn 2011/2012 - gostyngiad o bum achos i bedwar. Mae setliadau o'r fath yn ffordd effeithiol o ddatrys cwynion yn gynt heb fod rhaid cael ymchwiliad llawn. I'r perwyl hwn, mae crynodebau o atebion sydyn a setliadau gwirfoddol i'w gweld yn fy nghyhoeddiad chwarterol, 'Coflyfr yr



Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk

Ombwdsmon', os ydych yn dymuno manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu gwersi o'r mathau hyn o achosion.

Fodd bynnag, siomedig yw gorfod nodi nad yw'r amser y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei gymryd i ymateb i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa wedi gwella. Mae'n destun pryder i mi fod 45% o'r holl ymatebion wedi cymryd dros bum wythnos, gyda 28% o ymatebion yn cymryd dros 6 wythnos. Rwyf yn sylweddoli bod adnoddau wedi'u hymestyn i'r eithaf y dyddiau hyn, ond mae oedi o'r fath yn fy rhwystro rhag rhoi'r gwasanaeth y mae ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl i achwynwyr. Rwyf yn annog yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ailedrych ar eu perfformiad.

Mewn perthynas â'ch Cyngor, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y cwynion sydd wedi dod i law ac sydd wedi bod yn destun ymchwiliad, o gymharu â 2011/12 er bod y ddau ffigur yn uwch na'r cyfartaledd o hyd. Er bod gostyngiad hefyd wedi bod yn nifer y cwynion a gafodd eu 'cadarnhau' o gymharu â 2011/12, mae'r ffigur hwn hefyd yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd. O ran amseroedd ymateb eich Cyngor, siomedig yw nodi y derbyniwyd hanner yr ymatebion i geisiadau am wybodaeth gan fy swyddfa i dros chwe wythnos ar ôl gofyn amdanynt.

Fel gydag ymarferion blaenorol, bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar fy ngwefan. At hyn, os credwch ei fod yn fuddiol, buaswn yn falch o gwrdd â chi er mwyn trafod cynnwys y llythyr hwn a gwaith fy swyddfa.

Yn gywir,

Peter Tyndall
Ombwdsmon

## Atodiad

**Nodiadau Eglurhaol**
Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion a dderbyniodd fy swyddfa yn erbyn y Cyngor yn 2012-2013 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth[1]) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn rhoi dadansoddiad o nifer y cwynion ynghylch y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2012/2013. Mae adran C yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a dderbyniodd fy swyddfa yn 2012-2013 â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod hwn. Dadansoddir y ffigyrau'n ôl categorïau pwnc.

Mae adran D yn nodi nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliodd fy swyddfa iddynt yn 2012-2013. Mae adran E yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor yr ymchwiliwyd iddynt â'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran F yn cymharu canlyniadau'r cwynion i'r Cyngor yn 2012-2013, â chyfartaledd y canlyniadau (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Cofnodir adroddiadau er Lles y Cyhoedd a gyhoeddir dan adran 16 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus Ombwdsmon (Cymru) 2005 fel 'Adran 16'.

Mae adran G yn cymharu amseroedd ymateb y Cyngor yn 2012-2013, ag amseroedd ymateb cyfartalog yr holl awdurdodau lleol a'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r graff hwn yn mesur yr amser rhwng y dyddiad y cyhoeddodd fy swyddfa lythyr 'dechrau ymchwiliad' a'r dyddiad y mae'n derbyn ymateb llawn gan y corff cyhoeddus i'r llythyr hwnnw.


Mae adran H yn rhoi dadansoddiad o'r holl gwynion ynghylch y Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn 2011-2012. Yn olaf, yn adran 'I', ceir crynodebau o'r holl adroddiadau a gyhoeddwyd yng nghyswllt y Cyngor yn 2012-2013.

**Y Stoc Dai**
Fel gydag ymarferion cynt, nid yw ffigyrau 2012-2013 wedi'u haddasu i fwrw cyfrif o drosglwyddo'r stoc dai. Fodd bynnag, nodir ei bod yn debygol y bydd cyfran uwch o gwynion ynghylch tai pryd bynnag y bydd awdurdodau lleol wedi cadw eu stoc dai.

**Adborth**
Rydym yn croesawu adborth gennych am y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys syniadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys mewn crynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon adborth neu ymholiadau at james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk <mailto:james.merrifield@ombudsman-wales.org.uk>

[1] http://www.ons.gov.uk/ons/publications/re-reference-tables.html?edition=tcm%3A77-262039

**A: Cymharu cwynion a ddaeth i law fy swyddfa gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**





**B: Cwynion a ddaeth i law fy swyddfa**


| Pwnc | 2012-2013 | 2011-2012 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 1 | 3 |
| Gweinyddu Budd-dadiadau | 1 | 3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | 1 | 1 |
| Addysg | 2 | 0 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 1 | 2 |
| Cyllid a Threthiant | 0 | 0 |
| Tai | 2 | 2 |
| Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 13 | 11 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 0 |
| Eraill Amrywiol | 2 | 4 |
| **Cyfanswm** | **25** | **26** |

## C: Cymharu cwynion yn ôl categori testun gyda'r ffigur cyfartalog ar gyfer awdurdodau lleol

### 2012-2013




### 2011-2012





Tudalen 93

**D: Cwynion yr aeth fy swyddfa â hwy ymlaen i ymchwiliad**


| | 2012-2013 | 2011-2012 |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion yr aethpwyd â hwy i ymchwiliad | 2 | 5 |

**E: Cymharu'r cwynion y bu i'm swyddfa ymchwilio iddynt gyda'r ffigur cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth**




## F: Cymharu canlyniadau cwynion gyda'r canlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu yn ôl dosbarthiad y boblogaeth

### 2012-2013








### 2011-2012



**G:** **Cymharu amseroedd Ynys Mon ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth ag amseroedd ymateb yr holl ALI a Chymru Gyfan ar gyfartaledd, 2012-2013 (%)**




**H:** **Cwynion y Cod Ymddygiad**



## I: Crynodebau'r adroddiadau

### Iechyd

### Cadarnhawyd

**Hydref 2012 – Arall – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Ms A ar ran ei mam, Mrs B, a'i hewythr, Mr W, am y gofal a'r driniaeth a roddwyd i Mr W gan Gyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd Ms A yn cwyno'n fwyaf arbennig am y diffyg cyfathrebu â'r teulu, yn enwedig â'i mam yn ystod arhosiad Mr W mewn cartref nyrsio rhwng Gorffennaf 2008 a Chwefror 2011, ac ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty ar 21 Chwefror 2011.

Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y gŵyn yn rhannol. Ar ôl cael cyngor gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig, nyrs iechyd meddwl cofrestredig a seiciatrydd ymgynghorol, canfu'r ymchwiliad fod lefel y cyfathrebu â'r teulu ynglŷn â gofal Mr W yn annigonol. Canfuwyd diffygion yng nghynllunio gofal ac ôl-ofal y Bwrdd Iechyd ac yn ei drefniadau cadw cofnodion, yn ogystal â methiant i ymateb i'r gŵyn gyntaf. Hefyd, gwelwyd fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer delio â chwynion a'i bolisi cwyno hefyd yn annigonol.

Gwnaeth yr Ombwdsmon nifer o argymhellion i roi sylw i'r methiannau a ganfuwyd, a oedd yn cynnwys argymhelliad bod y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn ymddiheuro am y methiannau cyfathrebu a chytuno y bydd ymateb ar y cyd yn cael ei wneud i gwynion o'r fath mewn achosion yn y dyfodol. Roedd yr Ombwdsmon hefyd yn argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd dalu iawndal o £300 i'r teulu am y methiant i ymateb i'r gŵyn, ac i gymryd camau priodol i roi sylw i unrhyw fethiannau o ran y Dull Rhaglen Ofal.
**Achos rhif 201101477 a 201101445**

**Mehefin 2012 – Triniaeth glinigol y tu allan i ysbyty – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Mr a Mrs A am y gofal a'r driniaeth a roddwyd i frawd Mrs A, Mr H, a methiant y Bwrdd Iechyd i ddelio'n briodol â'u cwyn.

Ym mis Mai 2009, cafodd Mr H ei anfon a'i gadw mewn Uned Seiciatrig leol. Roedd hyn yn dilyn pryderon a godwyd gan Mr a Mrs A nad oedd Mr H yn bwyta nac yn yfed fel y dylai a'i fod yn esgeuluso'i hun. Gwnaethpwyd diagnosis o salwch iselhaol a symptomau seicotig. Ar ôl cael triniaeth dechreuodd ei gyflwr wella ac fe'i rhyddhawyd yng Ngorffennaf 2009.

Cyn gadael yr ysbyty, rhoddwyd Mr H ar raglen dull gofal uwch ("CPA"). Roedd y CPA uwch i fod i adlewyrchu'r ffaith bod angen ymyriad uwch a chynllun gofal cynhwysfawr ar yr unigolyn i leihau'r tebygrwydd o ailwaelu ar ôl dychwelyd i'r gymuned. Er mwyn helpu i gydlynu gofal Mr H, penodwyd Gweithiwr Cymdeithasol ("GC") o'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ("CMHT"), sy'n cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, fel Cydlynydd Gofal Mr H. Rhan allweddol o gynllun gofal Mr H fyddai ymweliadau rheolaidd gan y GC. Yn dilyn tri ymweliad â chartref Mr H (ym mis Gorffennaf a Medi), unig gysylltiad y GC â Mr H wedi hynny oedd dros y ffôn. Yn dilyn cyfnodau pan fu'r GC yn sâl, ymddengys fod cysylltiad y gwasanaethau cymdeithasol wedi dod i ben, er bod Mr H wedi parhau i gadw'i apwyntiadau â'r

Seiciatrydd fel claf allanol. Ym mis Mawrth 2010, yn dilyn pryderon cymydog, canfuwyd Mr H yn farw yn ei gartref. Dangosodd canfyddiadau'r post mortem ei fod wedi marw o emboledd ysgyfeiniol (lle mae clotiau gwaed yn achosi i'r gwythiennau yn yr ysgyfaint i flocio) o ganlyniad i thrombosis gwythiennau dwfn.

Canfu ymchwiliad yr Ombwdsmon dystiolaeth o fethiannau systematig yn y ffordd yr oedd y CMHT yn cael ei redeg. Roedd mesurau rheoli gwael wedi effeithio'n andwyol ar y modd yr oedd staff y cyngor, gan gynnwys y GC, yn gweithredu yn y CMHT. Roedd methiant hefyd i fabwysiadu dull aml ddisgyblaeth cydlynus tuag at newidiadau yng nghynllun gofal Mr H. Roedd ymchwiliad yr Ombwdsmon yn cyd-fynd ag ymchwiliad blaenorol gan y Bwrdd Iechyd a ganfu nad oedd mesurau digonol ar waith i sicrhau eu bod yn cadw golwg ar gleientiaid yn effeithiol, megis Mr H, mewn cyfnodau pan oedd y GC yn absennol am gyfnod hir. Er nad oedd yr Ombwdsmon wedi canfod unrhyw broblemau â'r gofal clinigol a roddwyd i Mr H ar ôl ei ryddhau, roedd gan yr Ombwdsmon, er hynny, bryderon ynghylch pa mor effeithiol oedd y cydweithio rhwng y gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gweithwyr cymdeithasol yn y CMHT i sicrhau bod Mr H yn cael gofal cydlynus. Ar ôl ystyried y diffygion a ganfuwyd, cadarnhaodd yr Ombwdsmon gŵyn Mr a Mrs A yn erbyn y Cyngor.

O ran delio â'r gŵyn, roedd yr Ombwdsmon yn feirniadol dros ben o'r ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi delio â chŵyn Mr a Mrs A. Tynnodd sylw at y diffygion yn ymateb y Prif Weithredwr ar y pryd i gŵyn Mr a Mrs A. Achos pryder arbennig oedd bod y Bwrdd Iechyd fel corff wedi peryglu ei allu i ddysgu gwersi a ddaeth i'r amlwg yn sgil cwyn Mr a Mrs A gan eu bod wedi dileu unrhyw gyfeiriadau at ddiffygion (a ganfuwyd yn ystod yr ymchwiliad ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor) yn yr ymateb i'r gŵyn. O ganlyniad, nid oedd pryderon Mr a Mrs A wedi cael sylw priodol. Arweiniodd proses y Bwrdd Iechyd ar gyfer delio â chwynion at yr Ombwdsmon i gadarnhau'r agwedd hon ar gŵyn Mr a Mrs A.

Ymhlith argymhellion yr Ombwdsmon oedd y dylai'r Cyngor a Phrif Weithredwyr Dros Dro'r Bwrdd Iechyd ymddiheuro am y methiannau a nodwyd. Hefyd, gwnaethpwyd argymhellion i roi sylw i ffordd annigonol y Bwrdd Iechyd o ddelio â chwynion. Roedd hyn yn cynnwys talu iawndal o £500.00 i Mr a Mrs A i adlewyrchu'r anghyfleustra a achoswyd iddynt o ganlyniad i fethiannau'r Bwrdd Iechyd.

Argymhellodd yr Ombwdsmon hefyd y dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd fynd ati gyda'i gilydd i ganfod unrhyw wersi y gellid eu dysgu yn sgil yr adroddiad hwn ac i ddatblygu cynllun gweithredu. Yn olaf, argymhellodd yr Ombwdsmon fod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn datblygu gweithdrefn i ddelio ag achosion o hunan esgeuluso.
**Cyfeirnod yr achos 201100506 a 201100509**

**Cynllunio a Rheoli Adeiladu**

**Ni Chadarnhawyd**

**Mehefin 2012 – Ymdrin â chais cynllunio – Cyngor Sir Ynys Môn**
Cwynodd Mrs C nad oedd y Cyngor wedi ei hysbysu'n briodol am gais cynllunio diwygiedig yr oedd datblygwr cyfagos wedi'i gyflwyno ar gyfer bloc o fflatiau. Cwynodd hefyd fod uchder y bloc o fflatiau wedi cael effaith niweidiol ar ei phreifatrwydd gan fod y fflatiau'n edrych drosti.

Ar ôl ystyried cyngor ei Gynghorydd Cynllunio, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad fod y Cyngor wedi bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer rhoi gwybod am y datblygiad. Canfu'r ymchwiliad nad oedd y datblygiad a adeiladwyd yn cyd-fynd â'r caniatâd cynllunio gwreiddiol, ac roedd y Cyngor yn rhoi sylw i hyn ar wahân. Fodd bynnag, o ran y cais cynllunio gwreiddiol, roedd yr Ombwdsmon yn fodlon bod y Cyngor wedi ystyried amwynderau'r preswylwyr gan gynnwys o safbwynt preifatrwydd. Tynnodd yr Ombwdsmon sylw at rai diffygion gweinyddol megis cadw cofnodion, ac roedd y Cyngor yn cymryd camau i roi sylw i hyn. Fodd bynnag, nid oedd yr Ombwdsmon yn teimlo y byddai'r diffygion hyn wedi cael unrhyw effaith berthnasol nac anffafriol ar achos Mrs C a'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio. Felly ni chafodd cwyn Mrs C ei chyfiawnhau.
**Cyfeirnod yr achos 201101519**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD :** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 29/07/2013 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Anwen Davies, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion |
| **TEITL:** | Trefniadau Diogelu i Oedolion sy'n Agored i Niwed |
| **CYFARWYDDWR:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | Cynghorydd Kenneth Hughes |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgaredd Diogelu Oedolion 2012/13 |

## 1.0 MATERION AR GYFER SGRIWTINI

- Ffurfio barn ynghylch manylion gweithgaredd Diogelu Oedolion yn ystod 2012/13;
- Ffurfio barn ynghylch perfformiad lleol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cenedlaethol (DPA)
- Ystyried blaenoriaethau gwella lleol 2013/14 ar gyfer Diogelu Oedolion

## 2.0 CEFNDIR/CYD-DESTUN

## 2.1 DIOGELU OEDOLION SY'N AGORED I NIWED - Y CYD-DESTUN POLISI CENEDLAETHOL

2.1.1 Mae diogelu ein hoedolion mwyaf bregus yn bwysig iawn i ni. Mae dull Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau cynnal cydbwysedd priodol rhwng:

- Hyrwyddo annibyniaeth;
  a
- Diogelu oedolion sy'n agored i niwed.

2.1.2 Nid mater i awdurdodau statudol yn unig yw ymdrin â chamdriniaeth oedolion - dylai fod yn fusnes i bawb. Mae darparwyr gwasanaethau, cyrff rheoleiddio, yr heddlu ac yn wir pob dinesydd a sefydliad yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth lle bynnag a phryd bynnag y mae'n digwydd.

2.1.3 Mewn Dwylo Diogel

- Yn y flwyddyn 2000, cyhoeddwyd canllawiau statudol (gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y pryd) i Awdurdodau yng Nghymru o'r enw *Mewn Dwylo Diogel*[1]*.* Roedd hwn yn sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad lleol ar gyfer diogelu oedolion sy'n agored i niwed.
- Roedd *Mewn Dwylo Diogel* yn darparu ar gyfer Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd rôl gydlynu arweiniol gydag ystod o bartneriaid lleol eraill gan gynnwys y GIG a'r Heddlu. Ein dyletswydd yw datblygu a gweithredu trefniadau lleol i nodi, atal ac ymateb i gamdriniaeth o oedolion bregus ym mhob lleoliad ac i gymryd camau priodol yn erbyn y sawl sy'n tramgwyddo. Felly, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i gydlynu ymchwiliadau i gamdriniaeth honedig neu bendant o oedolyn sy'n agored i niwed.
- Mae gan yr holl asiantaethau statudol ac annibynnol gyfrifoldeb i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed rhag pob math o esgeulustod, camdriniaeth ac/ neu gam-fanteisio.
- Mae cyfathrebu effeithiol, cydweithrediad a chyswllt rhwng asiantaethau a disgyblaethau yn hanfodol.

2.1.4 Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o *Mewn Dwylo Diogel* yn 2009 – gan edrych yn benodol ar ddiogelu oedolion, gyda golwg ar argymell yr angen am ddeddfwriaeth newydd.

2.1.5 Cyflwynwyd y Polisi Interim [2]diwygiedig ar gyfer Cymru Gyfan a oedd yn dod i rym o fis Ebrill, 2011 a bydd yn parhau'n gyfredol hyd nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ei hymateb i'r adolygiad *Mewn Dwylo Diogel* (y cyfeirir ato uchod, ac a gynhaliwyd yn ystod 2009). Rydym wedi cael gwybod yn ddiweddar y bydd darpariaethau arfaethedig Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013 yn gyfystyr ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r adolygiad hwn.

## 3.0 YMARFER DIOGELU OEDOLION LLEOL: 2011/12

## 3.1 SUT YDYM WEDI GWNEUD?

3.1.1 Mae'r Adran yn parhau i gael ei llywio yn ei harferion diogelu oedolion ac ymyriadau gan ddiffiniad Cymru Gyfan o oedolyn sy'n agored i niwed, a ddyfynnir isod:

---

[1] *Mewn Dwylo Diogel,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000

[2] Polisi a Gweithdrefnau Interim Cymru ar gyfer Amddiffyn Oedolion Hawdd eu Niweidio rhag cael eu Cam-drin (2010)


*“Mae Oedolyn sy'n Agored i Niwed yn cael ei ddiffinio fel person dros 18 oed sydd neu a all fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sydd, neu all fod, yn methu gofalu amdano'i hun, neu'n methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol…”*[3]

Ymhellach, mae'r Gwasanaeth yn parhau i ymarfer yn y maes amddiffyn oedolion fel proses o amddiffyn pob grŵp defnyddwyr oedolion sy’n agored i niwed rhag camdriniaeth ac yn rhoi cymorth os ydynt wedi cael eu cam-drin. Rydym yn gweithio yn unol â’r diffiniad canlynol o gamdriniaeth:

*“.. troseddu yn erbyn hawliau dynol a sifil unigolyn gan unrhyw berson neu bersonau eraill …”*[4]

3.1.2 Mae atgyfeiriadau POVA (Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed) wedi gostwng ychydig yn ystod y cyfnod 01/04/13 - 31/03/13 yn 134. Roedd hyn yn 20 yn llai na’r flwyddyn gynt. Gweler y darlun hanesyddol isod:

**DARLUN 1**
**ATGYFEIRIADAU AMDDIFFYN OEDOLION: DATA HANESYDDOL**




Nid yw’r gostyngiad yng nghyfanswm y niferoedd atgyfeirio yn gysyniad syml i werthuso. Fodd bynnag, rydym o’r farn bod yna gynnydd mewn ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad gan partneriaid o drothwyon diogelu.

[3] *Mewn Dwylo Diogel,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000
[4] *Mewn Dwylo Diogel,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2000

Mae rhai ffactorau sy'n cyfrannu at duedd gyffredinol o gynnydd mewn atgyfeiriadau yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil academaidd genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf:-


- mireinio'r modd o gofnodi a glanhau data a'i gasglu ac adrodd arno;
- trefniadau gwarchod oedolion yn esblygu dros gyfnod o ddeng mlynedd (a ddaeth yn sgil gweithredu *Mewn Dwylo Diogel*, 2000) sydd wedi arwain at fwy o eglurder o gwmpas gwaith prif-lif rheoli achosion a diogelu oedolion;
- mae ymagwedd systematig a gweithdrefnau diogelu oedolion yn adnabod llawer mwy o achosion nag a ragwelwyd gynt;
- mwy o ymwybyddiaeth a gweithredu gan Reoleiddwyr a darparwyr gofal;
- effaith mentrau codi ymwybyddiaeth sylfaenol a hyfforddiant ar draws y grwpiau cydranddeiliaid ynghyd ag hyfforddiant llawer manylach wedi'i dargedu'n briodol at ymarferwyr;
- amlygu camdriniaeth oedolion ac oedolion mewn perygl o gamdriniaeth yn y cyfryngau - pan mae materion camdriniaeth yn derbyn sylw'r cyfryngau (papur newydd, radio, teledu);;
- codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol - trwy gyhoeddi mwy o wybodaeth, ymgyrchoedd ayyb.

Wrth ddadansoddi ein data lleol mewn perthynas â 2012/13, ymddengys fod angen trafodaeth bellach ynghylch ymarfer cydweithwyr Iechyd wrth gyfeirio pryderon ac achosion honedig o gamdriniaeth ymlaen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau a negeseuon cenedlaethol.

Mae proffil Defnyddwyr Gwasanaeth, canlyniadau a statws honiadau yn dilyn ymchwiliad i gyfeiriadau POVA yn ystod 2012/13 yn cael eu dangos isod (Darlun 2, 3 a 4).


**DARLUN 2**

**PROFFIL DEFNYDDWYR GWASANAETH A CHANLYNIADAU: ATGYFEIRIADAU POVA 2012/13**




Mae cyfanswm o 95 o achosion (o'r 134 a dderbyniwyd) naill ai'n agored / yn weithredol / yn cael eu hadolygu / neu wedi'u cau i'r adran. Mae'r ffeil achos felly eisoes yn hysbys i un o'r timau uchod. Mae 5 achos yn ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw ar Ynys Môn ond sy'n hysbys i Awdurdod arall ac mae 7 cyfeiriad mewn perthynas â unigolion nad oeddynt "yn hysbys eisoes" i'r Adran.

**DARLUN 3**
**CANLYNIADAU ATGYFEIRIO: 2012/13**





**DARLUN 4**
**ATGYFEIRIADAU 2012/13 - STATWS YR HONIAD YN DILYN YMCHWILIAD**



**Beth mae’r data hwn yn ei ddweud wrthym?**

- Mae’r prif gategori bregusrwydd yn parhau i fod o fewn Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn sy’n adlewyrchu patrymau cenedlaethol .
- Yn amlach na pheidio, mae'r tramgwyddwr honedig yn hysbys i'r dioddefwr, gyda chanran uchel o'r tramgwyddwyr honedig yn aelodau o'r teulu neu’n ffrindiau. Y prif gategori o gamdriniaeth yw Emosiynol / Seicolegol.

**DARLUN 5**
**CATEGORIAU O CAM-DRINIAETH**




- Mae niferoedd y cyfeiriadau ar gyfer oedolion iau ag anghenion iechyd meddwl yn is. Eto, fel yn flaenorol, gellir ond dyfalu ynghylch y ffactorau sy'n cyfrannu yn absenoldeb unrhyw ymchwil lleol. Efallai ei fod yn adlewyrchu trothwyon gwahanol ar gyfer adnabod camdriniaeth a rhybuddio yn y maes iechyd meddwl ynghyd a dulliau gwahanol o reoli materion gwarchod oedolion.
- Mae nifer yr achosion POVA nad ydynt yn arwain at erlyniad yn thema sydd wedi cael ei dilyn yn weithredol yn ystod 2012/13 o ran codi ymwybyddiaeth bellach a rhoi mwy o hyfforddiant penodol ar gyfer ymarferwyr o gwmpas y "dystiolaeth orau". Mae’r byrdwn hyfforddiant a datblygiad hwn wedi cael ei yrru’n rhanbarthol, a byddwn yn ailedrych ar y thema hon dros y misoedd nesaf pan fyddwn yn adrodd ar weithgaredd diogelu oedolion 2013/14.


3.1.3 Bydd Aelodau Etholedig hefyd yn ymwybodol bod fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn berthnasol i’r maes polisi Diogelu Oedolion. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad lleol yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol o bersbectif hanesyddol a chenedlaethol:

**Cymharu Dangosyddion Perfformiad**

Mae 92.78% o'r holl atgyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd yn ystod 2012/13 yn tystioli bod y risg wedi cael ei reoli. Mae hyn ychydig yn is na pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i nifer fach o bobl sy'n agored i niwed (sy'n cyfateb i 6 oedolion) ddewis peidio â dilyn y sefyllfa drwy'r fframwaith cyfreithiol.

**DARLUN 6**

**DPA AMDDIFFYN OEDOLION: PERFFORMIAD HANESYDDOL / CYD-DESTUN CENEDLAETHOL**




## 3.2 BARN GYFFREDINOL – DIOGELU OEDOLION

Mae gennym ddyletswydd i weithio gyda phartneriaid ac eraill i ddiogelu ein hunigolion mwyaf agored i niwed. Diogelu ein hunigolion bregus yw busnes craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n hollbwysig bod gennym strwythurau a systemau effeithiol ar waith i amddiffyn y rhai mwyaf bregus. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau a'r systemau yn gynaliadwy ac yn rhoi diogelu wrth wraidd dull partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus ac yn wir y sector gofal yn gyffredinol.

Diogelu Oedolion yw un o'r prif feysydd yn fy Adroddiad Blynyddol ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn ystod 2012/13. Bydd Aelodau Etholedig yn ymwybodol bod hon yn broses statudol yn hunan-ddadansoddi a gwerthuso'r Gwasanaeth. Dyfynnwyd isod yw fy marn gyffredinol o ddiogelu yn ystod 2012/13:-

*"Caf fy nghalonogi gan y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf wrth ddatblygu arferion diogelu ac amddiffyn lleol yn ogystal â'n datblygiadau isranbarthol strategol. Rydym mewn sefyllfa dda i chwarae rhan lawn yn y fframwaith diogelu rhanbarthol sy'n datblygu yn ogystal â pharatoi ar*

*gyfer newid yn y fframwaith cyfreithiol sy'n cynnal gwaith diogelu ac amddiffyn oedolion. Mae'r canlyniadau cychwynnol cyntaf yn wyneb y newidiadau hyn yn cadarnhau mai hwn oedd y llwybr cywir i'w ddilyn ar gyfer gwella gwasanaethau.*

*Rydym wedi datblygu diwylliant diogelu cryf y gwelir ei dystiolaeth yn ein perfformiad. Mae'r maes hwn o'n busnes yn datblygu i fod yn un o gryfder i ni. Er mwyn cryfhau ymhellach, bydd raid i ni roi blaenoriaeth i sicrwydd ansawdd fel gweithgaredd prif-lif wrth ddiogelu yn 2013."*

(Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)

Mae fy asesiad llawn a fy marn ynghylch diogelu oedolion ynghlwm wrth yr adroddiad hwn (**Atodiad 1**)

## 4.0 BLE NESAF?

4.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn paratoi'r ffordd ar gyfer newidiadau deddfwriaethol sylweddol yng Nghymru er mwyn cefnogi gweithrediad llawn Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy[5]. Mae Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2012 yn cynnwys cyfres o argymhellion sy'n ymwneud â Diogelu Oedolion. Rhagwelir y bydd y newid yn y ddeddfwriaeth yn cynnwys:

- argymell mai Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yr **asiantaeth gydlynu allweddol** ar gyfer cyfeiriadau ac ymchwiliadau diogelu oedolion gydag asiantaethau eraill y mae dyletswydd gyfreithiol arnynt i adrodd niwed neu gamdriniaeth, cydweithredu ac ymchwilio.
- cael **Byrddau Diogelu** yn lle'r Fforymau Diogelu rhanbarthol a lleol a hefyd creu Byrddau Diogelu sy'n pontio ar draws gwasanaethau plant ac oedolion;
- mwy o ffocws ar ymarfer sy'n seiliedig ar **ganlyniadau**;
- dod â'r **fframwaith deddfwriaethol** sy'n ymwneud ag amddiffyn oedolion yn nes at yr un diogelu plant a phobl ifanc.

4.2 Mae ein taith gwella leol ar gyfer diogelu oedolion yn parhau i wneud cynnydd. Bydd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu yn cynnwys y meysydd canlynol yn ystod 2013/14:

- Cryfhau ymhellach yr arferion diogelu lleol o fewn fframwaith cynllun gwella - i gynnwys asesiadau risg, cynlluniau gwarchod, profiadau defnyddwyr a chysylltiadau i Ddiogelwch Cymunedol (Mae'r ardaloedd yma o ymarfer yn rhan o Raglen Wella ar draws y Gwasanaeth sy'n cael ei monitro'n chwarterol).
- Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau mewn gwaith diogelu trwy fabwysiadu'r gyfres genedlaethol o fesurau canlyniadau ar gyfer diogelu (pan gânt eu cyhoeddi);

[5] ACRF – Annual Council Reporting Framework

- Ystyried cyfleoedd sydd ar gael i gryfhau capasiti strategol mewn diogelu (mae diogelu yn ffurfio rhan o'r swyddogaeth Sicrwydd Ansawdd mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion).
- Parhau i gydymffurfio'n llwyr gyda pholisi/gweithdrefnau Diogelu corfforaethol fel mae'r Fframwaith Corfforaethol yn datblygu ac esblygu;
- Sefydlu'n gadarn ac yn llwyr yr arfer o archwilio ffeiliau achos o arferion diogelu y tu mewn i fframwaith sicrwydd ansawdd ein Gwasanaeth sy'n esblygu. Bydd hyn yn cael ei ategu gan dwlsyn archwilio er mwyn ymgymryd a rhaglen fisol o adolygiadau/archwiliadau o ffeiliau achos. Bydd casgliadau ac argymhellion yn llywio newid mewn ymarfer.
- Parhau i ddatblygu Bwrdd Diogelu Gogledd-orllewin Cymru gyda'n partneriaid;
- Ystyried opsiynau ar gyfer gweithio'n well yn rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol a'r canolbwynt cyfeirio diogelu arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru);
- Adolygu ein protocol lleol - Cyfeirio Pryderon yn Uwch (i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfoes ac yn addas i bwrpas)

4.3 Mae cynnydd mewn perthynas â'r Fframwaith Diogelu Isranbarthol wedi cael ei adrodd ar wahân i'r pwyllgor. Mae gan y Bwrdd Diogelu sydd newydd ei ffurfio gyfrifoldeb am:

- **Ddarparu arweiniad strategol** o ran diogelu oedolion sy'n agored i niwed;
- **Cydgasglu gwybodaeth** am gyfeiriadau diogelu oedolion yn nalgylchoedd yr Awdurdodau Lleol;
- **Archwilio achosion penodol** er mwyn gallu dysgu gwersi a gwella arferion gofal;
- **Cydweithio** gyda Phwyllgorau Ardal Diogelu Oedolion awdurdodau cyfagos (Conwy/Fflint/sir Ddinbych/Wrecsam);
- **Monitro** hyfforddiant a datblygu polisi.

I'r perwyl hwnnw, yr adroddiad hwn fydd yr adroddiad blynyddol diwethaf y bydd Ynys Môn yn ei gyhoeddi – gyda gweithgaredd 2013/14 yn ffurfio rhan o adroddiad Gogledd Orllewin Cymru.

## 5.0 RÔL AELODAU ETHOLEDIG O RAN DIOGELU OEDOLION

5.1.1 Mae'r holl Aelodau Etholedig yn rhannu cyfrifoldeb dros ddiogelu'r oedolion rheiny y mae eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Felly mae'n bwysig, os am wneud gwelliannau a'u cynnal, fod trefniadau lleol ar gyfer Diogelu yn destun sgriwtini a her sy'n canolbwyntio ar:-

- Sicrhau bod oedolion yn cael eu diogelu'n iawn
- Bod cyfleoedd bywyd unigolion yn cael eu gwella.

Mae rôl Aelodau Etholedig sy'n ymwneud â sgriwtini'n hanfodol o fewn y cyd- destun hwn.

5.1.2 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn chwarae rôl allweddol wrth gryfhau'r ffordd y mae barn a phryderon cymunedau lleol yn cael eu cynrychioli. Yn wir, gall Sgriwtini gyfrannu at well trefniadau diogelu a dylai wneud hynny. Mae angen i'r maes gwaith hwn gael blaenoriaeth yn ystod y cyfnod nesaf.

5.1.3 Bydd cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth / hyfforddiant i Aelodau Etholedig y Cyngor newydd yn cael eu cynnal dros y cyfnod nesaf ar ein trefniadau diogelu lleol i blant ac oedolion. Pwrpas y sesiynau hyn fydd cychwyn ar y siwrnai o godi ymwybyddiaeth mewn perthynas â diogelu a chefnogi Aelodau Etholedig i ddechrau llwyr werthfawrogi eu rôl a'u cyfrifoldebau.

5.1.4 Mi all gael ei gadarnhau mae'r Aelod Arweiniol ar gyfer Diogelu Oedolion yw Cynghorydd Kenneth Hughes, Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai).

## 6.0 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y canlynol i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith:-

**A1** **Cymeradwyo'r cynnydd a wnaed yn y maes diogelu oedolion yn ystod 2012/13;**

**A2** **Cefnogi blaenoriaethau gwella lleol 2013/14 sydd wedi eu hadnabod mewn perthynas â diogelu oedolion;**

**A3** **Cymeradwyo bwriad y Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Orllewin i gyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf ym mis Gorffennaf, 2014 a fydd yn cyfeirio at weithgareddau ar draws Ynys Môn a Gwynedd.**

**A4** **Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu sgriwtini Aelodau Etholedig yn y maes diogelu.**

Anwen Davies,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
10 Gorffennaf, 2013

| **ATODIAD** |
|---|
| 1. Dyfyniad o Adroddiad Blynyddol Pennaeth Gwasanaeth - Diogelu |

**ATODIAD 1**

**Dyfyniad o Adroddiad Blynyddol Pennaeth Gwasanaeth - Diogelu**


# Diogelu

Yn yr adran hon o’r Adroddiad Blynyddol, disgrifir sut yr ydym wedi perfformio yn ein dyletswydd i weithio gyda phartneriaid ac eraill i warchod ein hunigolion mwyaf bregus. Gwarchod ein hunigolion mwyaf bregus yw busnes craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae’n hanfodol bwysig bod gennym strwythurau a sustemau effeithiol yn eu lle i warchod y mwyaf bregus. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y strwythurau a’r sustemau hyn yn gynaliadwy ac yn rhoi diogelu wrth galon gweithio fel partneriaid ar draws y sector cyhoeddus ac, yn wir, y sector gofal yn gyffredinol.

**Beth ddywedasom y buasem yn ei wneud?**

- Parhau i roi ymateb effeithiol i honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod;
- Parhau gyda’n hymdrechion i godi ymwybyddiaeth o Warchod Oedolion Bregus (GOB) ac o’r agenda ataliol;
- Ymyraethau a gynhelir gan beirianwaith sicrhau ansawdd da;
- Gwireddu argymhellion archwiliad lleol o drefniadau GOB lleol (cynhaliwyd ym mis Mawrth, 2012);
- Gwneud gwaith strategol gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu fframwaith diogelu isranbarthol sy’n cydymffurfio gyda Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013.


**Beth ydym wedi ei wneud?**
Mae diogelwch ein hoedolion mwyaf bregus o bwys tragwyddol i ni. Roedd 92.78% o’r holl gyfeiriadau gwarchod oedolion a gwblhawyd ac a gawsom yn 2012/13 yn dangos bod risg yn cael ei rheoli. Dyma graff o’n data perfformiad dros dair blynedd.




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 |
|---|---|---|---|
| Môn | 89.8 | 95.7 | 92.78 |
| Cymru | 86.3 | 88 | |
| Targed Môn | 85 | 85 | 97 |

Y rheswm dros y gostyngiad bychan ym mherfformiad eleni yw nifer fechan defnyddwyr y gwasanaeth sy’n dewis tynnu allan o’r broses gwarchod oedolion.

Rydym wedi gweithredu'n llwyr ar Ganllawiau Interim Diogelu Oedolion Cymru Gyfan. Mae cyfraddau cyfeiriadau ar gyfer gwarchod oedolion wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (cafwyd 134 o gyfeiriadau yn 2012/13, 154 yn 2011/12) - yn y graff isod dangosir y patrymau o gyfeiriadau dros y tair blynedd diwethaf. Rhoddwyd hyfforddiant i 407 o swyddogion proffesiynol ar Lefel 2 a 30 ar Lefel 3/4 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan ymestyn dros sbectrwm gweithlu gofal cymdeithasol i oedolion a'r gwasanaeth iechyd.




Mae gweithgareddau Diogelu Oedolion Bregus yn parhau i adeiladu ar sylfaen gadarn a thystiwyd i hyn yn adroddiad arolwg Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd yn ôl ym mis Mawrth, 2010. Comisiynwyd gennym archwiliad annibynnol (trwy Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol) o'n trefniadau diogelu oedolion lleol tuag at ddiwedd 2011/12 fel gwiriad sicrwydd ansawdd i sicrhau bod ein trefniadau:

- Yn cydymffurfio gyda'n disgwyliadau cenedlaethol;
- Yn parhau i fod yn glir ac yn eglur;
- Yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i ymateb i Fesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2013

> *"Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wreiddio diwylliant cadarnhaol o ddiogelu oedolion ac wedi creu agwedd gydweithredol 'gallaf wneud' o ran ymateb i rybuddion a chyfeiriadau. Mae staff wedi ymrwymo i ddiogelu ac mae rheolwyr yn darparu amgylchedd gefnogol i weithio ynddo"*
>
> Adroddiad Archwilio Annibynnol, Mawrth 2012

Mae ein taith gela leol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mewn ymateb i argymhellion yr archwiliad annibynnol hwn, wedi digwydd y tu mewn i fframwaith cenedlaethol o ddisgwyliadau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd sy'n esblygu. Gallaf ddweud bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn ein Cynllun Gwella dros y naw mis diwethaf gyda 75% o'n targedau wedi'u cyflawni:

| | |
|---|---|
| **Gweithred Allweddol 1** | Ymateb priodol ac amserol i rybuddion a chyfeiriadau ar gyfer diogelu Oedolion |
| **Gweithred Allweddol 2** | Datblygu mwy ar ein harfer wrth sgrinio ac arfarnu ansawdd y cyfeiriadau |
| **Gweithred Allweddol 3** | Sicrhau trafodaeth strategaeth bwrpasol ac eglur a chyfarfodydd strategol wedi'u strwythuro a'u cynnal yn dda. |
| **Gweithred Allweddol 4** | Gweithio'r tu mewn i Ganllawiau Interim Gwarchod Oedolion Cymru Gyfan i gryfhau mwy ar ein hymateb a'n harfer lleol pan fo honiadau'n cyrraedd y cyfnod archwilio |
| **Gweithred Allweddol 5** | Gwreiddio ymhellach waith gweithredu ar Ganllawiau Interim Gwarchod Oedolion Cymru Gyfan er mwyn cynnal arfer diogelu'n lleol |
| **Gweithred Allweddol 6** | Datblygu fframwaith ac arfer lleol er mwyn sicrhau bod profiad a chanlyniadau pobl yng nghyswllt diogelu yn hanfodol i bob cam o'r broses |
| **Gweithred Allweddol 7** | Gweithio y tu mewn i Fforwm Diogelu Oedolion Gwynedd a Môn er mwyn datblygu fframwaith diogelu isranbarthol |
| **Gweithred Allweddol 8** | Sicrhau bod staff ar bob lefel yn cael cyfle rheolaidd i gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf |

O ran ceisio sicrwydd yng nghyswllt arferion Diogelu, datblygwyd arf archwilio ac arbrofwyd ag ef ar draws y Gwasanaeth yn 2012 ac mae, bellach, yn datblygu i fod yn ymarfer sicrwydd ansawdd prif-lif. Caiff yr archwiliadau hyn o ffeiliau achos eu cwblhau gan ein Cydlynydd DOB ac fel un sydd hyd braich oddi wrth arferion rheng flaen, mae'n ddiduedd i ryw raddau yn y broses archwilio. Bydd gwaith archwilio'r ffeiliau achos yn cael ei atgyfnerthu a'i wreiddio'n llawn yn y Gwasanaeth yn ystod 2013.

Rwyf yn falch o ddweud y gwelwyd cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r fframwaith strategol sy'n cynnal gwaith diogelu oedolion, sef un o'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2012/13. Mae Fforwm Gwarchod Oedolion Môn/Gwynedd wedi'i ddisodli gan Fwrdd Diogelu Oedolion Cysgodol Gogledd-orllewin Cymru. Mae hwn yn ddatblygiad yr ydym yn hynod falch ohono ac rydym wedi bod yn gyfrwng i'w ddechrau. Cefnogir y Bwrdd Cysgodol gan arf hunanasesu a chynllun gweithredu y cytunwyd arnynt ar y cyd. At hyn, mae'r datblygiad hwn wedi bod yn gatalydd ar gyfer ystyriaeth ranbarthol i ddatblygu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Mae aelod wedi'i benodi'n arweinydd diogelu oedolion i lywio cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwleidyddol ar gyfer diogelu. At hyn, rhoddwyd rhaglen o hyfforddiant ar ddiogelu i Aelodau Etholedig fel peirianwaith i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau. Bu llawer ar y rhaglen hon a bu croeso mawr iddi.

Mae Gwasanaethau Oedolion hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiad polisi Diogelu Corfforaethol a chynnal trefniadau ar gyfer hunanreoleiddio ei swyddogaethau diogelu. Gweithredwyd ar y fframwaith hwn ar draws holl dimau'r Gwasanaeth.

Yn olaf, mae ein gwaith ynghylch Cyfeirio Pryderon yn Uwch wedi parhau yn ystod 2012, a chaiff ei gynnal gan ein Protocol Cyfeirio Pryderon yn Uwch a fabwysiadwyd ym mis Awst 2011 fel fframwaith amlddisgyblaethol. Yn ystod 2012, rydym wedi comisiynu Adolygiad Rheoli annibynnol dan faner Canllawiau Interim Gwarchod Oedolion Cymru Gyfan - oedd mewn ymateb i weithredu ar Brotocol Cyfeirio Pryderon yn Uwch a arweiniodd at gau cartref. Yn ddiweddar iawn, rydym wedi derbyn canfyddiadau'r Adolygiad Rheoli a fydd yn sail i ddigwyddiad dysgu amlasiantaethol y byddwn yn ei gynnal ym mis Mai 2013. Mae hefyd yn amserol ein bod yn adolygu ein Protocol Cyfeirio Pryderon yn Uwch gyda'n partneriaid a bydd hyn yn cael ei flaenoriaethu i'w gwblhau yn 2013.

**Barn**

Caf fy nghalonogi gan y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf wrth ddatblygu arfer gwarchod lleol a diogelu yn ogystal â'n datblygiadau isranbarthol strategol. Rydym mewn sefyllfa dda i chwarae rhan lawn yn y fframwaith diogelu rhanbarthol sy'n datblygu yn ogystal â pharatoi ar gyfer newid yn y fframwaith cyfreithiol sy'n cynnal gwaith diogelu a gwarchod oedolion. Mae'r canlyniadau cychwynnol cyntaf yn wyneb y newidiadau hyn yn cadarnhau mai dyma oedd y trywydd cywir i'w ddilyn ar gyfer gwella gwasanaethau.

Rydym wedi datblygu diwylliant diogelu cryf y gwelir ei dystiolaeth yn ein perfformiad. Mae'r maes hwn o'n busnes yn datblygu'n faes o gryfder i ni. Er mwyn cryfhau ymhellach, bydd raid i ni flaenoriaethu sicrwydd ansawdd yn weithgaredd priflif wrth ddiogelu yn 2013.

**Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Gweithredu**

- Cryfhau mwy ar arferion diogelu lleol gyda fframwaith cynllunio gwella - i gynnwys asesiadau risg, cynlluniau gwarchod, profiadau defnyddwyr a chysylltiadau i Ddiogelwch Cymunedol;
- Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau mewn gwaith diogelu trwy fabwysiadu'r gyfres genedlaethol o fesurau canlyniadau ar gyfer diogelu (pan gânt eu cyhoeddi);
- Ystyried cyfleoedd sydd ar gael i gryfhau capasiti strategol mewn diogelu;
- Parhau i gydymffurfio'n llwyr gyda pholisi/trefniadau Diogelu corfforaethol;
- Sefydlu'n gadarn yr arfer o archwilio ffeilio achos mewn perthynas ag arferion diogelu yn unol â fframwaith sicrwydd ansawdd ein Gwasanaeth sy'n esblygu;
- Parhau i ddatblygu Bwrdd Diogelu Cysgodol Gogledd-orllewin Cymru gyda'n partneriaid;
- Ystyried opsiynau ar gyfer gweithio'n well yn rhanbarthol (Bwrdd Diogelu Oedolion rhanbarthol a chanolbwynt cyfeirio arfaethedig Gogledd Cymru);
- Adolygu ein protocol lleol - Cyfeirio Pryderon yn Uwch.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **29 Gorffennaf 2013** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol:** | **Y Prif Weithredwr** |

## Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 2012/13

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Roedd yn ofyniad i'r Cyngor ddarparu adroddiad monitro ar weithrediad ei Gynllun Iaith Gymraeg yn ystod 2012/13 i Gomisiynydd y Gymraeg, a hynny erbyn 30 Mehefin 2013. Roedd disgwyliad hefyd bod yr adroddiad monitro'n mynd drwy'r trefniadau sgriwtini mewnol cyn ei gyflwyno i'r Comisiynydd. Oherwydd yr etholiadau Cyngor Sir, nid oedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol newydd yn ei le mewn pryd ond mae'r adroddiad monitro'n cael ei gyflwyno'n adolygol i'r cyfarfod hwn.

**2.0 Cefndir**

2.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru:

- baratoi cynllun iaith Gymraeg fel modd o egluro sut y byddent yn mynd ati i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru
- gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithrediad ei Gynllun Iaith i Fwrdd yr Iaith.

2.2 Fe drosglwyddwyd swyddogaethau'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg ar 1 Ebrill 2012 o ganlyniad i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Rhagwelir y bydd y Safonau terfynol mewn lle erbyn Tachwedd, 2014. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd, bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

2.3 Mae'r adroddiad monitro hwn i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2013.

2.4 Fe gymeradwywyd yr adroddiad monitro gan y Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin ac anfonwyd yr adroddiad ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg ar 25 Mehefin 2013.

**2.5 Cynnwys yr Adroddiad Monitro**

2.5.1 Mae'r adroddiad monitro wedi'i strwythuro dan benawdau sy'n cyd-fynd â gofynion adrodd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan y cyn Fwrdd yr iaith ac wedi gwneud paratoadau ar gyfer adrodd arnynt. Mae'r Cyngor Sir wedi llwyddo i adrodd yn erbyn y dangosyddion hyn fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Monitro.

**2.6 Y Penawdau**

2.6.1 Mae'r adroddiad monitro yn canolbwyntio ar berfformiad yn erbyn y saith pennawd a restrir isod:

- Cydymffurfio â'r Cynllun
- Ansawdd gwasanaethau rheng flaen yn Gymraeg
- Rheolaeth a gweinyddiad y Cynllun
- Digonolrwydd sgiliau iaith Gymraeg
- Prif Ffrydio
- Dadansoddiad o berfformiad fesul blaenoriaeth/targed
- Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad

**2.7 Adnabod Risgiau**

2.7.1 Yn rhan 6 o'r Adroddiad Monitro, adroddir ar gynnydd yn erbyn y prif flaenoriaethau a risgiau. Un o'r prif flaenoriaethau fydd gweithredu Rhaglen Trawsnewid y Cyngor yn dilyn yr etholiad trwy sicrhau fod strwythurau llywodraethu a chraffu priodol mewn lle. Mae datblygu'r maes contractau yn parhau'n her ac fe geir gwybodaeth am y cynlluniau arfaethedig i rymuso gweithdrefnau yn y maes hwn dan 3.1.4. Mae datblygu sail tystiolaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn flaenoriaeth, ynghyd â pharhau i gynnal Asesiadau Effaith ieithyddol ar bolisïau a chynlluniau'r Cyngor Sir.

2.7.2 Mae capasiti yr Uned Gyfieithu yn parhau i fod yn risg yn dilyn colli swydd wag dan arbedion ynghlwm â'r Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy yn y flwyddyn gyllidol 2011/12.

## 3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir am sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys yr adroddiad monitro.

**Adroddiad gan**: Carol Wyn Owen
**Teitl y Swydd:** Rheolwr Polisi a Strategaeth
**Adran**: Uned Bolisi, Adran y Dirprwy Brif Weithredwr
**Dyddiad:** 19 Gorffennaf 2013

---

**Atodiadau:**
Adroddiad Monitro i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2012/13

**Papurau Cefndir:**
Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor, Pedwerydd Argraffiad – Mawrth 2012

Atodiad

# Adroddiad Monitro Blynyddol

## i Gomisiynydd y Gymraeg

## 2012 / 13

**Mehefin 2013**

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â'r Swyddog Iaith fel y nodir isod os gwelwch yn dda:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

**Adroddiad Monitro Cyngor Sir Ynys Môn i Gomisiynydd y Gymraeg am y cyfnod 2012/13**

# 1. Cyflwyniad

Dengys Cyfrifiad 2011 bod 57.2% o boblogaeth Ynys Môn (dros 3 oed) yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 19% thros Gymru. Er bod hyn yn gosod Môn yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac yn un o'r ddwy Sir yng Nghymru lle mae dros hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, mae'n dangos gostyngiad o 2.9% ers Cyfrifiad 2001. Y Cyngor Sir yw'r cyflogwr mwyaf ar yr ynys ac mae'n cyflogi rhagor na 3000 o weithwyr (gan gynnwys staff yr ysgolion). Mae'r Cyngor yn cydnabod ei gyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i'r sefydliad i ddarparu safon uchel o wasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd.

## 1.1 Cynllun Iaith y Cyngor Sir

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ei Gynllun Iaith yn cydnabod statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Y Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cyngor ac mae iddynt yr un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor. Mae'r Cynllun Iaith a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, 1993 yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn glynu wrth yr egwyddor o gydraddoldeb wrth ddarparu ei wasanaethau i'r cyhoedd ac wrth gynnal ei weinyddiad mewnol. Cymeradwywyd Cynllun Iaith y Cyngor Sir ar 12 Gorffennaf, 1996 gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac fe gyhoeddwyd yr ail argraffiad yn Awst, 1998 a'r trydydd argraffiad yn Rhagfyr, 2007. Mabwysiadwyd pedwerydd argraffiad y Cynllun Iaith gan y Cyngor Sir ar 6 Mawrth, 2012 ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith ar 26 Mawrth, 2012.

## 1.2 Rheolaeth o'r Cynllun Iaith

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb am gadw gorolwg dros y Cynllun a'i weinyddu ynghyd â chyfrifoldeb am yr iaith ar lefel strategol. Mae Swyddog Iaith y Cyngor gyda chyfrifoldeb dydd i ddydd am faterion iaith a monitro gweithrediad y Cynllun Iaith a pharatoi'r adroddiad hwn. Mae'r Grŵp Tasg Iaith fewnol wedi'i sefydlu i osod cyfeiriad strategol a chynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro ac adolygu cynnydd.

Ym mis Mawrth, 2011, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol ei fwriad i benodi 5 Comisiynydd i redeg Cyngor Sir Ynys Môn o ran arfer swyddogaethau gweithredol y Cyngor ar ei ran. Golyga hyn ar y pryd fod y mwyafrif o benderfyniadau'r hen Bwyllgor Gwaith yn cael eu gwneud gan y Comisiynwyr oni bai eu bod wedi eu dirprwyo i swyddogion yr Awdurdod. Ar ôl Hydref, 2012, o ganlyniad i'r cynnydd sylweddol a gafodd ei wneud yn nhrefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, dychwelodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau'r holl bwerau oedd gan y Comisiynwyr yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith. O ganlyniad, nid oes gan y Comisiynwyr bwerau i wneud penderfyniadau bellach ac nid ydynt yn rhedeg y Cyngor o ddydd i ddydd. Serch hynny, er mwyn gwarchod gwelliannau a sicrhau fod y sefydliad yn gynaliadwy, cadarnhaodd y gweinidog y byddai tri allan o'r pum Comisiynydd yn aros tan 31 Mai,

2013 er mwyn monitro cynnydd, adrodd ar gynnydd a chynnig cyngor, mentora a chefnogaeth i'r Cyngor a'i swyddogion.

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau am weithrediad y Cynllun at y Swyddog Iaith:

Carol Wyn Owen,
Rheolwr Polisi a Strategaeth,
Adran y Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni,
LL77 7TW

Rhif ffôn: (01248) 752561
E bost: cwoce@ynysmon.gov.uk

### 1.3 Trefniadau Adrodd a Monitro

Yn ei Gynllun Iaith, mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu ei weithrediad gan gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith ac i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n olynu Bwrdd yr Iaith a ddaeth i ben ar ddiwedd Mawrth 2012. Mae'r Adroddiad Monitro hwn am y cyfnod 1 Ebrill, 2012 i 31 Mawrth, 2013 ac wedi ei seilio ar drefniadau adrodd diwygiedig Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Cyngor Sir hefyd wedi mabwysiadu casgliad o ddangosyddion perfformiad gan Fwrdd yr Iaith ac adroddir ar y rhain yng nghorff yr adroddiad. Yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym Môn ar 2 Mai, 2013, bydd Deilydd Portffolio newydd i'r Iaith Gymraeg yn cael ei benodi a'r unigolyn yma fydd yn cadeirio'r Grŵp Tasg Iaith.

## 2. Cydymffurfio â'r Cynllun

Dan y pennawd hwn, mae disgwyl i'r Cyngor Sir adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau Cynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 o'r adroddiad ar y Cynllun Iaith diwygiedig ar 6 Mawrth, 2012. Cyfrifoldeb Grŵp Tasg Iaith y Cyngor Sir fydd monitro cynnydd ac mae gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyfrifoldeb am ddadansoddi perfformiad yn gorfforaethol ac yn adrannol, gan gymryd camau positif i ymyrryd drwy adnabod bylchau mewn perfformiad. Bydd unrhyw risgiau'n cael eu trosglwyddo i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w craffu ymhellach.

### 2.1 Gwasanaethau Rheng Flaen

Canolbwyntir yma ar y maes Gofal Cwsmer a rhyngwyneb cyhoeddus y Cyngor Sir. Yma, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sy'n canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen sef:

**DIG2 – Nifer a % swyddi'r brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un stop a ddynodwyd yn rhai 'Cymraeg hanfodol' a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr dwyieithog.**

I gyd-fynd gyda dymuniad y cyn Fwrdd yr Iaith i'r Cyngor Sir i ymestyn yr hyn yr adroddir arno o dan y dangosydd hwn i gynnwys staff eraill sydd â chyswllt rheolaidd gyda'r cyhoedd, megis y llyfrgelloedd a chanolfannau treftadaeth, darperir yr ystadegau a ganlyn:

| Lleoliad | Nifer staff dwyieithog | Nifer y staff Di-Gymraeg |
|---|---|---|
| Prif dderbynfa | 2 | 0 |
| Swyddfa Arian Mân | WEDI CAU | |
| 4 Canolfan Hamdden | 6 | 2 Di-Gymraeg<br>1 medrusrwydd isel |
| Parc Mownt | 2 | 0 |
| Llyfrgelloedd | 19 | 2 medrusrwydd isel<br>2 ddysgwr |
| Archifdy | 3 | 1 |
| Oriel Ynys Môn | 9 | 0 |
| Canolfannau Treftadaeth (rhai staff tymhorol) | 10 | 5 medrusrwydd isel |
| Canolfan Fusnes | 4 | 0 |
| Derbynfa'r Gwasanaeth Cynllunio | 2 | 0 |

Mae'r ystadegau uchod yn dangos fod 81% o'r staff yn ddwyieithog. Mae'r swyddi hyn sydd yn delio'n uniongyrchol gyda'r cyhoedd yn cael eu hysbysebu'n rhai 'Cymraeg hanfodol'.

### 2.2 Maes Hamdden

Yn ystod Hydref, 2011, cymerodd y Cyngor ran mewn cynllun ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Gâr, dan nawdd Bwrdd yr Iaith, er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth Hamdden. Roedd hwn yn hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth iaith gogyfer datblygu pencampwyr o fewn y Canolfannau Hamdden.

Yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw, mae'r momentwm wedi parhau gyda mentoriaid iaith yn gweithredu yn y canolfannau hamdden a staff wedi mynychu cyrsiau iaith yng Nghanolfan Hamdden Caergybi.

### 2.3 Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaethau Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn darparu cyfleoedd priodol i ddefnyddio'r Gymraeg ac mae'r bobl ifanc yn datblygu sgiliau dwyieithog da. Cydnabuwyd hyn gan Estyn yn 2009.

Fe adroddir ar y cwestiynau meysydd blaenoriaeth yn **Atodiad 2.**

### 2.4 Arolwg Dinasyddion

Yn ystod mis Mawrth, 2012 cynhaliwyd arolwg dinasyddion gan ymgynghorydd allanol i ddeall blaenoriaethau ansawdd bywyd sampl o 1,100 o drigolion ynghyd a'u barn am flaenoriaethau a gwasanaethau'r Cyngor Sir. Manteisiwyd ar y cyfle i fesur bodlonrwydd gyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Cyngor Sir a'r ymateb a gafwyd oedd bod y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo eu bod yn hapus gyda'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac yn ysgrifenedig (63%, 64% a 65% yn y drefn honno). Mae trafodaethau ar droed gogyfer y posibiliadau o gynnal Arolwg Dinasyddion yn ystod 2013 ac oherwydd cyfyngiadau cyllidol efallai y bydd trefniant ar y cyd yn cael eu cytuno gyda'r sector wirfoddol.

## 3. Rheolaeth a Gweinyddiaeth y Cynllun Iaith

### 3.1 Gwasanaethau ar Gontract

Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd perfformiad a ganlyn sy'n rhoi pwyslais ar weithio drwy bartneriaeth gogyfer darparu gwasanaeth cyfansawdd dwyieithog i'r cwsmer:

**DIG 1 – Canran o sampl o gontractau gafodd eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Iaith.**

### 3.1.1 Rhaglen Cefnogi Pobl

Menter polisi cymdeithasol a fframwaith cyllidol gan Lywodraeth Cymru yw'r rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth mewn perthynas â materion tai i amrediad o bobl bregus. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn comisiynu 48 o brosiectau gan 19 o ddarparwyr trwy gontractau o dan y Rhaglen Cefnogi Pobl.

Er mwyn cryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth o ran yr iaith Gymraeg, anfonwyd holiadur at holl ddarparwyr prosiectau Cefnogi Pobl – gweler **Atodiad 3.**

Roedd 12 o'r 19 darparwr wedi dychwelyd yr holiadur o fewn amserlen cwblhau'r adroddiad hwn. Amlinellir canlyniadau monitro'r sampl o'r 12 darparwr (63%) isod:

| Darparwyr Rhaglen Cefnogi Pobl | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi'u monitro | % sy'n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 19 | 63% (12) | 75% (9) | 25% (3) |

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn cynnal cyfarfodydd monitro rheolaidd gyda darparwyr ac yn adolygu gwasanaethau ar gylch tair blynedd. Bydd diffygion o ran cydymffurfiaeth yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hynny.

Bydd yr holiadur hefyd yn cael ei anfon at ddarparwyr eraill (yn y maes **gofal cymdeithasol** - gofal preswyl a mudiadau gwirfoddol) er mwyn monitro cydymffurfiaeth o ran yr iaith Gymraeg. Gobeithir y bydd yr ymatebion yn dod i law yn ystod Haf 2013.

### 3.1.2 Contractau sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer darpariaeth cyn oed ysgol

Ers 1 Ebrill 2013, mae cyfrifoldeb am y maes yma wedi trosglwyddo i Bartneriaeth Gwynedd a Môn – gweler 5.7.

Oherwydd swydd wag, nid oedd modd monitro cytundebau'n ffurfiol yn ystod 2012/13. Yn ogystal, mae'r broses o gomisiynu grant newydd wedi golygu mai ym mis Hydref 2012 bu i nifer o'r gwasanaethau gael eu comisiynu. Mae cymal ym mhob cytundeb gwasanaeth yn nodi bod rhaid i'r gwasanaeth fod yn ddwyieithog ar draws yr holl sir.

Mae adroddiadau chwarterol / diwedd blwyddyn wedi eu derbyn ac mae'r rhain yn cynnwys enghreifftiau o ddeunydd cyhoeddus.

Mae 12 o'r 13 prosiect sydd yn derbyn grant yn cydymffurfio ond mae pryder ynghylch un prosiect. Mae trafodaethau'n cymryd lle gyda'r darparwr er mwyn sicrhau bod eu holl adnoddau'n ddwyieithog. Mae'r darparwr yn gweithio mewn ysgolion ac mae'r ysgolion yn monitro'r iaith sydd yn cael ei defnyddio gyda'r bobl ifanc.

| Darparwyr – Teuluoedd yn Gyntaf | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi'u monitro | % sy'n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 13 | 100% (13) | 92% (12) | 8% (1) |

Bwriad y Bartneriaeth yw mabwysiadu holiadur tebyg i'r hyn sydd yn cael ei defnyddio gan y Tîm Cefnogi Pobl (gweler Atodiad 3) ac fe fydd hyn yn rhan o ymweliadau monitro 2013/14. Mae bwriad hefyd i ddefnyddio Swyddog Llais Ni i ymgynghori gyda'r bobl ifanc a theuluoedd er mwyn gweld os ydynt yn derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith.

### 3.1.3 Cyllido addysg blynyddoedd cynnar yn y sector nas cynhelir

Mae'r Cyngor Sir yn cyllido 51 o gylchoedd meithrin yn y sector wirfoddol, gan gynnwys staffio, hyfforddiant, cefnogaeth gwricwlaidd, dodrefn, offer a chostau adeiladau. Hefyd, cyllidir Cynllun Cyfeirio er mwyn cefnogi plant gydag anghenion ychwanegol. Mae'r cyllid a rennir yn amodol ar lynu at egwyddorion penodol, sy'n cynnwys yr isod:

"*Bydd y darparwyr yn gweithredu o fewn Polisi Iaith yr Awdurdod gan anelu at osod sylfaen gadarn i ddatblygiad ieithyddol y plant yn y Gymraeg".*

Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu'r egwyddor hwn drwy gytundebau lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod a'r darparwyr unigol. Mae'r Awdurdod yn monitro cydymffurfiaeth trwy ymweliadau rheolaidd gan athrawes gefnogol y blynyddoedd cynnar, pryd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu trafod gyda'r swyddog addysg, ac arolygiadau rheolaidd Estyn. Hefyd, mae'n gyfrifoldeb ar y Tîm Blynyddoedd Cynnar i gyflwyno adroddiad monitro i'r Awdurdod yn flynyddol.

Yn dilyn derbyn adroddiadau monitro Haf 2012, danfonwyd llythyr i un cylch i ddatgan fod angen iddynt wella eu darpariaeth Cymraeg. Bydd cynnydd y cylch yma'n cael ei adolygu'n ffurfiol yn Haf 2013 ond mae'r adroddiad monitro canol blwyddyn yn dangos cynnydd derbyniol hyd yma.

| **Darparwyr Addysg blynyddoedd cynnar – sector nas cynhelir (cylchoedd meithrin)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | % wedi'u monitro | % sy'n cydymffurfio | % ddim yn cydymffurfio |
| 51 | 100 (51) | 98% (50) | 2% (1) |

### 3.1.4. Datblygiadau yn y Maes Contractau

Er mwyn cydgordio'r maes hwn yn fwy effeithiol, mae Cofrestr Contractau corfforaethol wedi'i chreu ac yn cael ei llenwi gan y gwasanaethau. Yn ogystal, fel rhan o Raglen Trawsnewid y Cyngor, mae'r broses wedi cychwyn o greu Strategaeth Gomisiynu a Phwrcasu a fydd yn darparu trefn gorfforaethol gogyfer rheoli'r maes. I gydlynu'r gwaith hwn, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Trawsnewid ac mae'r Swyddog Iaith yn rhan o'r grŵp.

### 3.2 Cwynion

Yn ogystal, canolbwyntir ar safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir gan y Cyngor Sir trwy adrodd ar y dangosydd perfformiad isod sef:

**DIG6 – Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithrediad y Cynllun Iaith a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad**

Bu 8 cwyn yn ystod y cyfnod ac ymdriniwyd â'r 8 yn unol â'r safonau corfforaethol = 100%.

Mae gan y Cyngor Sir Weithdrefn Gwyno a Chanmoliaeth Gorfforaethol a weinyddir gan y Swyddog Gofal Cwsmer ers 1 Mehefin, 2009 ac fe ymgorfforir cwynion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg i'r drefn hon (rhaid i bob cofnod nodi os yw'r gwyn yn ymwneud yn benodol â'r maes iaith).

Mae lefelau bodlonrwydd yr achwynydd yn cael ei fesur trwy'r holiadur safonol a ddarperir ar ddiwedd yr ymchwiliad.

Isod ceir dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghyd â'r camau cywiro:

| | |
|---|---|
| Cwyn 1 | Derbyniwyd cwyn gan nad oedd gwasanaeth cyfieithu ar gael mewn cyfarfod.<br><br>Camau Cywiro – nodwyd mai camgymeriad oedd hyn gan fod gwasanaeth cyfieithu ar gael fel arfer. Gyrrwyd ymddiheuriad llawn.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |
| Cwyn 2 | Derbyniwyd cwyn gan y Comisiynydd Iaith ynglŷn ag enw Di-Gymraeg ar stad tai.<br><br>Camau Cywiro - cafwyd eglurhad llawn o'r materion dan sylw. Nid oes gan y Cyngor Sir reolaeth ar yr enwau a ddefnyddir gan ddatblygwyr i farchnata tai ond fe aethpwyd i'r Llys i ddatrys y mater. Penderfyniad y Llys oedd cael cyfaddawd a defnyddio ffurf ddwyieithog.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |
| Cwyn 3 | Derbyniwyd cwyn gan Aelod Cynulliad am hysbyseb swyddogol a gyhoeddwyd yn y papurau yn uniaith Saesneg. Yn ogystal, cyfeiriodd aelod o'r cyhoedd y mater at y Comisiynydd Iaith.<br><br>Camau cywiro – roedd y mater wedi derbyn sylw cyn derbyn y gwyn swyddogol yma ac fe ail gyhoeddwyd yr hysbyseb yn ddwyieithog o fewn yr amser dynodedig. Camgymeriad llwyr oedd peidio cyhoeddi'r hysbyseb yn y ffurf gywir.<br><br>Cylchredwyd neges trwy e-bost at holl staff y Cyngor Sir yn eu hatgoffa y dylid sicrhau y bydd yr holl ddeunydd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |

| | |
|---|---|
| Cwyn 4 | Cwyn gan y Comisiynydd Iaith ynglŷn â hysbyseb uniaith Saesneg ar gyfer Triathlon  Llanc y Tywod.<br><br>Camau Cywiro - yn dilyn ymchwiliad, canfuwyd bod hysbysebion dwyieithog wedi'u cynhyrchu ond bod rhai uniaith Saesneg hefyd ar gael ar gyfer y gynulleidfa darged yn Lloegr.  Daethpwyd i'r casgliad bod poster ar gyfer cynulleidfa Lloegr wedi'i osod mewn camgymeriad yn lleol.  Nid oedd unrhyw amheuaeth am ymrwymiad y cwmni i farchnata eu gweithgareddau yn ddwyieithog.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |
| Cwyn 5 | Cwyn gan y Comisiynydd Iaith ynglŷn â dynodiad iaith rhai swyddi a hysbysebwyd  o fewn y Gwasanaeth Plant.<br><br>Camau cywiro - cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddog o swyddfa'r Comisiynydd Iaith i egluro'r penderfyniad a derbyniwyd yr esboniad.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |
| Cwyn 6 | Cwyn gan aelod o'r cyhoedd am erthygl yn y papur a dyfyniad gan swyddog o'r Cyngor Sir ynglŷn â'r ffaith bod Sïon Corn uniaith Saesneg wedi'i benodi ar gyfer grotto yn yr Oriel.<br><br>Camau cywiro- ymddiheurwyd am unrhyw bryder personol a nodwyd bod geiriau'r swyddog wedi cael eu dyfynnu allan o gyd-destun.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |
| Cwyn 7 | Derbyniwyd cwyn am safon iaith llythyr a yrrwyd allan gyda slipiau cyflog.<br><br>Camau  cywiro - gyrrwyd allan yn ymddiheuro a nodi mai camgymeriad oedd peidio cael yr Uned Gyfieithu i wirio pob dogfen cyn ei gyrru allan.  Rhoddwyd addewid ni fyddai hyn yn digwydd eto.<br><br>Bodlonrwydd - nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |

| | |
|---|---|
| Cwyn 8 | Derbyniwyd cwyn ynglŷn â llythyr a ffurflenni uniaith Saesneg a yrrwyd allan gan y Cyngor Sir at gynhyrchwyr ar gyfer Marchnad Porthaethwy.<br><br>Camau cywiro - gyrrwyd ateb yn nodi y gyrrwyd y dogfennau allan ar ran y Grŵp.<br><br>Bodlonrwydd : nodwyd bodlonrwydd gyda chynnwys a phrydlondeb yr ymateb. |

## 4. Digonolrwydd Sgiliau Iaith Gymraeg

### 4.1 Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dan y pennawd hwn, mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod:

**DIG5 – nifer a % y staff o fewn gwasanaeth y Cyngor sy'n medru siarad Cymraeg (ac eithrio athrawon a staff ysgol)**

- **fesul adran wasanaeth**
- **yn ôl gradd y swydd**
- **fesul gweithle (swyddfa, canolfan a phrif swyddfeydd ardal).**

Mae'r Cyngor Sir bellach yn gweithredu'i Strategaeth Sgiliau ac yn cydnabod ei fod yn greiddiol i sicrhau fod gan y sefydliad y sgiliau dwyieithog ar hyn o bryd ac i'r dyfodol i ddarparu dewis iaith i'r cyhoedd.

Mae'r Cyngor Sir wedi gallu adrodd yn llawnach ar y dangosydd uchod eleni gyda chymorth y system gyfrifiadurol adnoddau dynol, 'Northgate'. Serch hynny, mae'r gwaith o lanhau'r data'n parhau.

Rhagwelir i'r dyfodol y bydd yn her i recriwtio a chynllunio'r gweithlu mewn rhai meysydd. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr elfen gystadleuol o fewn y farchnad lafur gyda chyflogau a'r ffaith nad oes bellach gynllun hyfforddeion proffesiynol gan y sefydliad. Yn ogystal, bydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r toriadau sydd ynghlwm â hyn yn cynyddu'r risg o ran cynllunio'r gweithlu i'r dyfodol.

Dangosir yr ystadegau cyfredol isod:

| **Diffiniadau** | |
|---|---|
| 0 | Dim Sgiliau |
| 1 | Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd) |
| 2 | Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith |
| 3 | Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol |
| 4 | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg |
| 5 | Rhugl – yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen |

### 4.1.1 Dadansoddiad fesul Gwasanaeth

### Cyfadran Dirprwy Brif Weithredwr

**Gwasanaeth Archwilio**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 5
Nifer Dychweliadau – 4
% Dychweliadau – 80%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0(0%) | 0 (0%) | 4 (100%) |

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 21
Nifer dychweliadau – 21
% dychweliadau – 100%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 2 (10%) | 3 (14%) | 3 (14%) | 6 (29%) | 7 (33%) |

**Gwasanaeth Cyllid**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 98
Nifer dychweliadau – 91
% dychweliadau – 93%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 4 (4%) | 3 (3.5%) | 3 (3.5%) | 3 (3.5%) | 5 (5.5%) | 73 (80%) |

**Gwasanaeth Cyfreithiol a Gweinyddol**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 31
Nifer dychweliadau – 28
% dychweliadau – 90%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (3.5%) | 1 (3.5%) | 3 (11%) | 23 (82%) |

**Gwasanaeth Polisi**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 17
Nifer dychweliadau – 16
% dychweliadau – 94%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 16 (100%) |

**Gwasanaeth Adnoddau Dynol**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 16
Nifer dychweliadau – 16
% dychweliadau – 100%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (6%) | 0 (0%) | 1 (6%) | 14 (88%) |

## Cyfadran Dysgu Gydol Oes

**Gwasanaeth Addysg**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 83
Nifer dychweliadau – 53
% dychweliadau – 64%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 1 (1%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 4 (8%) | 48 (91%) |

## Cyfadran Cymuned

**Gwasanaeth Darparu**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 543
Nifer dychweliadau – 324
% dychweliadau – 60%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 37 (11%) | 33 (10%) | 23 (7%) | 19 (6%) | 34 (11%) | 178 (55%) |

**Hamdden a Diwylliant**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 331
Nifer dychweliadau – 161
% dychweliadau – 49%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 11 (7%) | 14 (9%) | 10 (6%) | 15 (9%) | 31 (19%) | 80 (50%) |

**Gwasanaeth Tai**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 123
Nifer dychweliadau – 118
% dychweliadau – 96%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 4 (4%) | 7 (6%) | 6 (5%) | 5 (4%) | 14 (12%) | 82 (69%) |

**Gwasanaeth Plant**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 92
Nifer dychweliadau – 53
% dychweliadau –58%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 1 (1%) | 6 (11%) | 3 (6%) | 3 (6%) | 12 (23%) | 28 (53%) |

**Gwasanaeth Oedolion**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 107
Nifer dychweliadau – 70
% dychweliadau – 65%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 2 (3%) | 2 (3%) | 3 (4%) | 5 (7%) | 14 (20%) | 44 (63%) |

## Cyfadran Datblygu Cynaliadwy

**Priffyrdd a Rheoli Gwastraff**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 126
Nifer dychweliadau – 108
% dychweliadau – 85%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 1 (1%) | 3 (3%) | 3 (3%) | 3 (3%) | 13 (12%) | 85 (79%) |

**Gwasanaeth Eiddo**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 63
Nifer dychweliadau – 55
% dychweliadau – 87%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 3 (5%) | 9 (16%) | 2 (4%) | 1 (2%) | 10 (18%) | 30 (55%) |

**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 96
Nifer dychweliadau – 87
% dychweliadau – 91%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 9 (10%) | 2 (2%) | 3 (3%) | 15 (18%) | 58 (67%) |

**Gwasanaeth Datblygu Economaidd**
Nifer staff yn y gwasanaeth – 42
Nifer dychweliadau – 41
% dychweliadau – 98%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 1 (2%) | 6 (15.5%) | 31 (76.5%) |

### 4.1.2 Dadansoddiad yn ôl Graddfa Swydd

**Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth**
Nifer dychweliadau – 18

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 0% | 11% | 0% | 0% | 22% | 67% |

**Graddfeydd S01, S02 a P0**
Nifer dychweliadau - 334

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 1% | 6% | 4% | 6% | 15% | 68% |

**Graddfa 1-6**
Nifer dychweliadau - 898

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % | 7% | 7% | 5% | 5% | 12% | 64% |

### 4.1.3 Dadansoddiad Fesul Gweithle

**Staff a leolir mewn swyddfa**
Nifer staff yn y maes – 980
Nifer dychweliadau – 832
% dychweliadau – 85%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 26 (3%) | 59 (7%) | 28 (3.5%) | 28 (3.5%) | 117 (14%) | 574 (69%) |

**Gofal Cymunedol**
Nifer staff yn y maes – 304
Nifer dychweliadau – 203
% dychweliadau – 67%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 32 (16%) | 25 (12%) | 12 (6%) | 11 (5%) | 20 (10%) | 103 (51%) |

**Gofal Preswyl**
Nifer staff yn y maes – 227
Nifer dychweliadau – 107
% dychweliadau – 47%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 5 (5%) | 7 (7%) | 11 (10%) | 8 (7%) | 12 (11%) | 64 (60%) |

**Canolfannau Hamdden**
Nifer staff yn y maes – 209
Nifer dychweliadau – 48
% dychweliadau – 23%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 4 (8%) | 4 (8%) | 1 (3%) | 9 (19%) | 4 (8%) | 26 (54%) |

**Amgueddfeydd, Archifau a Diwylliant**
Nifer staff yn y maes – 54
Nifer dychweliadau – 22
% dychweliadau – 41%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 1 (4.5%) | 0 (0%) | 1 (4.5%) | 2 (9%) | 11 (50%) | 7 (32%) |

**Llyfrgelloedd**
Nifer staff yn y maes – 43
Nifer dychweliadau – 35
% dychweliadau – 81%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 1 (3%) | 3 (8%) | 1 (3%) | 2 (6%) | 28 (80%) |

**Parciau**
Nifer staff yn y maes – 8
Nifer dychweliadau – 6
% dychweliadau – 75%

| | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer (%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 1 (17%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 5 (83%) |

## 4.2 Adnoddau Dynol a Sgiliau

Mae’n ofynnol i’r Cyngor Sir adrodd ar y dangosydd isod sy’n canolbwyntio ar y maes adnoddau dynol a datblygiad sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i’r cwsmer.

**DIG4 – Adnoddau Dynol – sgiliau**

**(a) nifer a % y staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol.**

**(b) Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.**

Isod darperir gwybodaeth am y niferoedd a fynychodd y gwahanol lefelau o gymhwyster hyfforddiant iaith a gynigir am y cyfnod adrodd:

| **Cymhwyster** | **Nifer** |
|---|---|
| Cwrs WIpan – Dechreuwyr Pur | 8 |
| Cwrs WIpan – Dechreuwyr | 8 |
| Cwrs WIpan (cyrsiau allanol) | 2 |
| Cwrs Pellach (cwrs allanol) | 1 |
| Gloywi Iaith | 11 |
| **CYFANSWM** | **30** |

Yn ogystal â'r cyrsiau isod, mae nifer fechan o staff wedi mynychu cwrs Cymraeg yn y Gweithle wedi'i ddarparu gan Brifysgol Bangor.

Darperir elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith dan y Cynllun Anwytho Staff ac yn ystod y cyfnod hwn adrodd dan sylw fe'i derbyniwyd gan y niferoedd a ganlyn:

| **Dyddiad** | **Niferoedd** |
|---|---|
| 17 Ebrill, 2012 | 11 |
| 2 Mai, 2012 | 10 |
| 25 Mai, 2012 | 13 |
| 3 Hydref, 2012 | 6 |
| 7 Tachwedd, 2012 | 6 |
| 5 Rhagfyr, 2012 | 11 |
| 8 Chwefror, 2013 | 5 |
| **CYFANSWM** | **62** |

Bwriedir, yn ogystal, darparu elfen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses Anwytho i'r Aelodau Etholedig newydd ym mis Mai, 2013.

Mae'r Adain Adnoddau Dynol wedi diweddaru'r Strategaeth Hyfforddi a Datblygu'r Iaith Gymraeg yn ddiweddar. Fel rhan o'r broses o gryfhau'r system fewnol i adnabod anghenion datblygu yn y broses recriwtio, mae ymgais ar droed gan yr Adain i geisio cydweithio'n agosach gyda'r gwasanaethau i fonitro cynnydd unigolion sydd gydag amodau dysgu yn eu cytundebau cyflogaeth. Yn ogystal, mae'r ffurflen asesu sgiliau iaith bellach yn cael ei gynnwys yn y pecyn gwerthuso blynyddol ac yn cael ei ddefnyddio fel cyfle arall i geisio cadw'r awdit sgiliau'n gyfredol. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i gychwyn darparu gwersi Cymraeg ar lefel un i un o'r Tîm Rheoli ac i wneud defnydd o Ganolfan Iaith Nant Gwrtheyrn i gynorthwyo'r broses.

Er mwyn cyfrannu at y broses o godi ymwybyddiaeth staff newydd am fuddion cyflwyno dwyieithrwydd i'w plant o oedran cynnar, mae pecyn y mudiad TWF yn cael ei gynnwys fel rhan o'r pecyn Anwytho Staff.

## 5. Prif Ffrydio'r Gymraeg

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn diffinio prif ffrydio fel yr angen i ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd o waith y sefydliad.  Golyga hyn gymryd pob cyfle i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, cyfrannu at weledigaeth y Llywodraeth o Gymru ddwyieithog a chynllunio a darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith.  Mae Llywodraeth y Cynulliad yn 'annog prif-ffrydio materion yn ymwneud â'r Gymraeg o fewn….Llywodraeth leol'. Nodir yn ogystal fod angen i 'egwyddorion  prif ffrydio fod yn sail i'r gwaith o wneud polisi a darparu gwasanaethau ar draws holl gyfrifoldebau cyrff o'r fath.'  Isod ceir rhai enghreifftiau o sut mae'r Cyngor Sir yn ceisio prif ffrydio'r Gymraeg.

### 5.1 'Mwy Na Geiriau'

Mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol a luniwyd gan Llywodraeth Cymru.  Cydnabyddir bod gan sefydliadau gyfrifoldeb i adnabod ac i ymateb i angen ieithyddol fel rhan greiddiol o ofal ac i wneud hynny trwy 'gynnig rhagweithiol' o ddewis iaith.    Bydd yn ofynnol adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau'r rhaglen waith ym mis Ebrill, 2014 ac, fel rhan o'r trefniadau paratoadol, mae templed adrodd wedi'i baratoi a nifer o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr wedi'u rhaglennu.  Bydd cyfeiriad at gynnydd yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol at Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

### 5.2. Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth

Mae'r gwasanaethau wedi derbyn cais am adroddiadau cynnydd yn erbyn targedau'r cynlluniau gweithredu gwasanaeth a gwblhawyd y llynedd fel rhan o'r Cynllun Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog a ariannwyd gan Fwrdd yr Iaith.  O'r ymatebion sydd wedi dod i law hyd yn hyn, ceir rhai enghreifftiau o arfer da gan wasanaethau unigol:

- Dysgwyr o fewn yr Uned Datblygu Economaidd yn cael eu hannog i ymarfer sgwrsio mewn sefyllfaoedd un i un ac mewn awyrgylch anffurfiol dros ginio yn hytrach na sefyllfa fwy ffurfiol

- Nifer o staff o fewn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio'n ddwyieithog ac yn drafftio eu gwaith yn y Gymraeg heb wneud galwad ar adnoddau prin yr Uned Gyfieithu.

Bwriedir adeiladu ar y cynlluniau gweithredu gwasanaeth hyn trwy sefydlu dulliau monitro meintiol fel rhan o broses cynllunio busnes y Cyngor.

### 5.3 Grŵp Tasg Iaith

I gyd-fynd gyda Rhaglen Trawsnewid y Cyngor a chanlyniad yr etholiad, bydd aelodaeth y Grŵp Tasg Iaith yn cael ei adolygu a'i gadeirio gan y Deilydd Portffolio Iaith newydd.

### 5.4 Fforwm Iaith

Mae trefniadau ar y gweill ar y cyd gyda'r Fenter Iaith i ail sefydlu'r Fforwm Iaith Sirol fel cyfrwng strategol i raeadru amcanion 'Iaith Fyw Iaith Byw' ar lefel cymunedol. Mae corff o'r fath yn hanfodol ar hyn o bryd i adnabod bylchau mewn darpariaeth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg ac i rannu gwybodaeth am arfer da/pryderon am sefyllfaoedd risg. Bydd hyn yn cynnwys darparu mewnbwn i Asesiadau Effaith ar ddatblygiadau megis yr 'Ynys Ynni'. Bydd cylch gorchwyl y Fforwm yn canolbwyntio ar y meysydd a ganlyn:

- **Gweithgareddau Cyfrwng Cymraeg** - cyfrannu tuag at gynyddu'r gweithgareddau cymdeithasol sydd yn cynnig cyfleon i'r ifanc yn ogystal â mewnfudwyr gymdeithasu ac ymarfer y defnydd o'r Gymraeg.

- **Y Gymraeg a'r Economi leol -** cydweithio i gynyddu cyfleoedd i godi proffil yr iaith Gymraeg yn yr economi leol a rhoi gwerth economaidd i'r iaith trwy gynlluniau adfywio, twristiaeth ddiwylliannol a'r sector dai.

### 5.5 Technoleg Gwybodaeth

#### 5.5.1 Y Wefan a Chyfryngau Eraill

Yn dilyn arolwg o wefannau Cynghorau Sir yn ôl yn 2010, cymeradwywyd y Cyngor Sir ar safon ac ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau bod pob tudalen cynnwys yn ddwyieithog ynghyd â phob dogfen a ffurflen atodol. Yn ogystal, cynigir profiad gwelywio ieithyddol hwylus o fewn y safle gydag ansawdd y Gymraeg yr un mor gywir â'r Saesneg.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth sydd ar gael trwy gyfwng y Wefan trwy'r dulliau a ganlyn:

- trwy ddarparu 'Facebook' yn ddwyieithog (mae 194 o ddilynwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd);
- trwy ddarparu'r cyfrwng 'Twitter' yn ddwyieithog (mae 420 o ddilynwyr cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd);
- trwy'r rhaglen Modern Gov sydd ar hyn o bryd yn darparu cofnodion pwyllgorau'n ddwyieithog ac sy'n cael ei ddefnyddio i gyflwyno canlyniadau'r etholiad yn fyw ar 3 Mai, 2013);
- trwy ddarparu portal dwyieithiog ar gyfer tenantiaid tai cyngor yn ystod yr haf – bydd y portal yn galluogi tenantiaid i wneud apwyntiadau gyda'r Cyngor, cofnodi ceisiadau cynnal a chadw (a dilyn cynnydd) a chael balans eu cyfrif rhent ar lein.

### 5.6 Asesu Effaith Cydraddoldeb

Rydym yn parhau i weithio tuag at sicrhau ymagwedd gyson ar draws yr awdurdod yn nhermau cwblhau asesiadau effaith cadarn. Mae templed a chanllawiau – sy'n cynnwys canllawiau manwl yn seiliedig ar ddogfen 'Cyngor ar brif ffrydio'r Iaith Gymraeg' Bwrdd yr Iaith – ar gael ar ein mewnrwyd ac mae'r Uned Bolisi'n parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i wasanaethau.

Mae'r prosiect trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion ar Ynys Môn wedi rhoi cyfle i'r Cyngor ddefnyddio gwahanol ymagweddau a thempledi er mwyn prif lifo asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Er enghraifft, penderfynwyd cynnwys 'asesu effaith' fel eitem sefydlog i'w thrafod yng nghyfarfodydd wythnosol Bwrdd Llywio'r prosiect yma er mwyn sicrhau bod unrhyw oblygiadau'n cael eu hadnabod a'u cymryd i ystyriaeth yn fuan.

Ym mis Medi 2012, fe baratowyd adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar adnabod goblygiadau o ran cydraddoldeb wrth baratoi ar gyfer y broses ymgynghori. Mae'r adroddiad yma'n nodi bod nifer uchel o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac y byddai'r Cyngor yn sicrhau bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu cefnogaeth un i un os byddai angen hynny.

O ran casglu gwybodaeth berthnasol, bydd y gwaith sy'n cael ei wneud o dan Rhaglen Ynys Ynni ar hyn o bryd yn adnodd defnyddiol ar gyfer cynnal asesiadau effaith yn y dyfodol – gweler 7.1.

### 5.7 Rhesymoli Partneriaethau/Cynllun Integredig

Mae'r Cyngor Sir bellach wedi cwblhau'r broses o resymoli ei bartneriaethau statudol o wyth i un ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd. Yn ogystal, mae'r broses o uno Cynlluniau Integredig Sengl y ddwy Sir wedi cychwyn. Trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd, bydd cyfle i ddatblygu'r Gymraeg ar lefel strategol, darparu gwasanaethau a phartneriaeth.

## 6. Dadansoddiad o Berfformiad fesul Blaenoriaeth/Targed

Adroddir isod gynnydd yn erbyn y prif flaenoriaethau a risgiau:

| Gweithred | Targed | Diweddariad |
|---|---|---|
| Gweithredu Rhaglen Trawsnewid y Cyngor | Yn dilyn yr etholiad, sicrhau fod strwythurau llywodraethu a chraffu mewn lle. | |
| Gweithredu'r Strategaeth 'Mwy na Geiriau' | Adrodd ar gynnydd y rhaglen waith erbyn 1/4/14 | Gweler 5.1. |
| Ymgorffori'r Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth i'r Cynlluniau Busnes | Datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad erbyn 1/9/13 | Rhai gwasanaethau wedi adrodd ar gynnydd – gweler 5.2. |

| Gweithred | Targed | Diweddariad |
|---|---|---|
| Datblygu Sail Tystiolaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg | Cwblhau erbyn Rhagfyr, 2013 ar ôl derbyn ystadegau'r Cyfrifiad | Drafft o'r wedd gyntaf wedi'i dderbyn. |
| Cynnal Asesiadau Effaith ieithyddol ar bolisïau a chynlluniau'r Cyngor Sir | Rhan o Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Cydraddoldeb a fabwysiedir erbyn 1/4/12 | Gweler y cynnydd yn y maes hwn dan y pennawd 5.6. |
| Datblygu'r maes contractau | Gweler 3.1.4. | |

Yn ychwanegol at yr uchod, mae colli un swydd amser llawn yn yr **Uned Gyfieithu** fel rhan o arbedion effeithiolrwydd blwyddyn ariannol 2011/12 yn parhau'n risg.

## 7. Enghreifftiau o Arfer Da

### 7.1 Datblygu Sail Tystiolaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod fod yr Iaith Gymraeg yn elfen hanfodol yng ngwneuthuriad cymunedau Môn ac yn adlewyrchiad o draddodiadau a diwylliant. I sicrhau fod cymunedau'n datblygu mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol wrth ystyried newid i sicrhau fod yr holl ffactorau dylanwadol ac unrhyw ddatblygiadau newydd yn briodol a pherthnasol.

Wrth ystyried nodweddion cymdeithasol ac economaidd yr ynys a'r angen i hyrwyddo a gwarchod ei diddordebau trwy greu a chefnogi cymunedau cynaliadwy a datblygu'r economi, mae'r Cyngor Sir yn cydnabod yr angen i greu sail tystiolaeth gadarn am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. I gwrdd â'r angen hwn, dan raglen waith yr Ynys Ynni, mae'r Cyngor Sir a'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi comisiynu Astudiaeth Gwaelodlin o'r Iaith Gymraeg ym Môn. Bydd y waelodlin hon yn rhoi darlun cynhwysfawr a chywir am statws a llewyrch y Gymraeg a fydd yn sail gadarn ar gyfer paratoi a llywio polisïau a strategaethau, asesu effaith datblygiadau newydd a negydu manteision cymunedol/camau lliniaru gyda darpar ddatblygwyr.

### 7.2. Defnydd o Gyfryngau Newydd i Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod llwyddiant cyfryngau megis 'Facebook' a 'Twitter' er mwyn cynyddu'r deialog trwy gyfrwng y Gymraeg gyda dinasyddion. Mae dilynwyr 'Facebook' y Cyngor Sir wedi cynyddu o 45 y llynedd i 149 eleni sy'n fesur o lwyddiant y cyfrwng. Yn ogystal, bydd cyhoeddi canlyniadau'r etholiad yn fyw yn ddefnydd dyfeisgar o dechnoleg i hyrwyddo democratiaeth leol yn ddwyieithog.

### 7.3. Gwasanaeth Dwyieithog mewn Cytundeb Adran 33

Mae gwasanaeth a leolir ar y cyd yn bodoli rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Iechyd ar gyfer cefnogi plant anabl ac fe benderfynwyd integreiddio'r gwasanaeth yn ffurfiol trwy Gytundeb Adran 33. Mae'r ddau bartner wedi ymrwymo i sicrhau y bydd dewis iaith yn cael ei gynnig i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn dull rhagweithiol. Bwriedir ymgorffori hyn yn y cytundeb ffurfiol. Bydd y partneriaid hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth neu'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog. Fe gafwyd cyngor gan reolwr o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar y geiriad i'w gynnwys yn y cytundeb.

## 8. Cyhoeddi Gwybodaeth ar Berfformiad

Cyflwynir yr Adroddiad Monitro i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 10 Mehefin 2013. Oherwydd yr etholiad, nid oedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol newydd mewn lle mewn pryd i gyflwyno'r adroddiad hwn i'w sylw cyn ei ddanfon at Gomisiynydd y Gymraeg o fewn yr amserlen. Bwriedir cyflwyno'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 29 Gorffennaf 2013, a hynny'n amodol ar ganiatâd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar gyfer y cyhoedd ar wefan y Cyngor Sir ac mewn llyfrgelloedd ar yr ynys.

## Cynllunio Gwasanaeth Dwyieithog

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Polisïau a Mentrau Newydd**<br><br>Byddwn yn parhau i brif ffrydio'r Gymraeg i bolisïau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol trwy gryfhau ein trefniadau. | Cynnal asesiadau effaith ar bolisïau, strategaethau a phenderfyniadau allweddol y Cyngor Sir. | Hyfforddiant ar gael i staff allweddol yn ystod Tachwedd, 2011.<br><br>Templed a threfn gorfforaethol mewn lle erbyn 1/4/12. | Penaethiaid Gwasanaeth gyda'r Uned Bolisi yn cynnig arweiniad. | Gweler 5.6. |
| **Gweinyddiaeth Fewnol**<br><br>Byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y Cyngor. | Cynnal y prosiect 'Newid Agweddau - Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn y Weinyddiaeth' dan Gynllun Gweithleoedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith trwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a darparu pecynnau i uwch swyddogion a rheolwyr, comisiynwyr ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith. | 31/12/11 | Ymgynghorydd allanol dan nawdd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. | Prosiect wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac Adroddiad Diwedd Prosiect wedi'i ddarparu i Fwrdd yr Iaith erbyn 31/3/12 |
| Byddwn yn annog gwasanaethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol | Cynnal cynllun Pencampwyr Iaith o fewn y gwasanaethau<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth i lunio Cynlluniau Gweithredu Gwasanaeth<br><br>Monitro cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg trwy ddata'r Uned Gyfieithu. | Parhaus<br><br>1/4/12<br><br>Parhaus | Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi<br>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi<br><br>Uned Bolisi/Adain Gyfieithu | Canllaw gweithredu wedi'i baratoi i Bencampwyr<br><br>Parhau i ddadansoddi'r patrymau defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Byddwn yn anwytho Aelodau Etholedig newydd ar egwyddorion y Cynllun Iaith. |

## Cyflwyno Gwasanaeth Dwyieithog

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau ar Gontract**<br><br>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyfleu ac yn monitro gofynion y Cynllun Iaith i gyrff trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth trwy gontract ar ran y Cyngor. | Cynnal archwiliad o sampl o gontractau i sicrhau cydymffurfiaeth ieithyddol.<br><br>Diweddaru'r Canllawiau i Staff ar osod gwasanaethau trwy gontract i gyd-fynd ag egwyddorion 'Canllaw Caffael' Bwrdd yr Iaith | Llunio rhaglen dreigl o gontractau i'w harchwilio erbyn 1/4/12<br><br>30/6/12 | Uned Bolisi i arwain mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaeth.<br><br>Uned Bolisi | Llithriad yn y targed hwn oherwydd gofynion eraill.<br><br>Wedi cychwyn adolygu gofynion y 'Canllaw Caffael'.<br>Cynhyrchu Strategaeth Gomisiynu ar gyfer y Cyngor erbyn Medi, 2013. Cofrestr gychwynnol o brif gontractau'r Cyngor wedi'i gwblhau. |
| **Gwasanaeth Ieuenctid**<br><br>Byddwn yn sicrhau fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Adrodd i Fwrdd yr Iaith yn yr Adroddiad Monitro ar sut y gwnaeth y Gwasanaeth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.<br><br>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i arweinyddion y Clybiau Ieuenctid.<br><br>Adnabod pencampwr iaith ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | Yn flynyddol<br><br>3/9/11<br><br>31/12/11 | Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc/Rheolwr y Gwasanaeth Ieuenctid<br><br>Menter Iaith Môn mewn ymgynghoriad â'r Cyngor.<br><br>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | Darparwyd adroddiad ar hyn.<br><br>Cynhaliwyd yr hyfforddiant yn llwyddiannus.<br><br>Pencampwr Iaith wedi'i adnabod ond adnabyddir cyfleoedd pellach yn sgil Rhesymoli Partneriaethau. |

## Delio â’r cyhoedd sy’n siarad Cymraeg

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Trwy Gyfrwng y Gymraeg**<br>Byddwn yn ail godi ymwybyddiaeth staff | Ailgyhoeddi canllawiau i staff sy’n cynnig arweiniad ar ddarparu gwasanaeth yn dewis iaith y defnyddiwr. | Wrth gyhoeddi’r Cynllun Iaith diwygiedig. | Uned Bolisi. | Wedi’i gwblhau. |
| Byddwn yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg mewn cyfarfodydd | Darparu Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog<br><br>Darparu hyfforddiant ar egwyddorion y Canllaw ar gyfer Cadeiryddion | 1/4/12<br><br>1/9/12 | Uned Bolisi<br><br>Adain Hyfforddi | Gwaith wedi ei gychwyn.<br><br>Canllaw Cyfarfodydd Dwyieithog ar fewnrwyd y Cyngor.<br><br>Bydd y Canllaw yn cael ei rannu yn ystod Anwytho’r Aelodau Etholedig newydd. |
| Byddwn yn monitro ansawdd deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir. | Darparu gwasanaeth golygu gwaith trwy’r Adain Gyfieithu | Parhaus | Adain Gyfieithu | Parhaus. |
| Byddwn yn monitro ansawdd y gwasanaeth a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg | Comisiynu hapwiriad o ansawdd gwasanaethau<br><br>Derbyn adroddiadau gwasanaeth ar y defnydd o’r Gymraeg | Yn ystod 2013 os yw arian yn caniatáu (cynhaliwyd y diwethaf yn 2010)<br><br>Blynyddol | Comisiynu ymgynghorydd allanol i ymgymryd â’r gwaith.<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth/Uned Bolisi | Hyn wedi digwydd fel rhan o’r Arolwg Dinasyddion a gynhaliwyd yn ystod Mawrth 2012.<br><br>Mae cais am ddiweddariad cynnydd ar y Cynlluniau Gweithredu wedi’i gyflwyno i’r gwasanaethau. |

## Wyneb cyhoeddus y Cyngor

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy dechnoleg gwybodaeth. | Ffurflenni cais am swyddi ar gael ar y lein | Gorffennaf/Awst, 2012 | Adain Adnoddau Dynol/Rheolwr y Wefan | Gwaith o fewn targed. |
| | System democratiaeth newydd ar gael ar y wefan gyda gwybodaeth am Aelodau Etholedig, cofnodion, ymgynghoriadau dwyieithog ac e-petitiwn. | Gorffennaf/Awst, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Gwaith o fewn targed. |
| | Portal mynediad newydd i denantiaid tai i'w galluogi i wneud apwyntiad gyda'r Cyngor a chofnodi ceisiadau cynnal a chadw (a dilyn cynnydd) ar y lein. | Ebrill, 2013 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Bydd ar gael dros yr haf (Bydd tenantiaid hefyd yn gallu gweld balans eu cyfrif rhent drwy'r portal newydd) |
| | Sicrhau fod polisi 'Twitter' mewn lle. | Rhagfyr, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Gwaith o fewn targed. |
| | Sefydlu Fforwm Twristiaeth | Ebrill, 2012 | Adain Technoleg Gwybodaeth | Hyn yn digwydd. |
| Byddwn yn parhau i sicrhau fod holl arwyddion y Cyngor yn gwbl ddwyieithog | Byddwn yn parhau i weithredu'r drefn bresennol | Anelu at 100% cydymffurfiaeth | Gwasanaeth Priffyrdd | Cyflawni hyn. |
| | Cyhoeddi rhestr enwau lleoedd ar wefan y Cyngor | Ebrill, 2012 | Uned Bolisi/Gwasanaeth Priffyrdd | Rhestr wedi'i chyflwyno i'r Grŵp Tasg Iaith ar 22 Mai 2012. |

## Gweithredu ac arolygu'r Cynllun

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith y Cyngor | Cryfhau ein trefniadau monitro sgiliau ieithyddol staff fesul adran, gradd a gweithle gyda chefnogaeth meddalwedd Northgate trwy:<br><br>Ddiweddaru'r Awdit Sgiliau drwy'r broses werthuso<br><br>Gynnal Awdit Swyddi<br><br>Gymharu anghenion sgiliau gyda'r sgiliau sydd ar gael<br><br>Cryfhau sgiliau trwy adnabod anghenion hyfforddiant a monitro cynnydd staff yn erbyn targedau | Yn flynyddol<br><br>Rhagfyr, 2011 ac yna'n flynyddol.<br><br>Cychwyn y broses Rhagfyr, 2011 a chwblhau erbyn diwedd Mawrth, 2012<br><br>Ebrill-Mai, 2012<br><br>Mehefin-Awst, 2012 (cwblhau'r gwaith) | Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth<br><br>Penaethiaid Gwasanaeth | Hyn wedi digwydd yn Rhagfyr, 2011.<br><br>Dynodiad iaith swyddi ar gael ac yn parhau i gael eu rhoi ar y system gyfrifiadurol Adnoddau Dynol/ Cyflogau.<br><br>System werthuso swyddi newydd yn cyfarch y rhain. Gweler cynnydd dan 4.2. |
| Byddwn yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i staff | Darperir gwersi yn flynyddol trwy'r Adain Adnoddau Dynol | Adroddir ar y nifer sy'n mynychu hyfforddiant yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg | Adain Adnoddau Dynol | Hyn wedi digwydd. |

| Amcan | Gweithred | Amserlen / Targed | Cyfrifoldeb | Cynnydd at 1/6/13 |
|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith | Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r pecyn anwytho i staff newydd<br><br>Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff y Canolfannau Hamdden fel rhan o'r Cynllun Gweithleoedd Dwyieithog a noddir gan Fwrdd yr Iaith.<br><br>Darparu modiwl ar y Gymraeg i staff ar y fewnrwyd fel rhan o'r pecyn e ddysgu ar Gydraddoldeb | Cynhelir y sesiynau unwaith y mis (yn ddibynnol ar niferoedd)<br><br>Tachwedd-Rhagfyr, 2012<br><br>Ebrill, 2012 | Adain Adnoddau Dynol<br><br>Ar y cyd gyda 3 Cyngor Sir arall.<br><br>Adain Adnoddau Dynol. | Hyn yn digwydd yn rheolaidd.<br><br>Cyngor wedi cymryd rhan yn y Cynllun.<br><br>Trwydded y meddalwedd heb ei adnewyddu oherwydd y gost. Ystyried opsiynau eraill. |
| Byddwn yn sicrhau fod cwynion yn cael eu hymdrin â hwy yn unol â safonau corfforaethol y Cyngor Sir | Ymgorffori'r iaith Gymraeg i'r model corfforaethol 'Pryderon a Chwynion' fel bod modd datrys achosion cyn iddynt fynd yn rhy ddyrys. | Model yn cael ei gyflwyno ar ôl etholiad lleol 2012 | Swyddog Cwynion Corfforaethol | Adolygu'r sefyllfa oherwydd diffyg cyllid i gefnogi'r model. |
| Byddwn yn sicrhau ein bod yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Iaith | Cylch Gorchwyl y Grŵp Tasg Iaith wedi 'i adolygu i fonitro cynnydd ac adnabod risgiau. | Cyfarfodydd chwarterol. Derbyn ystadegau ar benodiadau i swyddi yn chwarterol.<br>Adrodd ar unrhyw risgiau neu fylchau mewn perfformiad i sylw'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol i'w craffu'n ymhellach fel bo'r angen. | Uned Bolisi yn cydlynu. | Hyn yn digwydd. |

## Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – Gwasanaeth Ieuenctid

Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn o ran 2012/13:

### 1. Darpariaeth

Darperir y gwasanaeth ar lefel (iii) – darpariaeth gynhwysfawr.

| | |
|---|---|
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae'r staff i gyd yn rhugl yn y Gymraeg, a'r gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog | 30 clwb |
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae o leiaf un aelod o staff yn Gymraeg yn rhugl yn y Gymraeg, a'r lleill yn Gymraeg ail iaith. | 5 clwb |
| Nifer o Glybiau Ieuenctid lle mae'r staff yn Gymraeg ail-iaith | 1 clwb |
| Nifer o Glybiau lle mae o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg bob nos. | 35 allan o 36 clwb |
| Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhwydwaith o glybiau Cymraeg ar draws yr ynys. | 9 clwb |
| Cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnal rhaglen eang o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys Eisteddfodau, Chwaraeon, Cystadlaethau Adloniant, Siarad Cyhoeddus, Rali Weithgareddau, Cystadlaethau Barnu Stoc. Mae'r mwyafrif o'r gweithgareddau yn arwain at gyfle i gystadlu ar lefel Cenedlaethol yn y Gymraeg. | |
| Gwasanaeth Bws All-ymestyn ar y cyd hefo Mudiadau Gwirfoddol yn gwbl ddwyieithog. | 3 neu 4 noson yr wythnos |
| Prosiect Fforymau Ieuenctid (ar y cyd hefo'r Bartneriaeth Plant ac Ieuenctid). Cynhelir 5 Fforwm Dalgylch, un Fforwm Sirol, a nifer o weithgareddau tasg a gorffen eraill. Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog | 6 Fforwm Ieuenctid |
| Canolfan Agored Gwobr Dug Caeredin - 4 yn ddwyieithog | 4 |
| Grwpiau ennill achrediadau mewn Cynlluniau Cyrhaeddiad Ieuenctid (ASDAN), Agored Cymru | 15 grŵp |
| Ers mis Ionawr mae'r Gwasanaeth yn y broses o apwyntio Gweithiwr Ieuenctid Ysgol ar gyfer pob dalgylch ysgol, a byddant hwy'n gyfrifol am ddatblygu cyfleoedd achredu allgyrsiol dwy-ieithog i bobl ifanc o fewn yr ysgolion a'r clybiau ieuenctid, drwy'r Cynllun Potensial (Arian ESF). | 4 allan o'r 5 Ysgol uwchradd a'u dalgylchoedd yn cynnig gwasanaeth Cymraeg |

2. **Cydweithio â phartneriaid**

Mae yna Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc i gynnig clybiau a gweithgareddau Cymraeg ar lefel ardal, sir a chenedlaethol.

Cefnogwyd yr Urdd i gynnal Cwrs Arweinyddion Iau, er mwyn medru sicrhau bod ganddynt bobl ifanc cymwysedig, i fedru cynyddu'r nifer o adrannau pentref, aelwydydd, a chlybiau diddordeb, a gynhelir gan yr Urdd. Yn anffodus, mae'r mwyafrif o'r bobl ifanc wedi gadael i fynd i ffwrdd i Golegau. Fodd bynnag, cynigiwyd y cwrs eto yn 2012/13 gyda grŵp iau, gan obeithio y byddant hwy ar gael i gynorthwyo hefo grwpiau ar yr ynys yn 2013/14.

**Targed**: 10 o bobl ifanc wedi cwblhau Cwrs Agored Cymru, lefel 2, mewn Gwaith Ieuenctid, drwy gyfrwng y Gymraeg yn haf 2012. Grŵp newydd o 8 yn dilyn yr un cwrs yn 2012/13.

**Canlyniad i'w gyrraedd**: Tystiolaeth o'r bobl ifanc yma yn cynnig darpariaethau newydd, neu'n symud i arwain clybiau presennol, dros y 2 flynedd nesaf.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn parhau mewn trafodaethau gyda'r Urdd i gymryd drosodd Canolfan Ieuenctid Penmynydd, i fod yn Ganolfan Ieuenctid Wledig i'w datblygu fel canolfan i ddatblygiadau Cymraeg a gwledig ar yr ynys. Cymhlethdodau cyfreithiol hefo perchnogaeth y tir yn golygu na throsglwyddwyd yr adeilad yn 2012/13 fel y bwriadwyd ond gobeithir cwblhau hyn yn 2013/14.

Cyd-weithiodd Gweithiwyr Datblygu Achredu'r Gwasanaeth Ieuenctid gyda'r Urdd, drwy eu dau Weithiwr Llwybrau'r Brig (Reaching the Heights - arian ESF), i gynnal gweithdai'r Sgwad Sgwennu, lle enillwyd tystysgrifau Agored Cymru mewn sgiliau ysgrifennu dros gyfnod o 10 wythnos (15 o bobl ifanc). Cyd-weithiwyd hefo'r Urdd hefyd i sicrhau hyfforddwyr Cymraeg i weithio tuag at alldeithiau Gwobr Dug Caeredin.

Oherwydd bod nifer aelodaeth Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi gostwng dros y 2 flynedd diwethaf, gweithiodd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc i sicrhau arian o Grant Refeniw'r Cynulliad i Wasanaethau Ieuenctid i weithio ar Becyn Marchnata ar gyfer y Mudiad i greu delwedd gyfoes.

**Targed oedd** i:
- Lunio cynllun marchnata
- Cynllunio a chynhyrchu defnyddiau marchnata deniadol e.e. pamffledi, posteri, baneri, a phapur ysgrifennu newydd.

**Canlyniad wedi ei gyrraedd yn 2012/13** – cynydd yn aelodaeth y Mudiad o 3% hyd at diwedd Mawrth ac aelodaeth ddim yn cau tan Gorffennaf (wedi gwella ar eu targed o 1.4% i 2% o bobl ifanc Cymraeg y sir).

**Cefnogi a chynnal Gweithgareddau Cymraeg:** O ganlyniad i'r hyfforddiant a ddarparwyd drwy'r grant Refeniw i gymhwyso aelodau o Fudiad y Ffermwyr Ifanc mewn Cymorth Cyntaf, Hylendid Bwyd ac Asesu Risg mae aelodau'r Mudiad wedi bod yn cyd-weithio hefo Pwyllgor Apêl y Sioe Frenhinol Gymreig. Cynhaliwyd cyfres o weithgareddau Cymraeg ar gyfer dros 3,000 o bobl yn ystod Ionawr 2012-Mawrth 2013. Y ddau fudiad yma yw'r unig rai ar yr ynys yn haf 2013 sydd hefo gigiau hefo Bandiau Cymraeg wedi eu trefnu ar gyfer haf 2013, hyd yma (ar wahân i'r Ŵyl Gopr yn Amlwch). (e.e. Gig efo Moniars, #Band6 a Gwibdaith ym mis Mai; Gig hefo Celt yn Mai; Gig hefo Bryn Fôn + bandiau eraill ym mis Awst). Anelir i gael presenoldeb o tua 2,500 yn cymryd rhan mewn gweithgaredd Cymraeg neu ddwyieithog, rhwng y tri digwyddiad. Hefyd yn galluogi'r mudiad i weithio i godi incwm a chadw'r mudiad a'r clybiau'n hyfyw.

**Fforymau Ieuenctid**

Bu'r gwasanaeth Ieuenctid yn cyd-weithio gyda'r Ffermwyr Ifanc a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i redeg Prosiect Datblygu Cyfranogi ***Llais Ni*** (yn cynnal 5 Fforwm Ieuenctid Ardal, ac 1 Fforwm Ieuenctid Sirol).

**Canlyniad**:

30 o bobl ifanc wedi magu hyder i drafod materion o bwys iddynt hwy yn gyhoeddus mewn fforymau trafod, a chyflwyniadau.

Hefyd, mae'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc hefo Fforwm Ieuenctid eu hunain yn cyfarfod yn rheolaidd.

3. **Sgiliau Staff**

**Recriwtio Staff - Proffil Staff Gwasanaeth Ieuenctid**

| | **Staff Llawn-amser** | **Staff Rhan-amser** |
|---|---|---|
| Staff Rhugl eu Cymraeg | 11 | 57 |
| Staff Cymraeg Ail-iaith | 2 | 13 |
| Staff Di-Gymraeg | 0 | 1 |

Swyddi Llawn-amser - Cymraeg yn hanfodol. Rhyddheir staff sy'n dymuno i fynychu cyrsiau Gloywi Iaith yn ystod eu hamser gwaith, er mwyn gwella eu sgiliau i ddefnyddio'r iaith. Disgwylir i bob gohebiaeth fynd allan yn ddwyieithog o'r brif swyddfa.

Staff Rhan-Amser - Cymraeg yn hanfodol mewn 29 clwb ieuenctid, ac yn ddymunol yn y 5 arall. Yn y clybiau lle bo'r Gymraeg yn ddymunol, sicrheir bod o leiaf un aelod o staff yn rhugl yn y Gymraeg. Penderfynir ar yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol yn ôl y ganran o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn yr ardal.

Disgwylir i bob clwb ddilyn y Canllawiau Iaith Gymraeg i glybiau, gyflwynwyd yn y Seminar yn 2011. Mae staff bugeilio yn monitro i sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu ym mhob clwb. Dilynir hyn gyda hyfforddiant pellach os bydd angen yn cael ei adnabod yn y Cyfarfodydd Gwerthuso yn ystod Ebrill-Gorffennaf.

Sicrheir wrth gyfweld staff newydd fod gan bob aelod o staff ewyllys da tuag at yr iaith Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn monitro'n flynyddol faint o aelodau sy'n nodi eu bod yn Gymraeg, hefo rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ac yn ddi-Gymraeg.

4. **Cyllid**

| Adran | Mudiad | Cytundeb | Swm | Hyd y cytundeb | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Ieuenctid | Yr Urdd | CLG | £20,880<br><br>£20,380 | Grant<br>2012/13<br>2013/14 | I'w adolygu yn Ion 2014 at 14/15 |
| Ieuenctid | Federasiwn Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | CLG | £20,880<br><br>£20,380 | Grant<br>2012/13<br>2013/14 | I'w adolygu yn Ion 2014 at 14/15. |
| Ieuenctid | Gwas Ieuenctid | | £4,000 | | Darparu cyfieithwyr ar y pryd, mewn cyfarfod lle bo angen. |
| PPI | Gwas Ieuenctid a PPI | CLG | £45,000 | 1 flwyddyn | Datblygu Prosiect **Llais Ni** (cyfranogi) |
| Ieuenctid | Urdd ac C Ff I | | £6,000 | Blynyddol | Cynnal a chadw Canolfan Ieuenctid Penmynydd – Canolfan Gymraeg Wledig |
| Grant Teuluoedd yn Gyntaf | Gwas Ieuenctid a'r Groes Goch | CLG | £50,000 | 3 blynedd | Darparu Gwasanaeth All-ymestyn dwyieithog |

Gweithredir y Gwasanaeth Ieuenctid yn gwbl ddwyieithog, felly mae costau hyn yn rhan o weinyddiad sylfaenol hanfodol yr adran.

5. **Ymgynghori**

Ymgynghorwyd gyda staff yn gyson yn ystod cefnogaeth fugeiliol i sicrhau eu bod yn dilyn Polisi Iaith y Gwasanaeth.

## Cwestiynau Meysydd Blaenoriaeth – y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gallwn adrodd fel a ganlyn o ran 2012/13:

**Sut ydych chi fel awdurdod lleol yn sicrhau bod aelodau eich Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn cydymffurfio â gofynion eich Cynllun Iaith Gymraeg?**

Nid yw Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Môn yn bodoli bellach. Mae'r gwaith cyflawni yn cael ei arwain gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol. Nid oes cyfarfodydd wedi'u cynnal yn ystod 2012/13, tra bod y bwrdd prosiect yn rhesymoli ar draws y ddwy sir. Bydd rhaid i'r grŵp cyflawni ymateb i ofynion ieithyddol y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

Bydd aelodaeth o'r Grŵp Cyflawni Plant a Phobl Ifanc Gwynedd a Môn yn cael ei sefydlu ym mis Mehefin.

**Sut ydych chi'n asesu i ba raddau mae'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a gynigir drwy'r Bartneriaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc y sir?**

Rydym yn defnyddio adroddiadau chwarterol i fonitro'r gwaith ac mae asesiadau anghenion yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Holiadur Monitro ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth gan Ddarparwyr Rhaglen Cefnogi Pobl gyda'r

**DDEDDF IAITH GYMRAEG 1993** /

Monitoring Questionairre to ensure Supporting People Provider Ccompliance with the
**WELSH LANGUAGE ACT 1993**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Darparydd a Chyfeiriad /** Provider Name and Address | | | | | | | |
| **Nifer o Staff sy'n darparu Cefnogaeth sy'n ymwneud â Tai o fewn eich mudiad /** Number of Staff employed by your organisation who provide housing related support | | | | | | | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau Staff o'r Iaith Gymraeg** / Staff Knowledge and skill of the Welsh language; | | | | | | | |
| **Ar lafar**/ Spoken<br><br>(rhowch nifer y staff yn y blwch/*put the number of staff in the box* ) | | | | | | | |
| Dim<br>*None* | | Rhywfaint<br>*Some* | | Dysgwr(aig)<br>*Learner* | | Rhugl<br>*Fluent* | |
| **Yn ysgrifenedig**/ Written<br><br>(rhowch nifer y staff yn y blwch/*put the number of staff in the box* ) | | | | | | | |
| Dim<br>*None* | | Rhywfaint<br>*Some* | | Dysgwr(aig)<br>*Learner* | | Rhugl<br>*Fluent* | |

| | |
|---|---|
| **Ydi'r holl ddeunydd sydd yn cael ei rannu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog? (Atodwch** | |

| | |
|---|---|
| **neu amgaewch ddwy ddogfen i wirio hyn os gwelwch yn dda. e.e. taflen wybodaeth, ffurflen gyfeirio a.y.b).**<br><br>*Is all material which is shared with the public, bilingual? (Please enclose or attach two copies as verification e.g. information leaflet, referral form etc).* | |
| **A yw'r cyhoedd/defnyddwyr gwasanaeth yn cael cynnig dewis o'r iaith Gymraeg pan yn derbyn gwasanaeth trwy lythyr, ffurflen, dros y ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb?**<br><br>*When the public/service user receives a service do they get a choice of using the Welsh language when dealing with the contractor by letter or form, over the telephone, or face to face?* | |
| **Ydi'ch rotas staff yn ystyried ac yn sicrhau bod staff dwyieithog ar gael drwy'r amser?**<br><br>Do your staff rotas take into consideration and ensure that bilingual staff are available at all times? | |
| **A yw llythyrau yn cael eu hateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gan yr aelod o'r cyhoedd/defnyddiwr?**<br><br>*Are letters answered in the same language used by the public/service user?* | |
| **A ydych yn cynnig cyrsiau/hyfforddiant dysgu Cymraeg i'ch staff?**<br><br>Do you offer courses/training on learning Welsh to your staff? | |
| **Ydi holl arwyddion eich cwmni/mudiad yn ddwyieithog?**<br><br>*Is all of your company's/organisation's signage bilingual?* | |

| | |
|---|---|
| **Oes gennych bolisi iaith Gymraeg cyfredol?**<br>(a wnewch chi gynnwys copi o'r polisi os gwelwch yn dda)<br><br>Do you have a current Welsh language policy?<br>*(Can you please include a copy of the policy)* | |

**Enw'r Person sydd wedi cwblhau'r holiadur** /

Name of Person completing the questionnaire

**Teitl Swydd /** Job Title**:**

**Dyddiad /** Date

This page is intentionally left blank